

Gwasanaeth  
Cyfreithiol  
Cymunedol



# Gwneud Hawliau Cyfreithiol yn Realaeth

Strategaeth y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol ar  
gyfer y Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol

**Cyfrol Un:**  
Papur Ymgynghori



COMISIWN  
gwasanaethau cyfreithiol

## *Ein gweledigaeth*

Ein gweledigaeth yw Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol sy'n canolbwyntio ar hawliau unigolion. Byddwn yn datblygu gwasanaethau cyfreithiol a chynghori i gynnal yr hawliau hyn, sydd wedi eu targedu at y bobl y mae'n bosibl na fedrai gael mynediad i gyfiawnder heb gymorth y Gwasanaeth.

Mae ymrwymiad i ddefnyddio'r gyfraith i gyflawni newid cadarnhaol yn greiddiol i'r Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol: mewn bywydau unigol, mewn cymunedau sy'n rhannu problem gyffredin ac ar draws grwpiau sy'n wynebu materion neilltuol. Mae wedi ei seilio ar weledigaeth sy'n cydnabod fod pobl angen mynediad i wasanaethau integredig a diwniâd, ac nad ydynt yn wynebu 'problemau cyfreithiol' ond problemau y gall y gyfraith gynnig datrysiaid iddynt. Anelwn ddatblygu'r Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol fel ei fod:

- *Â ffocws cleient ac yn hygyrch*
- *Annibynnol*
- *Cost-effeithlon ac wedi'i gydlynu*
- *Â sicrwydd ansawdd*

Gwasanaeth  
Cyfreithiol  
Cymunedol



---

**Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol**

85 Gray's Inn Road

Llundain WC1X 8TX

t: (020) 7759 0000

[www.legalservices.gov.uk](http://www.legalservices.gov.uk)

Gwneud hawliau cyfreithiol yn realaeth

Strategaeth y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol ar gyfer  
y Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol

Cyfrol Un:

Papur Ymgynghori

Gorffennaf 2005



## CYNNWYS

Rhagair	5
Crynodeb Gweithredol	7
Sut i ymateb	13
Cwestiynau ymgynghori	15

## RHAN A

1. Gwasanaethau cyfreithiol cymunedol a'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol	19
2. Ein gweledigaeth ar gyfer y Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol	23
3. Heriau allweddol ac ymatebion strategol	27

## RHAN B

4. Yr angen am newid	33
5. Cydweithio	35
6. Cyllido'r Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol	41
7. Meysydd gwaith blaenoriaeth ar gyfer y Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol	43
8. Dynesiad unedig at wasanaethau cymorth cyfreithiol	53
Atodiad Un: Y Camau Nesaf – papurau polisi'r Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol	57
Atodiad Dau: Yr Hyn a Gyflawnodd y Gwasanaeth Cyfreithol Cymunedol – Y Pum Mlynedd Cyntaf	65
Atodiad Tri: Deddf Mynediad i Gyfiawnder (Rhan)	73
Atodiad Pedwar: Aseiad Effaith Dechreuol (Rheoleiddiol, Cydraddoldeb a Gwledig)	81
Atodiad Pump: Meini prawf ymgynghori	87

Caiff y papur ymgynghori hwn, sy'n ffurfio Cyfrol Gyntaf strategaeth y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol ar gyfer y Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol ei gefnogi gan ail gyfrol, 'Trosolwg o'r Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol'. Mae'r Ail Gyfrol ar gael ar wefan y Comisiwn, yn [www.legalservices.gov.uk/civil/docs\\_for\\_consultation/civil.asp](http://www.legalservices.gov.uk/civil/docs_for_consultation/civil.asp)



## Rhagair




Mae'r Comisiwn yn adfocad angerddol dros y Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol. Mae ganddo'r per i amddiffyn a hyrwyddo hawliau sylfaenol pobl a gwneud gwelliannau gwirioneddol yn eu bywydau. Mae'n cyflawni hyn drwy roi mynediad i bobl i rym y gyfraith drwy addysg, gwybodaeth, cyngor a chynrychiolaeth.

Yn ddiweddar cyhoeddwyd "A Fairer Deal for Legal Aid" gan yr Arglwydd Falconer, Ysgrifennydd Gwladol Materion Cyfansoddiadol. Yn y ddogfen, mae'n nodi ei weledigaeth ar gyfer rôl gwasanaethau cyfreithiol a chynghori wrth ddatrys anghydfodau neu broblemau sifil. Yn y papur ymgynghori hwn mae'r Comisiwn yn nodi'r cyfraniad a wnaiff i'r weledigaeth hon drwy wella ffocws cymorth cyfreithiol sifil ar gleientiaid a chynnig arweinyddiaeth i'r Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol.

Nid yw'r Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol (CLS) a'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol (LSC) yr un peth - a dyma'r gwahaniaeth allweddol rhwng y CLS a'r hen system o gymorth cyfreithiol. Mae'r CLS yn llawer ehangach na'r cyngor cyfreithiol a chynrychiolaeth a ariennir yn uniongyrchol gan y Comisiwn. Mae awdurdodau lleol ac adrannau llywodraeth ganolog yn buddsoddi symiau mawr mewn gwasanaethau cyfreithiol a chynghori, gan gydnabod yn glir yr effaith gadarnhaol y gall y gwasanaethau hyn ei gael. Mae'r CLS yn cwmpasu amrediad eang o'r gwasanaethau hyn ac yn ein galluogi, gyda'n partneriaid, i gynllunio a chyflenwi gwasanaethau cyfreithiol a chynghori sy'n ateb anghenion y bobl a wasanaethwn yn well.

Felly thema sylfaenol y papur ymgynghori hwn yw ymrwymiad agosach a dyfnach gyda budd-ddeiliaid eraill yn y CLS i roi mwy o ffocws iddo ar anghenion cleient ac i fod yn fwy effeithlon wrth gyflenwi gwasanaethau ansawdd uchel sy'n ateb yr anghenion hynny a sicrhau canlyniadau cadarnhaol i gleientiaid.

Hyd yn oed ar ôl mwy na 50 mlynedd o gymorth cyfreithiol a chyfnod hyd yn oed yn hirach o wasanaethau cynghori blaengar, mae dal ormod o bobl heb fynediad i'r gwasanaethau cyfreithiol a chynghori y maent eu hangen. Mae'r Comisiwn yn ymroddedig i weithio gydag eraill i newid hyn.



**Syr Michael Richard**  
Cadeirydd, Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol



## Crynodeb Gweithredol

### Gwasanaethau cyfreithiol cymunedol a'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol

(Adran 1, tudalennau 19 -22)

Mae "A Fairer Deal for Legal Aid" a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn nodi gweledigaeth yr Arglwydd Ganghellor ar gyfer cymorth cyfreithiol. Mae'r papur ymgynghori hwn yn gyfraniad pwysig a chanolog i'r weledigaeth honno, gan osod cynllun y Comisiwn i wella ffocws cymorth cyfreithiol sifil, hyrwyddo gwasanaethau cynghori cydlynol yn well a darparu'r arweinyddiaeth y mae'r Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol ei angen.

Sefydlwyd y Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol (CLS) gan y Ddeddf Mynediad i Gyfiawnder 1999, sy'n disgrifio'r CLS nid fel un corff neu sefydliad ond yn nhermau ei bwrpas: yn bennaf i hyrwyddo argaeledd gwasanaethau cyfreithiol - gwybodaeth, cyngor a chynrychiolaeth - mewn cyfraith sifil. Mae gan y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithol (LSC) ddyletswydd i ddatblygu a chynnal y CLS. Fodd bynnag, medrai'r CLS gynnwys pawb sy'n cyllido, darparu neu hwyluso gwasanaethau cyfreithiol a chynghori sifil. Mae budd-ddeiliaid allweddol yn y CLS felly yn cynnwys awdurdodau lleol ac adrannau llywodraeth leol, y sectorau cyfreithwyr a chynghori, yn ogystal wrth gwrs â chleientiaid - y rhai sy'n derbyn y gwasanaeth mewn gwirionedd. Mae'n thema ganolog o'r strategaeth hon y gall yr holl fudd-ddeiliaid hyn yn cydweithio sicrhau gwell canlyniadau na phetaent yn gweithio ar wahân.

Yr amcan craidd wrth hyrwyddo argaeledd gwasanaethau cyfreithol a chynghori drwy'r Gwasanaeth Cyfreithol Cymunedol (CLS), ac yn yr LSC yn cyllido help o'r fath yn uniongyrchol, yw diogelu a hyrwyddo hawliau pobl. Yn neilltuoel:

- galluogi unigolion i ddiogelu eu hawliau sylfaenol yn wyneb gweithredu gan awdurdodau cyhoeddus ac i dderbyn gwrandawriad teg yn, er enghraifft, achosion iechyd meddwl ac achosion plant cyfraith gyhoeddus;
- eu helpu i ddatrys anghydfod cyfraith breifat megis achosion cyfraith breifat teulu ac esgeulustod clinigol, drwy negydu a datrysiadau heb fod yn seiliedig mewn llys lle bo modd, a thrwy fynediad i'r llysoedd lle mai dyma'r unig lwybr, neu'r llwybr mwyaf addas; a
- mynd i'r afael â phroblemau, megis y rhai'n ymwneud â dyled, budd-daliadau lles a thai, sy'n cyfrannu at allgauedd cymdeithasol, a thrwy hynny helpu i'w atal.

Mae llawer o'r bobl y mae'r CLS yn eu helpu yn dlawd (ac felly yn methu talu'n breifat am fynediad i wasanaethau cyfreithiol), wedi eu hallgau'n gymdeithasol ac yn dibynnu ar help a ddarperir gan asiantaethau llywodraeth ac awdurdodau lleol. Mae ymchwil hefyd yn dangos fod pobl sydd ag un broblem y medrid eu datrys yn cyfreithiol yn fwy tebygol o fod ag eraill.

Y grwpiau cleient a'r meysydd o gyfraith hyn fu ein ffocws mwyaf yn ein rôl ehangach o sefydlu, datblygu a chynnal y CLS, a hwy felly sy'n ffurfio prif ffocws ein gwaith gyda budd-ddeiliaid eraill y CLS.

### Ein gweledigaeth ar gyfer y Gwasanaeth Cyfreithol Cymunedol

(Adran 2, tudalennau 23 - 25)

Ein gweledigaeth yw Gwasanaeth Cyfreithol Cymunedol sy'n dod i'r cleient yn ei ganol ac yn canolbwyntio ar hawliau'r unigolion. Byddwn yn datblygu gwasanaethau cyfreithiol a chynghori i gynnal yr hawliau hyn, wedi'u targedu at bobl efallai na fyddai mynediad i gyfiawnder yn bosibl hebddo.

Mae gennym hefyd farn glir y dylai'r CLS fod ag ymrwymiad creiddiol i ddefnyddio'r gyfraith i sicrhau newid cadarnhaol: mewn bywydau unigolion, mewn cymunedau sy'n rhannu problem gyffredin ac ar draws grwpiau sy'n wynebu materion neilltuol. Mae hefyd yn weledigaeth sy'n cydnabod fod pobl angen mynediad i wasanaeth integredig a diwniad, ac nad ydynt yn wynebu "problemau cyfreithiol" ond problemau y medrai'r gyfraith gynnig datrysiad iddynt.

Mae hyn i gyd yn ffitio o fewn cyd-destun cydnabod cyfraniad llawer o wasanaethau eraill sy'n gweithio i fynd i'r afael â'r un problemau ar gyfer cleientiaid. O wasanaethau iechyd ac addysg i ofal cymdeithasol a gwasanaethau cefnogaeth teulu, mae'n glir mai dim ond un o becyn o ddulliau yw'r CLS ar gyfer helpu unigolion fynd i'r afael â phroblemau a all fod yn eu hwynebu.

Rydym eisiau datblygu'r Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol fel ei fod:

- â ffocws cleient ac yn hygyrch;
- annibynnol
- cost-effeithlon a chydlynol; a
- gyda sicrwydd ansawdd.

### **Heriau allweddol ac ymatebion strategol**

(Adran 3, tudalennau 27 - 29)

Er y gwnaed cynnydd sylweddol ym mhwm mlynedd gyntaf y CLS, credwn mai'r prif heriau sy'n wynebu'r CLS wrth gyflenwi'r weledigaeth hon yw:

- sicrhau fod holl gyllidwyr gwasanaethau cyfreithol a chynghori yn cyd-flaenori eu gwariant ac yn sicrhau'r gwerth gorau posibl am arian
- ennill gwell dealltwriaeth o'r angen am wasanaethau cyfreithiol. Byddwn yn parhau i gynnal ymchwil i angen cyfreithiol (er enghraifft, parhau gyda'n Harolwg Cyfiawnder Sifil a Chymdeithasol) a bydd angen i ni ymrwymo budd-ddeiliaid eraill, yn arbennig cleientiaid a'r grwpiau sy'n eu cynrychioli, i drosi hyn yn ddealltwriaeth wirioneddol o ofynion cleientiaid;
- rhoi mwy o ffocws cleient i wasanaethau cyfreithiol a chynghori - yn arbennig drwy gydnabod fod gan gleientiaid yn aml amrediad o broblemau sy'n torri ar draws y ffordd y caiff y CLS ei drefnu ar hyn o bryd, gyda gwahanol ffrydiau cyllid ac arbenigeddau. Mae hefyd angen i ni deilwra gwasanaethau yn unol ag ardaloedd daearyddol. Tra mai ardaloedd trefol sy'n tueddu i fod â'r angen cyfreithiol mwyaf, mae angen i ni gynnal gwasanaeth cenedlaethol a mynd i'r afael â phroblemau neilltuol ardaloedd gwledig;
- gwneud gwasanaethau cyfreithiol a chynghori yn fwy hygyrch, yn arbennig i grwpiau agored i niwed nad ydynt yn cyrchu gwasanaethau traddodiadol (megis cleientiaid gyda phroblemau iechyd meddwl); a
- sicrhau argaeledd cydlynol gwasanaethau cyfreithol a chynghori i ateb anghenion blaenoriaeth drwy gydlyn budd-ddeiliaid CLS i ostwng costau trafodion, atal dyblygu a darparu ar gyfer y gwasanaethau diwniad y mae cleientiaid eu hangen.

## Yr angen am newid

(Adran 4, tudalen 33 - 34)

Mae'r cynigion a nodir yn y rhan hon o'r strategaeth ar gyfer ymgynghoriad yn llifo o:

- ein dadansoddiad o'r data ymchwil a thystiolaeth a nodir yn Ail Gyfrol y strategaeth hon;
- ein profiad o ddatblygu a chyflenwi'r CLS hyd yma;
- ein dadansoddiad o'r adolygiad annibynnol o'r CLS a gynhaliwyd yn 2004 gan Matrix Research and Consultancy, ac ymchwiliad Pwyllgor Dethol Materion Cyfansoddiadol T'r Cyffredin i gyngor cyfreithiol sifil;
- trafodaethau a gawsom gyda budd-ddeiliaid y CLS, yn cynnwys rhai o fewn llywodraeth ganolog a lleol, darparwyr gwasanaethau cyfreithiol a chynghori a'r bobl sy'n eu cynrychioli; a
- dadansoddiad a gwaith a wnaed gan Adolygiad Cymorth Cyfreithiol Sylfaenol yr Adran Materion Cyfansoddiadol.

Ystyriwn fod pum pwynt allweddol yn deillio o'r dystiolaeth a'r dadansoddiad hwn:

- Mae angen i'r LSC ddarparu arweinyddiaeth glir i'r CLS yn cynnwys darparu cyfeiriad strategol a gweithio gydag eraill i fynd i'r afael ag achosion problemau;
- Nid yw pob Partneriaeth Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol (CLSP) wedi cyflenwi'r dystiolaeth i ganiatáu comisiynu gyda mwy o ffocws o wasanaethau cyfreithiol a chynghori i ateb anghenion blaenoriaeth;
- Mae angen gwell mynediad i gyngor cyfreithiol cynnar ar gyfer cleientiaid presennol a hefyd y rhai nad ydynt yn cael cyngor am y problemau sy'n eu hwynebu;
- Mae angen i wasanaethau cyfreithiol a chynghori lles cymdeithasol gael eu darparu mewn modd integredig a diwniad i gael yr effaith mwyaf ar gyfer y cleientiaid mwyaf difreintiedig; a
- Ar hyn o bryd nid yw gwasanaethau o reidrwydd yn y lleoedd cywir i ateb blaenoriaethau a ddynodwyd mewn modd strategol. Yn y dyfodol dylai gwasanaethau gael eu comisiynu ar dargedau a gytunwyd ar fynediad yn ogystal ag ar yr amrediad o wasanaethau a gyflenwir.

Dymunwn ymgynghori'n eang gyda holl fudd-ddeiliaid y CLS am y cynigion hyn a'u datblygu ymhellach mewn partneriaeth. Fodd bynnag, rydym yn glir fod newid yn hanfodol os ydym i wireddu yn llawn fuddion potensial y CLS ar gyfer ei gleientiaid ac ateb yr heriau allweddol a nodwyd uchod.

## Cydweithio

(Adran 5, tudalennau 35 - 39)

Dim ond drwy weithio yn fwy agos gyda chyllidwyr eraill megis awdurdodau lleol ac adrannau llywodraeth ganolog y byddwn yn cyflawni ein gweledigaeth. Cynigiwn sefydlu grŵp budd-ddeiliaid cenedlaethol ar gyfer y CLS yn cynnwys y partneriaid allweddol hyn ac, yn bwysig, gynrychiolwyr cleient.

Ar lefel ranbarthol, cynigiwn adolygu swyddogaeth gynllunio bresennol Partneriaethau Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol gyda golwg ar gyrraedd trefniadau mwy uniongyrchol a hyblyg gyda chyllidwyr eraill. Gall yr LSC gynnig mynediad i systemau o reolaeth perfformiad, sicrwydd ansawdd, rheolaeth contract a dadansoddiad anghenion i gyllidwyr CLS eraill. Medrai hyn sicrhau y cyfeirir cyllid tuag at gynyddu gallu darpariaeth a hyrwyddo gwasanaeth diwniad sy'n mynd i'r afael â'r amrediad o broblemau a gaiff cleientiaid.

Byddwn yn cymryd ymagwedd fwy strategol, yn genedlaethol ac yn lleol, wrth geisio ymrwymadau cyllido tymor-hir ar gyfer gwasanaethau cyfreithiol a chynghori o ffynonellau newydd ac wrth ddeall yr amcanion

ehangach sy'n gyrru ein partneriaid. Gall y CLS gyfrannu at agenda ehangach y llywodraeth drwy helpu i ffitio gwasanaethau cyfreithol gyda datblygiadau polisi a gwella'r prosesau y mae cleientiaid yn ymrwymo gyda'r wladwriaeth. Rhaid i ni wneud hyn tra'n cynnal annibyniaeth y CLS fel y caiff hawliau'r unigolyn eu hategu.

### **Cyllido'r Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol**

(Adran 6, tudalennau 41 - 42)

Byddwn yn gweithio i wella'r sefyllfa cyllido drwy geisio sicrhau y darperir ar gyfer cynnydd mewn gwariant cymorth cyfreithiol yn deillio o newidiadau a gynllunnir ym mholsi a darpariaethau llywodraeth. Bydd angen i ni gydbwyso'r angen i dargedu adnoddau ar y mwyaf anghenus gyda'r angen i wasanaethu'r gymuned ehangach. Mae hyn yn cynnwys cydnabyddiaeth o rôl bwysig gwasanaethau ffôn wrth ddarparu mynediad i gyngor cyfreithiol lle gall fod nad oes gwasanaethau wyneb-i-wyneb ar gael.

Wrth gwrs, nid yr LSC yw unig gyllidwyr y CLS, a bydd cynllunio ar y cyd a chronni adnoddau gyda budd-ddeiliaid yn galluogi pawb sy'n gysylltiedig i gael gwell gwerth am arian.

### **Blaenoriaethau ar gyfer y Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol**

(Adran 7, tudalennau 43 - 51)

Yr ydym wedi dynodi tri maes blaenoriaeth ar gyfer ein gwaith yn datblygu gwasanaethau CLS:

#### **Gweithredoedd unigol o gyngor a chymorth**

Gwyddom, o ymchwil megis Arolwg Cenedlaethol y Ganolfan Ymchwil Gwasanaethau Cyfreithiol o broblemau traddodadwy:

- ei bod yn debygol fod dros filiwn o broblemau cyfreithiol heb eu datrys bob blwyddyn;
- os oes gan gleient un broblem gyfreithiol, maent yn debygol o gael un arall;
- dim ond hanner y rhai gyda phroblem sy'n ceisio cyngor cyfreithol, ac o'r rhai sy'n gwneud hynny, mae un mewn saith yn methu ei gael;
- mae llawer mwy o bobl sy'n cymryd camau i ddatrys eu problem(au) yn gofidio iddynt ei drafod; a
- po fwyaf o weithiau yr atgyfeirir cleient, y lleiaf tebygol ydynt o dderbyn help yn y pen draw.

Credwn fod cyngor cynnar yn hollbwysig i atal problemau pobl rhag tyfu, gan ddod yn fwy niferus a chymhleth, ac felly gynyddu risg allgau cymdeithasol a chyfanswm y gost i gymdeithas a gwasanaethau cyhoeddus. Os na fedrwn atal problemau rhag digwydd yn y lle cyntaf, rydym eisiau help i'w datrys cyn gynted ag y bo modd – a gwneud mynd i'r llysoedd yn gam i'w gymryd pan fetho popeth arall.

Cynigiwn:

**Ehangu ein gwasanaethau cyngor ffôn cenedlaethol presennol** er mwyn ehangu mynediad i wasanaethau cyfreithiol a chynghori a sicrhau gwerth mwy am arian. Byddai hyn yn sicrhau fod gan fwy o bobl fynediad i wybodaeth a chynghori sylfaenol, a byddai'n ddarparu gwasanaeth cyngor cyfreithiol mewn ardaloedd lle mai dim ond gwasanaethau wyneb-i-wyneb cyfyngedig sydd ar gael (megis ardaloedd gwledig).

Cyflwyno **Canolfannau Cyfreithiol a Chynghori Cymunedol** peilot yn ddarparu gwasanaethau cyfreithiol a chynghori wyneb-i-wyneb a gyd-gyllidir mewn cyfraith lles cymdeithasol a gyflwynir dan fanyleb gwasanaeth gyda mwy o ffocws cleient nag un ai'r contractau LSC presennol neu lawer o gytundebau cyllid awdurdodau lleol. Medrai'r gwasanaethau hyn fod yn seiliedig mewn canolfannau trefol sylweddol, efallai gyda swyddfeydd ategol yn y cymunedau mwyaf difreintiedig. Byddant yn cyflenwi gwasanaeth di-wniad, o gyngor a chymorth sylfaenol, i gynrychiolaeth arbenigol yn y llysoedd uchaf. Er mwyn delio gyda

phroblemau cleientiaid mewn modd diwniad, bydd y Canolfannau yn cwmpasu amrediad eang o gategorïau cyfraith. Byddant yn cynnig fel isafswm, wasanaethau mewn amrediad o gategorïau lles cymdeithasol, yn arbennig Dyled, Tai, Budd-daliadau Lles, Gofal Cymunedol a Chyflogaeth. Bydd ganddynt gysylltiadau effeithlon gyda chyflenwyr mewn meysydd arbenigol eraill o'r gyfraith a thros amser medrant ddatblygu ymhellach i ddarparu rhai o'r gwasanaethau hyn eu hunain.

Medrai cyllid ar gyfer y Canolfannau fod yn gysylltiedig â chanlyniadau penodol i gleientiaid. Medrai gweithgareddau allweddol gynnwys:

- targedu grwpiau nad ydynt yn cyrchu gwasanaethau cyfredol, er enghraifft drwy all-estyn mewn canolfannau cymunedol neu feddygfeydd gyda ffocws ar helpu pobl sydd ag angen neilltuol am, ac yn cael anhawster, wrth gyrchu gwasanaethau oherwydd eu hamgylchiadau personol (megis pobl gyda phroblemau iechyd meddwl neu rai gydag anabledau corfforol), a mynd i'r afael â phatrymau problemau a wynebant. Byddant hefyd yn anelu i sicrhau mynediad effeithlon i'r cleientiaid hynny o grwpiau du a lleiafrif ethnig sy'n amharod neu sy'n methu cael mynediad i wasanaethau cyfreithiol traddodiadol;
- helpu i fynd i'r afael ag achosion sefydliadol problemau yn gysylltiedig â chyflenwi gwael o wasanaethau cyhoeddus a phreifat drwy ddeialog, negydu a, lle mae hyn yn methu; ymglyfreitha; a
- helpu i hysbysu cleientiaid am eu hawliau a darparu gwybodaeth a phecynnau hunangymorth.

**Cynnal peilot o'r dynesiad cydlynol a gynigiwyd ar gyfer y Canolfannau i ardaloedd daearyddol eraill drwy 'Rwydweithiau Cyfreithiol a Chynghori Cymunedol'.** Lle mae gan ardal o ddifreintiad cymdeithasol uchel rwydwaith dda eisoes o ddarparwyr gwasanaeth yn y manau cywir, anelwn weithio gyda hwy a chllidwyr lleol i gynhyrchu buddion dynesiad gyda mwy o ffocws cymunedol, heb greu Canolfan newydd. Byddwn hefyd yn ystyried os byddai rhwydwaith o'r fath yn ymarferol ar sail ranbarthol i sicrhau fod gan gleientiaid fynediad i amrediad eang o wasanaethau. Byddai'r chyflenwyr yn y rhwydwaith yn cytuno ar fanyleb gyffredin o wasanaethau yn cydweithio i ddarparu gwasanaeth diwniad ac integredig ar draws amrediad eang o gategorïau cyfraith, yn cynnwys categorïau lles cymdeithasol ac o gyngor dechreuol i ymglyfreitha. Fel y Canolfannau eraill, byddent yn cael eu cyllido ar y cyd, a medrent hefyd fynd i'r afal ag achosion sefydliadol problemau.

**Y tu allan i'r ardaloedd peilot** ymchwilio ffyrdd y medrwn annog darparwyr i weithredu amrediad ehangach o wasanaethau yn ddaearyddol a hefyd yn nhermau categorïau cyfraith a gynhwysir.

### **Gweithredu strategol i fynd i'r afael â'r angen am gyngor**

Mae darparwyr gwasanaethau cyfreithiol a chynghori yn gweld yr un math o broblemau dro ar ôl tro, pan fo gwasanaethau cyhoeddus wedi methu ateb eu dyletswyddau statudol neu pan fo cwmnïau masnachol wedi camarwain neu ecsbloetio eu cwsmeriaid. Gyda safbwynt unigryw ar batrwm problemau y gall pobl eu hwynebu, a'r posibilïadau a ddarperir gan y system gyfreithiol ar gyfer eu datrys, gall y CLS gyfrannu at ddialog rhwng defnyddwyr a darparwyr gwasanaeth. Mae hyn yn cynnig dynesiad strategol a chost-effeithlon at wella gwasanaethau (ac felly atal problemau traddodadwy).

Bydd ein ffocws ar dri phrif faes o weithgaredd:

- Codi ymwybyddiaeth o'r materion drwy gynhyrchu cyhoeddiadau perthnasol ac ymrwymo gyda llywodraeth a chymunedau lleol. Ein bwriad yw gostwng yr angen am ailadrodd gweithredoedd o gyngor a chymorth ac felly gael effaith fwy ar gyfer cleientiaid o fewn yr adnoddau sydd gennym ar gael.
- Negodi, drwy ymrwymo gyda darparwyr gwasanaeth ar lefel uwch mewn modd adeiladol a chadarnhaol i amlygu problemau ac awgrymu datrysiadau.

- Cyllido ymgyfreitha lle mae dynesiadau eraill yn methu. Bydd hyn yn cynnwys dynodi a dod ag achosion prawf, ac weithiau gyllido camau gweithredu gan grwpiau o gleientiaid.

### Gwybodaeth am hawliau cyfreithiol a chyfrifoldebau

Mae'r CLS yn hyrwyddo gwybodaeth sy'n galluogi pobl i wybod ac ymarfer eu hawliau cyfreithiol. Nid ydym yn anelu i annog ymgyfreithiad diangen; rydym eisiau i bobl ddeall sut y dylent ddefnyddio'r gyfraith i sicrhau newid cadarnhaol yn eu bywydau.

Dengys ymchwil fod gwybodaeth o'r fath ar gael, ond mae mynediad ac argaeledd yn ddi-gynllun oherwydd diffyg safonau a chysondeb. Gall cymhlethdod y sector gwybodaeth a chynghori ac amrywiaeth y problemau sy'n wynebu defnyddwyr, ynghyd â'r nifer o ffynonellau gwybodaeth, wneud i ddefnyddwyr deimlo na fedrant gael hyd i'r wybodaeth y maent ei hangen. Felly nid ydym yn anelu i gynyddu faint o wybodaeth a ddarperir; yn hytrach anelwn i hyrwyddo ffynonellau dibynadwy ac felly helpu cleientiaid i ganfod eu ffordd drwy'r wybodaeth a chynghori sydd ar gael. Caiff y gwaith hwn ei gyflwyno'n bennaf drwy weithio gydag eraill, yn arbennig yr Adran Materion Cyfansoddiadol a'i Strategaeth Addysg, Gwybodaeth a Chynghori.

### Dynesiad unedig at wasanaethau cyngor cyfreithiol

(Adran 8, tudalennau 53 - 54)

Mae'r adran hon yn gosod allan sut, fel rhan o'n strategaeth i gyflenwi gwasanaeth cyfreithiol diwriad ar draws y CLS sy'n cysylltu cymorth cyfreithiol sifil gyda Gwasanaethau Plant a Theulu a'r Gwasanaeth Amddiffyn Troseddol. Cyhoeddir strategaethau ar wahân ond cysylltiedig yn ddiweddarach eleni yn y ddau faes hyn; gyda'i gilydd, bydd y tri phapur strategaeth yn rhoi cyfeiriad cydlynol yn y pum mlynedd nesaf ar gyfer gwasanaethau cyfreithol a chynghori a gyllidir gan y CLS.

### Amserlen a chamau nesaf

Mae hwn yn bapur ymgynghori ar ein strategaeth ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Caiff manylion sut i ymateb i'r ymgynghoriad eu nodi islaw. Byddwn yn cwblhau a chyhoeddi fersiwn ôl-ymgyngori y strategaeth yng Ngaeaf 2005/06. Byddwn yn cyhoeddi cyfres o bapurau polisi (fel a amlinellir yn **Atodiad Un**) yn ystod 2005 a thu hwnt, yn nodi yn fanylach sut y byddwn yn mynd â gwahanol elfennau o'r strategaeth ymlaen. Bydd y papurau hyn yn cynnwys amserlenni manylach, ond disgwyliwn ddechrau peilotio rhai elfennau o'r rhaglen waith yn 2005/06, a byddwn yn parhau gwaith i gyflawni'r weledigaeth strategol hon dros y pedair blynedd ddilynol.

## Sut i ymateb

Dylid anfon ymatebion i'r ymgynghoriad hwn drwy e-bost, post neu ffacs erbyn dydd Gwener 14 Hydref (neu dydd Llun 24 Hydref ar gyfer budd-ddeiliaid yng Nghymru) at:

Frances Malik  
CLS Policy  
Policy & Planning Directorate  
Legal Services Commission  
12 Roger Street  
Llundain  
WC1N 2JL  
Ffacs: 020 7759 1428  
e-bost: [CLSPolicy@legalservices.gov.uk](mailto:CLSPolicy@legalservices.gov.uk)

Gofynnir i chi nodi y gall ymatebion i'r ymgynghoriad hwn gael eu cyhoeddi. Os dymunwch i'ch ymateb barhau'n gyfrinachol, gofynnir i chi nodi hynny. Bydd crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar gael yng Nghaeaf 2005/06 pan gyhoeddir fersiwn terfynol strategaeth y Comisiwn ar gyfer y Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol.

Er mwyn hwyluso dadansoddiad, byddai'n ddefnyddiol iawn pe medrai ymatebwyr roi ymatebion i'r cwestiynau a ofynnir ar ddiwedd pob adran. Mae crynodeb o'r holl gwestiynau ar dudalen 11. Rydym hefyd yn croesawu sylwadau ar bob agwedd o'r papur ymgynghori hwn, yn cynnwys yr atodiadau.

Croesawn ymatebion gan awdurdodau lleol, adrannau llywodraeth ganolog a chyllidwyr eraill y sector cynghori; sefydliadau sy'n cynrychioli'r cleientiaid a wasanaethwn a darparwyr gwasanaethau cyfreithiol a chynghori. Anfonir copïau o'r papur ymgynghori hwn at yr amrediad uchod o sefydliadau.

Medrir derbyn copïau ychwanegol o'r papur ymgynghori hwn drwy gysylltu â Frances Malik yn y cyfeiriad uchod neu drwy ffonio 020 7759 1446. Mae'r papur ymgynghori hefyd ar gael drwy wefan y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol: [www.legalservices.gov.uk/civil/docs\\_for\\_consultation/civil.asp](http://www.legalservices.gov.uk/civil/docs_for_consultation/civil.asp)

Mae nodyn briffio yn cynnwys cwestiynau cyson ac atebion y Comisiwn hefyd ar y wefan.



## Cwestiynau ymgynghori

- C.1. Ydych chi'n cytuno gyda'r diffiniad hyblyg o'r CLS a amlinellwyd gennym ym mharagraffau 1.5 - 1.16?
- C.2. Ydych chi'n cytuno y dylai prif ffocws y CLS barhau fel a ddiffinnir ym mharagraffau 1.17 - 1.23?
- C.3. Ydych chi'n cytuno mai'r weledigaeth a nodir ym mharagraffau 2.1 - 2.16 yw'r un gywir i'r CLS? Os na, beth fydddech chi'n newid neu'n ei ychwanegu?
- C.4. Ydych chi'n cytuno mai dyma'r *prif* heriau sy'n wynebu'r CLS? A oes eraill? (gweler paragraffau 3.1-3.13).
- C.5. Ydych chi'n cefnogi'r cynnig i sefydlu grp budd-ddeiliaid cenedlaethol? A oes gennych unrhyw sylwadau ar y cylch gorchwyl dechreuol a'r aelodaeth arfaethedig fel a amlinellir ym mharagraffau 5.3 a 5.4?
- C.6. Ydych chi'n cytuno y dylai swyddogaeth cynllunio'r CLSP gael ei gwneud gan gorff gwahanol? Ydych chi'n cytuno y dylai'r corff priodol gael ei gytuno rhwng yr LSC ac awdurdodau lleol? (gweler paragraff 5.6)
- C.7 Mae Paragraff 6.3 yn amlinellu'r camau i sicrhau fod adnoddau priodol ar gael ar gyfer y CLS. A oes unrhyw gamau eraill y dylai'r Comisiwn eu cymryd?
- C.8 A ydych yn cytuno gyda'r tri maes gwaith blaenoriaeth ar gyfer y CLS a amlinellir ym mharagraff 7.1? Os na, beth ddylai'r meysydd gwaith blaenoriaeth fod?
- C.9 Ydych chi'n cytuno gyda'n cynnig i ehangu ein gwasanaeth ffôn? A yw'n iawn i wneud lefel sylfaenol o wasanaeth (megis gwybodaeth ar hawliau cyfreithiol a phecynnau hunangymorth) ar gael i bawb faint bynnag o fodd sydd ganddynt? (gweler paragraffau 7.12-7.17)
- C.10 Ydych chi'n cytuno y dylem dros gyfnod ddatblygu'r crynhoad mwyaf o wasanaethau wyneb-i-wyneb yn y cymunedau mwyaf difreintiedig? (gweler paragraffau 7.18 – 7.21)
- C.11. Ydych chi'n cytuno gyda'r cynigion i beilotio Canolfannau Cyfreithiol a Chyngor Cyfreithiol a Rhwydweithiau Cyfreithiol a Chynghori Cymunedol fel a amlinellwyd ym mharagraffau 7.22 - 7.32? Ydych chi'n cytuno gyda'u cylch gorchwyl arfaethedig a'r disgrifiadau eang o'r gwasanaethau a ddarparant?
- C.12. Ydych chi'n cytuno y dylai fod tybiaeth gynyddol o blaid gwasanaethau sy'n gweithio mewn sawl maes o gyfraith lles cymdeithasol? (gweler paragraffau 7.33 a 7.34)
- C.13 Ydych chi'n cytuno y dylai'r CLS roi mwy o adnoddau i gymryd camau gweithredu strategol? Pa ddynesiadau eraill fedrid eu cynnal tu hwnt i'r rhai a amlinellir ym mharagraffau 7.37 – 7.47?
- C.14 Ym mha ffyrdd eraill y gall y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol hyrwyddo gwybodaeth am hawliau a chyfrifoldebau cyfreithiol? (gweler paragraffau 7.48 - 7.52)
- C.15 A ydym wedi dynodi'r materion allweddol wrth ddatblygu'r cysylltiadau priodol rhwng meysydd lles cymdeithasol y CLS, Gwasanaethau Plant a Theulu a'r Gwasanaeth Amddiffyn Troseddol? (gweler paragraffau 8.1 - 8.11). Pa gamau eraill fedrid eu cymryd i hwyluso'r cysylltiadau hyn?



## RHAN A

Y Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol –  
dynesiad strategol



## 1. Gwasanaethau cyfreithiol cymunedol a'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol

### Ein hamcan

- 1.1 Mae "A Fairer Deal for Legal Aid" a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn nodi gweledigaeth yr Arglwydd Ganghellor ar gyfer cyngor cyfreithiol. Mae'r papur ymgynghori hwn yn gyfraniad pwysig a chanolog i'r weledigaeth honno, yn nodi cynllun y Comisiwn i wella ffocws cymorth cyfreithiol sifil, hyrwyddo gwasanaethau cyngori cydlynol yn well a darparu arweinyddiaeth i'r Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol.
- 1.2 Bwriedir i'r papur ymgynghori hwn gynorthwyo yn y broses o ymrwymiad pellach ac agosach gydag unrhyw un sy'n gysylltiedig â gwasanaethau cyfreithiol a chynghori, yn cynnwys defnyddwyr, cydgyllidwyr a darparwyr gwasanaeth. Caiff y strategaeth a nodir yn y papur hwn ei mireinio a'i datblygu yng ngoleuni ymatebion iddi a'r drafodaeth uniongyrchol gyda budd-ddeiliaid y bwriadwn iddi lifo ohono.
- 1.3 Derbyniwn fod ein rôl o fewn y CLS yn sylweddol ond nid yn holl-gwmpasol. Mae hyd a lled gweithgareddau yn gysylltiedig â'r CLS o fath fel nad yw'n ymarferol rhoi sylw iddynt i gyd yn fanwl mewn un ddogfen fel hon. Felly bwriedir i'r ymgynghoriad hwn roi:
  - trosolwg strategol o gyfeiriad ein polisiau ar draws yr amrediad cyfan o'n cyfrifoldebau CLS;
  - mwy o fanylion am ein gweithgareddau a chynlluniau ar gyfer ein rôl wrth gynnal a datblygu'r CLS; a
  - mwy o fanylion am ein gweithgareddau a'n cynlluniau ar gyfer ein rôl wrth fynd i'r afael ag angen mewn meysydd lles cymdeithasol o gyfraith.
- 1.4 Cefnogir y papur gan gyfres o bapurau polisi pellach a fydd yn rhoi mwy o sylw i gyfeiriad strategol y Comisiwn mewn meysydd eraill o'i gyfrifoldebau CLS.

### Y CLS a rôl y Comisiwn o'i fewn

- 1.5 Mae'r CLS yn greadigaeth statudol ac fe'i diffinnir yn y Ddeddf Mynediad i Gyfiawnder 1999 (c.22). Caiff yr adrannau perthnasol yn nodi fframwaith y CLS eu hatgynhyrchu yn Atodiad Tri.
- 1.6 Nid yw'r Ddeddf yn creu'r CLS fel endid penodol a diffiniedig iawn. Nid un corff neu sefydliad ydyw; yn hytrach mae'n disgrifio'r CLS yn nhermau ei bwrpas: hyrwyddo amrediad o wasanaethau i unigolion yn ymwneud â chyfraith sifil, gwasanaethau cyfreithiol a datrysiad cyfreithiol anghydfodau.
- 1.7 Tra'n disgrifio'r CLS mewn telerau eang a llac, mae'r Ddeddf yn gwneud darpariaethau penodol iawn parthed rôl y Comisiwn yng nghyswllt y CLS. Mae'r Ddeddf yn rhoi dwy brif rôl i ni yng nghyswllt y CLS sy'n neilltuo, ond nid ar wahân sef:
  - sefydlu, cynnal a datblygu'r CLS; a
  - cyllido gwasanaethau penodol fel rhan o'r CLS.

## Sefydlu, cynnal a datblygu'r CLS

- 1.8 Caiff ein rôl yn sefydlu, cynnal a datblygu'r CLS ei diffinio'n eang gan y Ddeddf Mynediad i Gyfiawnder 1999 ond mae rhai gofynion clir o fewn hynny. Rhaid i ni:
- anelu, lle'n ymarferol, i wella ansawdd, addasrwydd a hygyrchedd gwasanaethau cyfreithol a chynghori;
  - ein hysbysu ein hunain am yr angen am wasanaethau cyfreithiol a chynghori ac ansawdd y gwasanaethau a ddarperir; ac
  - mewn cydweithrediad gydag awdurdodau, sefydliadau ac unigolion perthnasol eraill:
    - cynllunio'r hyn y medrwn ei wneud i ateb yr angen am wasanaethau cyfreithol a chynghori drwy gyflawni ein hobjectiadau; a
    - hwyluso cynllunio gan awdurdodau, sefydliadau ac unigolion eraill o'r hyn y medrant ei wneud i ateb yr angen am wasanaethau cyfreithiol a chynghori yn defnyddio'r adnoddau sydd ar gael iddynt.

## Cyfrifoldeb am wasanaethau a gyllidir gan yr LSC

- 1.9 Yn ychwanegol mae gennym gyfrifoldeb dros gyllido gwasanaethau penodol fel rhan o'r CLS. Wrth gyllido'r gwasanaethau hyn rhaid i ni weithio o fewn y symiau o arian sydd ar gael i ni a rhaid i ni anelu i gael y gwerth gorau posibl am arian.
- 1.10 Mae'n rhaid i ni osod blaenoriaethau esblyg ar gyfer y gwasanaethau a gyllidir gennym a rhaid iddynt gyd-fynd ag unrhyw gyfeiriadau a roddir gan yr Arglwydd Ganghellor a rhaid iddynt roi ystyriaeth i'r angen am wasanaethau cyfreithiol a chynghori.
- 1.11 Cawn ein gwahardd rhag cyllido gwasanaethau penodol, a nodir yn Neddf 1999, ond yn amodol ar y gofynion hyn, medrwn gyllido fel rhan o'r CLS y gwasanaethau hynny a ystyriwn yn briodol.

## Deall y CLS – byw gydag amwysedd

- 1.12 Credwn fod y diffiniad agored o'r CLS yn Neddf Mynediad i Gyfiawnder 1999 yn gaffaeliad mawr. Mae'n rhoi'r fframwaith y gall y Comisiwn awdurdodau cyhoeddus, sefydliadau ac unigolion eraill gydweithio o'i fewn i ddarparu help i bobl sydd angen mynediad i'r gyfraith i ddiogelu eu hawliau neu i drafod problemau yn eu bywydau.
- 1.13 Mae strwythur agored a llac y CLS hefyd yn peri rhai heriau critigol:
- Mae'r gwasanaethau a gyflenwir gan y CLS yn gyffredinol yn llawer ehangach na'r rhai a gyllidwn - eto nid oes gennym rym uniongyrchol dros y gwasanaethau hynny. Rhaid i ni geisio datblygu'r gwasanaethau hynny mewn ffordd cadarnhaol i gleientiaid CLS drwy ymrwymiad a dylanwad adeiladol gyda chyllidwyr a darparwyr eraill.
  - Mewn llawer o ffyrdd, mae'r CLS yn 'rhith' sefydliad gyda gwasanaethau yn cael eu cyflenwi i gleientiaid gan lawer o gyllidwyr a darparwyr. Mae hyn yn golygu nad yw'r CLS yn weladwy iawn fel un endid neu frand, er y caiff llawer o'r elfennau sy'n ffurfio'r CLS eu cydnabod yn dda. Mae hyn yn effeithio ar y gydnabyddiaeth a dealltwriaeth o'r CLS a fedrai yn rhwydd ei wneud yn anos i gleientiaid gael mynediad i'r gwasanaethau y maent eu hangen. Byddwn yn ystyried y ffordd orau o ddefnyddio brandio i sicrhau y caiff y gwasanaethau cyfreithiol a chynghori integredig a hyrwyddwn eu cydnabod a'u bod yn hygyrch.
  - Mae absenoldeb diffiniad penodol o'r CLS, neu un corff sydd y CLS, yn rhoi cwmplas i bob cyfranogdd i atodi eu diffiniad a'u hamcanion eu hunain i'r CLS.

- 1.14 Yr ydym yn cydnabod y materion hyn ond parhawn i gefnogi'r ffordd y diffiniwyd y CLS yn y ddeddfwriaeth. Mae ceisio diffinio'r CLS yn fwy penodol yn ofer, a hefyd mae risg y byddai'n dargyfeirio egni ymaith o ganolbwyntio ar y mater go iawn – ateb anghenion addysg gyfreithiol, gwybodaeth, cyngor a chynrychiolaeth pobl sydd angen help gan y CLS. Medrai hefyd arwain at geisiadau amhriodol i ddynodi a gweithredu datrysiad neu fodel sengl ar gyfer pob gwasanaeth cyfreithiol a chynghori a chredwn y byddai hynny er afles cleientiaid.
- 1.15 Yn y papur hwn ymhelaethwn ar y themâu hyn ond anogwn bawb sydd yn ymwneud â'r CLS, er budd y bobl y mae'n eu gwasanaethu, i goleddu'r amwysedd a hyblygrwydd sy'n rhoi'r potensial i'r gwasanaeth ateb gwahanol anghenion cyfreithiol unigolion yn y ffyrdd mwyaf addas i'w hamgylchiadau ac i gyflenwi canlyniadau cadarnhaol iddynt.
- 1.16 Mae'r CLS yn bodoli i ddarparu help cyfreithiol i bobl gyda phroblemau - yn aml problemau sy'n effeithio ar eu hawliau mwyaf sylfaenol. Rôl y Comisiwn yw cydweithio gydag eraill i ddarparu CLS sy'n ateb anghenion y bobl hynny.

### Ffocws

- 1.17 Oherwydd ei natur agored iawn, mae gan y CLS y potensial i ddarparu rhyw lefel o help i unrhyw aelod o gymdeithas a byddai'n annoeth gosod terfynau artiffisial ar y CLS a fyddai'n eithrio unrhyw unigolyn rhag ceisio ei gymorth. Fodd bynnag, o fewn y cwmpas eang iawn hwnnw, rydym yn blaenori'r gwasanaethau a gyllidir gennym ni a hefyd ein gwaith gyda budd-ddeiliaid eraill y CLS, i wasanaethu cleientiaid neilltuol a datrys mathau neilltuol o broblem. Gwnawn hynny, a byddwn yn parhau i wneud hynny, ar sail blaenoriaethau esblyg y medrwn eu cyfiawnhau.
- 1.18 Ein prif ffocws wrth hyrwyddo argaeledd help CLS ac wrth gyllido help o'r fath yn uniongyrchol yw amddiffyn a hyrwyddo hawliau unigol. Yn neilltuol:
- galluogi unigolion i ddiogelu eu hawliau sylfaenol yn wyneb gweithredu gan awdurdodau cyhoeddus ac i dderbyn gwrandawriad teg mewn trafodion megis y rhai yn cyfeirio at achosion iechyd meddwl ac achosion plant cyfraith gyhoeddus
  - i'w helpu i ddatrys anghydfod cyfraith breifat, megis achosion teulu cyfraith breifat ac esgeulustod clinigol, drwy negodi a datrysiadau heb ddefnyddio'r llysoedd lle mae'n bosibl, a thrwy fynediad i'r llysoedd lle mae hwn yw'r unig lwybr neu'r llwybr mwyaf priodol; a
  - mynd i'r afael â phroblemau sy'n cyfrannu at allgau cymdeithasol, megis dyled, budd-daliadau lles a thai.
- 1.19 O gofio system gyfreithiol wrthwynebus a llafar gan bennaf Lloegr a Chymru, mae'r gwasanaethau a ddarperir i ateb y cyntaf o'r pwrpasau hyn yn bwysig i sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, yn neilltuol Erthygl 6 (hawl i brawf teg). Mae hefyd gorff cynyddol o gyfraith achos hawliau dynol a ddengys fod y gwasanaethau a ddarperir ar gyfer yr ail bwrpas hefyd yn bwysig i sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.
- 1.20 Credwn fod yr olaf o'r tri maes hyn (er na ddiffiniwyd yn nhermau hawliau) yn sylfaenol iawn am hawliau pobl. Er enghraifft, hawl rhywun sy'n derbyn Budd-dal Tai i'w cais gael ei drin yn unol â'r gyfraith, ac y gall y canlyniadau i'r unigolion hynny o fethiant ar ran awdurdod cyhoeddus fod yn sylfaenol - mewn achos o'r fath, medrai olygu digartrefedd.

- 1.21 Mae llawer o'r bobl a helpir gan y gwasanaethau a gyllidwn ac a ddarparwn (ac sydd yn gyffredinol o fewn ein meini prawf cymhwyster ariannol) yn anochel yn dlawd, wedi eu heithrio'n gymdeithasol ac yn ddibynnol iawn ar help a ddarperir gan asiantaethau eraill y llywodraeth ac awdurdodau lleol. Dengys ymchwil hefyd lle mae ganddynt un broblem sydd â datrysiad cyfreithiol iddi eu bod yn debygol o fod â phroblemau eraill hefyd.
- 1.22 Bu hefyd yn wir mai'r grwpiau cleient hyn a'r meysydd hyn o gyfraith, yn neilltuol feysydd lles cymdeithasol y gyfraith, sydd wedi derbyn y ffocws mwyaf wrth sefydlu, datblygu a chynnal y CLS ehangach. Mae hyn oherwydd:
- mae'r rhain yn grwpiau cleient a meysydd cyfraith sy'n denu lefelau sylweddol o wasanaeth gan gyllidwyr eraill, yn neilltuol adrannau llywodraeth ganolog, awdurdodau lleol ac asiantaethau gwirfoddol, felly bu angen cynllunio ar y cyd i uchafu effaith ein cyllid ni a chyllid asiantaethau eraill;
  - mae llawer o wybodaeth a phrofiad o fewn yr un grp o awdurdodau cyhoeddus, sefydliadau ac unigolion am yr angen am wasanaethau ar gyfer y grwpiau cleient hyn ac yn y meysydd hyn o gyfraith; a
  - ym meysydd lles cymdeithasol y gyfraith y wynebwn yr her fwyaf sylweddol wrth gydlyn cyngor cyfreithiol cyffredinol a gwybodaeth am broblemau pobl, a'u hopsiynau ar gyfer eu datrys drwy wybodaeth, cyngor neu gynrychiolaeth gyfreithiol.
- 1.23 Ein bwriad yw na fydd newid yn ein prif ffocws, ond nid ein hunig ffocws, yn nhermau grwpiau cleient a mathau o broblem, ar gyfer y gwasanaethau a gyllidwn a hefyd ein gwaith yn datblygu'r CLS. Fodd bynnag, cynlluniwn ddatblygiadau newydd a newid pwyslais, a chaiff manylion hyn eu nodi yn Rhan B y papur hwn.

## Cwestiynau

C.1 Ydych chi'n cytuno gyda'r diffiniad hyblyg o'r CLS a amlinellwyd gennym ym 1.5 - 1.16?

C.2 Ydych chi'n cytuno y dylai prif ffocws y CLS barhau fel a ddiffinir ym mharagraffau 1.17 - 1.23?

## 2. Ein gweledigaeth ar gyfer y Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol

- 2.1 Ein gweledigaeth yw Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol sydd â'i ffocws ar hawliau unigolion. Byddwn yn datblygu gwasanaethau cyfreithiol a chynghori i ategu'r hawliau hynny, wedi'u targedu at bobl efallai na fyddai mynediad i gyfiawnder yn bosibl heb ei gefnogaeth.
- 2.2 Ein blaenoriaeth gyntaf yw diogelu'r hawliau pwysig hyn yn gysylltiedig â gweithgareddau'r wladwriaeth. Y rhain yw trafodion cyfraith gyhoeddus Deddf Plant 1989, cadw gorfodol dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, trafodion yn erbyn yr heddlu, a lloches. Mae ein gweledigaeth hefyd yn ymestyn i ddarparu gwasanaethau cyfreithiol a chynghori ar draws meysydd cyfraith sifil pwysig megis cyfraith esgeulustod clinigol, teulu ac wrth gwrs gyfraith lles cymdeithasol.
- 2.3 Mae gennym hefyd weledigaeth glir y dylai'r CLS gael yn greiddiol iddo ymrwymiad i ddefnyddio'r gyfraith i sicrhau newid cadarnhaol: mewn bywydau unigol, mewn cymunedau sy'n rhannu problem gyffredin ac ar draws grwpiau yn wynebu materion neilltuol. Mae hefyd yn weledigaeth sy'n cydnabod fod pobl angen cael mynediad i wasanaeth integredig a diwniad ac nad ydynt yn wynebu 'problemau cyfreithiol' ond problemau y gall y gyfraith gynnig datrysiaid iddynt.
- 2.4 Mae hyn i gyd yn ffitio o fewn cyd-destun cydnabod y lluo o wasanaethau eraill sy'n gweithio i fynd i'r afael â'r problemau ar gyfer cleientiaid. O wasanaethau iechyd ac addysg i waith cymdeithasol a gwasanaethau cefnogaeth teulu, mae'n glir nad yw'r CLS ond un o becyn o ddulliau i helpu unigolion i fynd i'r afael â'r problemau y medrai fod yn eu hwynebu.
- 2.5 Rydym eisiau datblygu'r Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol fel ei fod:
- â ffocws cleient ac yn hygyrch;
  - annibynnol
  - cost-effeithlon a chydlynol; a
  - gyda sicrwydd ansawdd.

### Â ffocws-client ac yn hygyrch

- 2.6 Drwy hyn golygwn CLS y mae pobl yn gwybod amdano, ac y medrir ei gyrchu'n rhwydd gan gleientiaid pan wynebant problemau a all fod â datrysiaid cyfreithlon iddynt. Rhaid iddo ymateb yn ddiwniad i'r clystyrau o problemau y mae cleientiaid yn eu cael, gan gynnig amrediad o wasanaethau o wybodaeth i gyngor dechreuol ac ymglyfreitha cymhleth. Dylai'r CLS annog a chefnogi pobl i gael help yng nghanau cynnar y broblem ac osgoi llys lle bo modd, ond rhoi cynrychiolaeth lle mai dyma'r opsiwn gorau:
- Byddwn yn blaenori anghenion pobl sydd mewn risg o golli eu bywyd neu eu rhyddid, yr effeithiwyd arnynt gan gamdriniaeth awdurdod, neu y caiff eu hawliau dynol eu bygwth.
  - Rhai sy'n wynebu tlodi, anfantais, gwahaniaethu ac allgauedd yw'n ail grp craidd o gleientiaid.
  - Byddwn hefyd yn darparu gwasanaeth gwybodaeth a chyngor cyfreithiol, ar gael i bawb er mwyn hyrwyddo datrysiaid cynnar a chymesur problemau.
- 2.7 Dylai'r Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol anelu i hyrwyddo hawliau cyfreithiol fel bod pobl yn medru delio gyda'u problemau yn well a deall pryd a sut y gall cyngor cyfreithiol helpu.

## Annibynnol

- 2.8 Er y gall llywodraeth ganolog a lleol gyllido'r CLS, rhaid iddo gynnal annibyniaeth gadarn wrth gefnogi diwylliant o hawliau i bawb a chynorthwyo'r rhai a gafodd eu trin yn annheg gan awdurdodau cyhoeddus neu sefydliadau preifat.
- 2.9 Dylai'r CLS fod â rôl strategol wrth fynd i'r afael ag achosion problemau cleientiaid lle mae'r rhain yn cyfeirio at fethiant gwasanaethau cyhoeddus (ac weithiau breifat) i gyflawni eu hobjygiadau. Byddai enghreifftiau o hyn yn cynnwys achosion yn erbyn rhannau o lywodraeth sy'n methu yn gyson i gynnal hawliau neu'n gwrthod budd-daliadau yn anghywir, sefydliadau tai gydag anheddau mewn cyflwr gwael, neu gwmni cyfleustod sy'n anwybyddu ei bolisiau ei hun pan mae'n torri cyflenwad i ffwrdd.
- 2.10 Gall annibyniaeth y CLS arwain at densiwn rhwng y CLS a'i gyllidwyr, ond gydag ymagwedd briodol dylai hwn fod yn densiwn creadigol sy'n cadw ffocws cadarn ar hawliau ac anghenion cleientiaid,

## Cost-effeithlon a chydlynol

- 2.11 Dylai'r CLS ddod ynghyd â grwpiau cleient cyllidwyr, darparwyr gwasanaeth a budd-ddeiliaid allweddol arall i wneud y weledigaeth hon yn realiaeth. Rhaid iddo sicrhau fod gwasanaethau yn cysylltu gyda'i gilydd a gwneud y defnydd mwyaf effeithlon o'r adnoddau sydd ar gael. Fel yn unrhyw faes o wasanaeth cyhoeddus, bydd angen i ni flaenori a thargedu adnoddau at yr angen mwyaf. Mae hyn yn golygu y bydd angen atgyfeirio pobl a all fforddio talu'n breifat am wasanaethau cyfreithiol, neu sydd â phroblemau cyfreithiol nad ydynt yn flaenoriaethau ar gyfer cyllid cyhoeddus neu y medrir eu cyllido drwy ddulliau eraill, i fan arall. Mae hefyd yn golygu y byddwn yn gweithredu i fynd i'r afael â gyrwyr problemau sy'n wynebu cleientiaid lle byddai hyn yn cynrychioli dynesiad gwerth gwell na dim ond cyllido achosion sy'n digwydd yn gyson.

## Sicrwydd ansawdd

- 2.12 Mae'r ymrwymiad i ddodi ansawdd yn greiddiol i'r CLS yn parhau'n elfen allweddol ein gweledigaeth a strategaeth ar gyfer y dyfodol. Byddwn yn adeiladu ar yr hyn a gyflawnwyd eisoes a, tra'n sicrhau nad oes gostyngiad yn y safon ansawdd isafswm, byddwn yn gweithio'n agos gyda'n darparwyr gwasanaeth a phartneriaid i gydnabod safonau ansawdd cyfwerth a symleiddio, cyn belled ag sy'n bosibl, ddyfarniad ac archwiliad y safonau hynny.
- 2.13 Er bod gan y Nod Ansawdd ffocws agos ar gymhwysedd trefniadol a rhyngwyneb â'r cleient, bydd ein strategaeth yn y dyfodol hefyd yn cydnabod pwysigrwydd a pherthnasedd cynyddol ansawdd gwaith cynghori a chyfreithiol, cymhwysedd cynghorwyr annibynnol a'r canlyniadau a gaiff cleientiaid ar ddiwedd y cyngor. Mae proses adolygu cymheiriaid annibynnol yn cael ei datblygu a medrai ddod yn sylfaen asesiad ansawdd cyngor ar gyfer pob sefydliad yn y CLS - pwy bynnag sy'n cyllido'r gwasanaeth.
- 2.14 Rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda sawl sefydliad ymbarél i annog datblygu eu dulliau cymhwysedd / adolygiad cymheiriaid eu hunain gan ddisgwyl cydnabod datblygiadau o'r fath a throsglwyddo cyfrifoldeb am gyflawni lefelau ansawdd i'r sefydliadau eu hunain.
- 2.15 Mae'r Comisiwn hefyd yn cynnal prosiect sy'n torri tir newydd i ddatblygu Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Cyngor Cyfreithiol, ar ran ar ac mewn partneriaeth gydag amrediad eang o sefydliadau sy'n cynrychioli, cefnogi, rheoleiddio a hyfforddi ymarferwyr ar draws y sectorau preifat, cyhoeddus a gwirfoddol. Bydd Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol, am y tro cyntaf, yn darparu hyfforddiant a chymwysterau cydnabyddedig a throsglwyddadwy i gynghorwyr, yn arbennig rai yn y sector dim er elw.

2.16 Mae'r budd cyfun yn deillio o systemau ansawdd a chymhwysedd cynghorwyr yn ganlyniadau cadarnhaol i gleientiaid. Ein strategaeth yw hyrwyddo casglu data canlyniadau a chynyddu ei gywirdeb a chysondeb. Medrwn wedyn weithio mewn partneriaeth gyda chyflenwyr i ddynodi cryfderau neilltuol a meysydd ar gyfer gwella.

### **Cwestiynau**

**C.3** Ydych chi'n cytuno mai'r weledigaeth a nodir ym mharagraffau 2.1 - 2.16 yw'r un gywir i'r CLS? Os na, beth fydddech chi'n newid neu'n ei ychwanegu?



### 3. Heriau allweddol ac ymatebion strategol

- 3.1 Mae'n rhwydd colli golwg ar y ffaith mai dim ond ym mis Ebrill 2000 y daeth y Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol i fodolaeth, yn rhannol i gymryd lle system o gymorth cyfreithiol sifil a oedd wedi bodoli a datblygu dros y 50 mlynedd flaenorol. Mae gwasanaethau cynghori lleol wedi datblygu ar sail ad hoc dros gyfnod hyd yn oed yn hwy, ac mae'r 'ddrysfa cyngor' hon wedi achosi rhwystrau i gleientiaid wrth gael y cyngor y maent angen.
- 3.2 Credwn y gwnaed cynnydd sylweddol yn y pum mlynedd diwethaf wrth sefydlu a datblygu'r CLS i ateb anghenion y cleientiaid y mae'n eu gwasanaethu. Bu cynnydd o'r fath yn ganlyniad ymdrechion y Comisiwn a hefyd ymdrechion awdurdodau cyhoeddus eraill, cyllidwyr a darparwyr, yn sefydliadau ac unigolion, sydd wedi ymuno â ni yn foddol. Yn Atodiad Dau rhoddwn fanylion rhai o lwyddiannau mynych y Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol yn ei fywyd byr hyd yma. Mae ffocws y papur strategaeth hwn ar yr heriau sydd o'n blaenau, ac ar yr hyn yr ydym eisiau ei wneud i'w wella.

#### Argaeledd cyllid

- 3.3 Gweithredwn ein gwasanaethau a gyllidir yn uniongyrchol (a'r Comisiwn fel sefydliad) o fewn cyllideb sefydlog, a osodwyd fel rhan o gylch cyllideb tair-blynedd y llywodraeth. O fewn yr adnoddau sydd ar gael mae'n rhaid i ni gydbwyso anghenion cyllid y Gwasanaeth Amddiffyn Troseddol (CDS) (lle caiff y galw am wasanaethau yn aml ei yrru gan ffactorau y tu allan i'n rheolaeth) gyda rhai'r Gwasanaeth Cyfreithol Cymunedol. Nid yw rheoli gwasanaethau o fewn cyllideb gyfyngedig yn unigryw mewn unrhyw fodd i'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol, ac mae'n sefyllfa sy'n gyfarwydd i'r rhan fwyaf o fudd-ddeiliaid eraill o fewn y CLS.
- 3.4 Byddwn bob amser yn dadlau am adnoddau sy'n gymesur gyda lefelau angen ar gyfer y CLS. Fodd bynnag, ni fyddwn yn cael hyn bob amser a chawn ein hunain yn union yr un sefyllfa â'r rhan fwyaf o sefydliadau eraill; y sector cyhoeddus neu breifat, neu'r sector gwirfoddol a chymunedol.
- 3.5 Mae ein ffocws ar gyflawni popeth a fedrwn i gleientiaid o fewn y fframwaith cyllido hwn. Ein heriau o fewn yr amgylchedd hwn yw:
- uchafu cyfaint ac ansawdd y gwasanaethau cyfreithiol a chynghori y medrwn eu comisiynu ar gyfer cleientiaid o fewn yr adnoddau sydd ar gael, drwy ddulliau prynu effeithlon a dulliau cyflenwi newydd
  - sicrhau ein bod yn cael y gwerth mwyaf posibl o'r gwasanaethau hyn; yn nhermau effeithiau cadarnhaol a chanlyniadau i gleientiaid, a hybu gwelliannau wrth gyflwyno gwasanaeth cyrff cyhoeddus eraill;
  - sicrhau y caiff ein gwasanaethau a gyllidwn yn uniongyrchol eu cydlynu'n effeithlon gyda gwasanaethau a gyllidir gan ein cyllidwyr partner; a
  - denu ffynonellau newydd o gyllid i'r CLS i gynyddu lefel gynhwysfawr yr adnoddau o fewn y system.
- 3.6 Yr ydym yn cydnabod fod llawer o'n cyllidwyr partner yn y CLS yn wynebu heriau tebyg, ac yn aml heriau mwy, yng nghyswllt argaeledd adnoddau. Yr ydym hefyd yn cydnabod, a rhaid i ni reoli, y tensiwn y gall y polisiâu sydd eu hangen i gyflenwi'r weledigaeth hon ei gynhyrchu yn y berthynas rhyngom ein hunain fel prynwyr gwasanaethau cyfreithiol a chynghori, a'r rhai sy'n eu darparu.

## Deall yr angen

3.7 Rydym yn benderfynol i gadw'n hymrwymiad o ddodi anghenion cleientiaid yng nghanol ein penderfyniadau. Mae'n rhaid i ni felly ddeall beth yw'r anghenion hyn. Mae hyn yn golygu fod yn rhaid i ni barhau i adeiladu ar y dynesiadau a gymerwn ar hyn o bryd yn ein dadansoddiad anghenion rhanbarthol. Yn neilltuol rhaid i ni:

- sicrhau, ar lefel genedlaethol, ein bod yn deall datblygiadau yn y system gyfreithiol a'r gwasanaethau cyhoeddus hynny, lleol a chenedlaethol, a all effeithio ar yr angen am wasanaethau cyfreithiol a chynghori;
- ymrwymo'n agosach gyda rhannau eraill llywodraeth ganolog, llywodraeth leol, darparwyr cyfreithiol a chynghori a budd-ddeiliaid lleol a chenedlaethol eraill i fanteisio o'u dealltwriaeth o anghenion cleientiaid;
- canfod mecanweithiau effeithlon i ymrwymo'n agosach gyda chleientiaid gwasanaethau cyfreithiol a chynghori, a'r grwpiau sy'n eu cynrychioli; a
- parhau i ddatblygu ein gallu i drosi'r wybodaeth hon yn ddealltwriaeth wirioneddol o anghenion cleient er mwyn gwneud penderfyniadau am flaenoriaethau gwasanaeth sy'n dryloyw ac atebol.

## Rhoi mwy o ffocws cleient i wasanaethau cyfreithiol a chynghori

3.8 Sylweddolwn y cyflwynir rhai heriau wrth symud o ddealltwriaeth o anghenion cleientiaid i roi gwasanaethau ar waith i ateb yr anghenion hynny, yn neilltuol:

- Teilwra gwasanaethau cyfreithiol a chynghori yn unol â ffactorau daearyddol. Yr ardaloedd o ddifreintiad cymdeithasol uchaf sydd â'r angen mwyaf am wasanaethau cyfreithiol a chynghori. Er bod yn rhaid i ni ganolbwyntio adnoddau ar yr ardaloedd hyn, rhaid i ni hefyd gynnal gwasanaeth cenedlaethol. Mae'n anochel y bydd yr ardaloedd gyda'r crynhoad daearyddol uchaf o broblemau - ac felly'r angen mwyaf o wasanaethau - yn drefol. Fodd bynnag, mae gan ardaloedd gwledig eu problemau neilltuol eu hunain, y rhaid i ni hefyd fynd i'r afael â hwy.
- Cydnabod fod gan gleientiaid yn aml amrediad o broblemau. Er mwyn mynd i'r afael yn effeithlon â hyn, rhaid i wasanaethau cyfreithiol a chynghori gael eu strwythuro a'u cyflwyno mewn ffordd integredig nad ydynt yn arwain cleientiaid yn ddiangen i geisio help ar gyfer gwahanol rannau o'u problemau mewn gwahanol leoedd a gan wahanol ddarparwyr. Mae hyn yn neilltuol o bwysig oherwydd bod atgyfeiriad rhwng darparwyr gwasanaeth yn aml yn aneffeithlon.
- Mynd i'r afael â'r problemau sy'n llifo o wasanaethau gwahanol yn cael eu cyllido gan amrywiaeth o gyllidwyr a'u cyflenwi gan wahanol ddarparwyr gwasanaeth. Mae'r angen i atgyfeirio o asiantaeth cynghori cyffredinol dim er elw i gyfreithiwr arbenigol yn aml yn rhwystr nad yw cleientiaid yn ei oresgyn.

## Gwneud gwasanaethau cyfreithiol a chynghori yn fwy hygyrch

3.9 Ni fydd gwasanaethau cyfreithiol a chynghori yn ateb anghenion cleientiaid os nad yw cleientiaid yn medru cael mynediad rhwydd iddynt. Gwyddom nad yw llawer o bobl yn gwybod un ai fod help ar gael neu le i'w gael. Ymhellach, credwn nad yw'r cleientiaid mwyaf bregus a dan fwyaf o anfantais yn cael mynediad rhwydd i wasanaethau sy'n dilyn modelau traddodiadol, er enghraifft cyfreithwyr stryd fawr a chanolfannau cyngor cyffredinol.

## Cydlynu gwasanaethau cyfreithiol a chynghori i ateb anghenion blaenoriaeth

3.10 Mae hyn yn her i bob gwasanaeth cyfreithiol a chynghori, sut bynnag y cânt eu hariannu.

- Rhaid i'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol wella gwerth am arian ac ansawdd y gwasanaethau y mae'n eu cyllido tra ar yr un pryd yn rhyddhau'r cyflenwyr gorau i gyflenwi gwasanaethau o fewn fframwaith yn seiliedig ar lefelau uchel o ymddiriedaeth a gyda chostau trafodion isel.
- Yr ydym hefyd yn cydnabod, mewn o leiaf rhai meysydd o gyfraith a rhannau o'r wlad, fod darparwyr gwasanaethau cyfreithiol yn wynebu her wrth barhau i gyflenwi gwasanaethau o fewn y lefelau taliad cyfredol. Fodd bynnag, yr ydym yn cydnabod fod yn rhaid i ni hefyd ddatblygu ein systemau tâl ein hunain i roi'r cymhellion cywir i ddarparwyr gwasanaeth er mwyn bod â ffocws cywir ar anghenion cleientiaid.

3.11 Nid yw argaeledd gwasanaethau o reidrwydd yn cyfateb â'r angen am wasanaethau cyfreithiol a chynghori ac mae rhai cleientiaid yn methu cyrchu cyngor, un ai oherwydd bod darparwyr gwanaethau cyfreithol a chynghori yn anfodlon i gynyddu llwyth achosion, neu oherwydd nad oes darparwyr o'r fath yn lleol.

3.12 Mae angen i'r CLS fod yn fwy effeithlon wrth ymrwymo gyda rhannau eraill o'r llywodraeth i sicrhau dynesiad integredig at ateb anghenion unigolion a chymunedau. Anaml y bu ganddo rôl wrth gynnig datrysiadau posibl i broblemau mewn cyflenwi gwasanaeth cyhoeddus sy'n achosi rhai o'r problemau a brofir gan gleientiaid.

3.13 Mae angen i ni wneud mwy i gydlynu'r CLS.. Er bod Partneriaethau Gwasanaeth Cyfreithol Cymunedol (CLSP) wedi gwneud cynnydd da mewn llawer o ardaloedd, gan gefnogi llawer o brosiectau a chynlluniau gwerth chweil, yn gyffredinol nid yw strwythur y CLSP wedi sicrhau cyflenwi gwasanaethau cydlynol yn y ffordd a obeithiwyd:

- bu'n anodd ymrwymo llawer o awdurdodau lleol ar lefel uwch lle gwelir CLSP fel bod yn ymylol i strategaethau cymunedol a rhanbarthol;
- gall presenoldeb darparwyr gwasanaeth ar CLSP arwain at wrthdaro diddordeb; a
- ni fu gan ddefnyddwyr ran reolaidd mewn CLSP.

Mae angen i ni ddysgu mwy o brofiadau'r CLSP fel ein bod yn mynd i'r afael â'r materion allweddol hyn.

## Cwestiynau

C.4 A ydych yn cytuno mai dyma'r *prif* heriau sy'n wynebu'r CLS? A oes rhai eraill? (gweler paragraffau 3.1-3.13).



## RHAN B

Cyflenwi'r weledigaeth ar gyfer y  
Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol



## 4. Yr angen am newid

4.1 Y materion neilltuol a drafodir yn y rhan hon o'r strategaeth yw:

- gweithio mwy effeithlon gyda budd-ddeiliaid eraill y CLS;
- cyllido'r CLS;
- cyflenwi'r CLS yn flaengar ac mewn ffordd sydd â mwy o ffocws cleient ac sy'n rhoi mwy o fuddion; a
- chydlynu cyflwyno cyfraith lles cymdeithasol gyda Gwasanaethau Plant a Theulu CLS a gyda'r Gwasanaeth Amddiffyn Troseddol.

4.2 Fel y dywedasom yn y cyflwyniad i'r strategaeth hon, mae cwmpas y gweithgaredd y byddwn ni, gan weithio gydag eraill, yn mynd ag ef ymlaen i gyflenwi ein gweledigaeth ar gyfer y CLS yn rhy fawr i'w nodi mewn dim ond un ddogfen. Felly byddwn yn cynhyrchu cyfres o bapurau polisi yn ystod 2005 a thu hwnt. Rhoddir manylion yn Atodiad Un y papur hwn.

4.3 Mae'r cynigion a osodir islaw ar gyfer ymgynghori yn llifo o:

- ein dadansoddiad o'r data ymchwil a thystiolaeth a nodir yn Ail Gyfrol y strategaeth hon;
- ein profiad o ddatblygu a chyflenwi'r CLS hyd yma;
- ein dadansoddiad o'r adolygiad annibynnol o'r CLS a gynhaliwyd gan Matrix Research a Consultancy yn 2004, ac ymchwiliad Pwyllgor Dethol Materion Cyfansoddiadol T'r Cyffredin i gymorth cyfreithiol sifil;
- trafodaethau a gawsom gyda budd-ddeiliaid CLS, yn cynnwys rhai o fewn llywodraeth ganolog a lleol, darparwyr gwasanaethau cyfreithiol a chynghori a'r bobl sy'n eu cynrycholi;
- dadansoddiad a gwaith a gynhaliwyd ar gyfer Adolygiad Sylfaenol Cymorth Cyfreithiol yr Adran Materion Cyfansoddiadol; a
- pwysigrwydd cyflenwi gweledigaeth y Llywodraeth ar gyfer cymorth cyfreithiol.

4.4 Ystyriwn fod pum pwynt allweddol yn deillio o'r dystiolaeth a'r dadansoddiad hwn

- Mae angen i'r LSC roi arweinyddiaeth glir a diamwys i'r CLS yn cynnwys rhoi cyfeiriad strategol a gweithio gydag eraill i fynd i'r afael ag achosion problemau;
- Nid yw pob CLSP wedi rhoi tystiolaeth i ganiatáu mwy o ffocws wrth gomisiynu gwasanaethau cyfreithiol a chynghori sy'n ateb anghenion blaenoriaeth;
- Mae angen gwella mynediad i gyngor cyfreithiol cynnar ar gyfer cleientiaid presennol a hefyd rai nad ydynt yn cael cyngor am y problemau sy'n eu hwynebu;
- Mae angen i wasanaethau cyfreithol a chynghori lles cymdeithasol gael eu darparu mewn modd integredig a diwriad i gael yr effaith mwyaf ar gyfer cleientiaid difreintiedig; a
- Ar hyn o bryd nid yw gwasanaethau o reidrwydd yn y lle cywir i ateb blaenoriaethau a ddynodwyd mewn dull strategol. Yn y dyfodol dylai gwasanaethau gael eu comisiynu ar dargedau a gytunwyd ar fynediad yn ogystal ag ar yr amrediad gwasanaethau a gyflenwir.

4.5 Wrth fynd i'r afael â'r materion hyn byddwn yn parhau i wynebu'r heriau allweddol a nodir yn adran 3 uchod.

- 4.6 Dymunwn ymgynghori'n eang, gyda holl fudd-ddeiliaid CLS, am y cynigion hyn a'u datblygu ymhellach mewn partneriaeth. Fodd bynnag, rydym yn glir fod newid yn hanfodol os ydym i wireddu buddion posibl y CLS i'w gleientiaid yn llawn.

*Ni chredwn fod cynnal y statws quo yn opsiwn.*

## 5. Cydweithio

- 5.1 I gyflenwi ein gweledigaeth ar gyfer y Gwasanaeth Cyfreithol Cymunedol mae angen i ni weithio gydag amrediad eang o fudd-ddeiliaid: cyllidwyr eraill, darparwyr gwasanaethau cyfreithiol a chynghori, yr Adran Materion Cyfansoddiadol fel ein Hadran nawdd ac adrannau eraill y llywodraeth. Yn bwysicaf oll byddwn angen gwell dealltwriaeth o anghenion cleientiaid. Mae angen i ni ddeall yn well anghenion neilltuol yr holl gleientiaid os ydym i gomisiynu gwasanaethau sy'n mynd i'r afael â hwy o ddifrif.
- 5.2 Yr ydym yn cydnabod fod anghenion cleientiaid yn torri ar draws gwasanaethau ac asiantaethau ac ar draws strwythurau trefniadaeth fewnol, felly rydym eisiau datblygu gwasanaethau diwniad sy'n adlewyrchu profiad ein cleientiaid. Byddwn yn gofyn i bobl gyda phrofiad o ymgynghori defnyddwyr i'n helpu; byddwn yn anelu i gynnwys cynrychiolwyr cleient ar gyrrff strategol lleol newydd ac ar y grp budd-ddeiliaid cenedlaethol yr anelwn ei sefydlu. Bydd yr egwyddor o fynd i'r afael ag anghenion cleient yn arwain yr holl gysylltiadau hyn gyda budd-ddeiliaid.

### Gyda chyllidwyr eraill y CLS

- 5.3 Ar lefel genedlaethol cynigiwn sefydlu grp budd-ddeiliaid cenedlaethol ar gyfer y CLS. Byddai hyn yn cynnwys prif gyllidwyr eraill gwasanaethau cyfreithiol a chynghori, adrannau allweddol y llywodraeth a chynrychiolwyr cleientiaid. Byddai rôl grp budd-ddeiliaid cenedlaethol yn esblygu, ond i ddechrau byddem eisiau iddo:

- sicrhau dealltwriaeth gyffredin o agendâu perthnasol;
- cytuno ar y ffordd y diffiniwn angen cleient; a
- blaenori'r heriau sy'n ein hwynebu.

Yn y pen draw byddai angen i ni gytuno ar ffordd gyffredin ymlaen i'r CLS a'r ffordd y dyrennir adnoddau. Yn fyr, byddai grp budd-ddeiliaid cenedlaethol yn gymorth sylweddol i'r LSC wrth roi arweinyddiaeth a chyfeiriad cenedlaethol i'r CLS.

- 5.4 Yr ydym yn cydnabod y bydd yn hollbwysig cael cylch gorchwyl clir ar gyfer y grp hwn gyda meini prawf llwyddiant cytunedig ac eglurdeb ar rolau asiantaethau aelod, pwy a gynrychiolant a sut. Byddem yn disgwyl i'r grp gynnwys uwch gynrychiolwyr amrediad eang o gyllidwyr a chynrychiolwyr defnyddwyr a byddwn yn gweithio gyda darpar aelodau i sefydlu'r grp hwn dros weddill 2005.
- 5.5 Yr ydym yn cydnabod fod canfyddiadau Adolygiad Annibynnol y CLS a gynhaliwyd gan Matrix Research and Consultancy, bod rôl awdurdodau lleol wrth eistedd wrth ochr yr LSC yn hollbwysig yn y broses gynllunio hon. Ymhellach, yr ydym yn cydnabod y profiad helaeth iawn o bartneriaeth a enillodd awdurdodau lleol, ar amrywiaeth o faterion, o'r llu o bartneriaethau y maent yn ymwneud â hwy.

5.6 Credwn y medrai corff gyda chyfansoddiad gwahanol ymgymryd yn well â'r swyddogaeth cynllunio a aseiniwyd i'r CLSP ar hyn o bryd. Anaml y mae'r CLSP wedi ymrwymo amrediad eang o gyfreithwyr preifat a buont yn ddwys o ran adnoddau i bawb yn gysylltiedig. Oherwydd y potensial ar gyfer gwrthdaro diddordeb, ni ystyriwn y dylai darparwyr gwasanaeth fod yn aelodau o'r cyrff cynllunio neu gomisiynu. Mae CLSP wedi gwneud cyfraniad sylweddol a phwysig dros y pum mlynedd diwethaf wrth ddod â gwahanol wasanaethau cyfreithiol a chynghori a'u cyllidwyr at yr un bwrdd ond ar ôl mynd i'r afael â'r her honno, mae angen i ni yn awr gymryd y camau pwysig nesaf tuag at ddynesiad cydlynol at y CLS. Er y gall y CLSP barhau fel fforymau darparydd gwasanaeth maent yn debygol o barhau heb fewnbwn uniongyrchol neu gefnogaeth gan yr LSC: mae angen i ni yn awr symud ymlaen i gam nesaf ymrwymiad lleol. Dylai'r swyddogaeth gynllunio gael ei pherfformio gan gyllidwyr ond byddem eisiau ystyried os medrid cynnal y rôl cynllunio neu gomisiynu hon drwy strwythur presennol (efallai Bartneriaeth Strategol Lleol neu is-grp presennol) cyn ystyried os oes angen corff newydd. Rydym eisiau i'r LSC ddod i'r penderfyniad hwn ar y cyd ag awdurdodau lleol. Sylweddolwn ei bod yn annhebyg y bydd un maint yn ffitio pawb a derbyniwn y caiff gwahanol fodolau eu cytuno mewn gwahanol ardaloedd yn ôl amgylchiadau. Ein huchelgais bennaf yn y maes hwn fydd symleiddio'r broses gynllunio a gwasanaethu tra'n ei gwneud yn fwy cadarn ac yn fwy atebol lle'n briodol. Ni ddylid cael unrhyw bartneriaeth neu fiwrocratiaeth nad yw'n ychwanegu gwerth.

5.7 Ymhellach, cydnabyddwn fod angen cysylltiadau ar draws gwahanol strwythurau partneriaeth os ydym i gyflawni ein nod o gynnig gwasanaeth cyfreithiol diwniad i gleientiaid. Rhaid gwneud cysylltiadau rhwng partneriaethau sy'n ymwneud â gwasanaethau cyfreithiol a chynghori â rhai'n gweithio mewn materion cyfreithiol teulu a throseddol. Medrai grwpiau o'r fath gynnwys:

- partneriaethau adfywio ac adnewyddu cymdogaeth
- partneriaethau troseddol ac anrhefn;
- fforymau trais domestig;
- byrddau cyfiawnder troseddol lleol;
- fforymau ffoaduriaid a theithwyr;
- yr ymddiriedolaethau plant sy'n datblygu; a
- partneriaethau yn y maes gofal iechyd sylfaenol.

Byddwn hefyd yn ystyried sut y medrir symleiddio'r broses o asesu angen lleol, a sut y medrir darparu tystiolaeth a chefnogaeth briodol yn ganolog.

5.8 Pa bynnag drefniadau a wneir ar gyfer llywodraethu'r CLS, bydd yr LSC yn gweithio gyda chyllidwyr eraill mewn modd agored a thryloyw i gyflenwi cyd amcanion Byddwn yn ystyried os yw'r trefniadau yng nghyswllt Cytundebau Ardal Lleol a weithredir gan y Partneriaethau Strategol Lleol yn cynnig cyfleoedd ar gyfer cyllidebau cronus ar gyfer gwasanaethau cyfreithiol a chynghori. Byddwn yn ymrwymo gyda chyllidwyr eraill i sefydlu Canolfannau a Rhwydweithiau Cyfreithiol a Chynghori Cymunedol (gweler paragraffau 7.22-7.32 islaw).

5.9 Gall yr LSC gynnig mynediad i gyllidwyr eraill y CLS i systemau rheolaeth perfformiad, sicrwydd ansawdd, rheolaeth contract a dadansoddi anghenion. Medrai hyn sicrhau y caiff yr holl gyllid ychwanegol ei gyfeirio at gynyddu gallu ac nid at ddyblygu systemau rheolaeth. Drwy geisio cydweithredu gyda sefydliadau eraill drwy gynlluniau cyllido ar y cyd bydd angen i ni ddatblygu mesuriadau perfformiad a manylebau gwasanaeth perfformiad. Bydd hyn yn hyrwyddo cysondeb ansawdd a'i gwneud yn haws cynllunio gwasanaethau ar y cyd, yn ogystal ag i reoli contractau sydd â gwahanol ffrydiau cyllid.

## Gydag adrannau llywodraeth

- 5.10 Bydd angen i ni barhau, a gwella, ein gwaith gydag adrannau llywodraeth i:
- gyfrannu at ddatblygu polisi sy'n effeithio ar hawliau pobl, problemau traddodadwy a mynediad i gyngor a chynrychiolaeth cyfreithol;
  - ceisio sicrhau yr ystyrir y gost i gwasanaethau cyfreithiol a chynghori pan ddatblygir polisi gan adrannau llywodraeth, ac y caiff ei gyllido'n iawn pan weithredir y polisi;
  - cydweithio i adeiladu'r cysylltiad rhwng gwasanaethau cyhoeddus a mynediad i gyfiawnder;
  - deall y rhaglenni sy'n cael eu cynllunio a'u gweithredu gan adrannau llywodraeth fel bod y gwasanaethau yr ydym yn eu datblygu yn ffitio wrth eu hochr lle'n briodol; a
  - mae angen i ni sicrhau ein bod yn cael trafodaeth gynnar pan fo cynlluniau'n cael eu creu ac ymrwymo'n llawn yn y prosesau ymgynghori i sicrhau fod yr hyn a ddatblygir yn genedlaethol yn gydlynol.
- 5.11 Mae'r LSC eisoes yn cymryd rhan mewn amrediad o gynlluniau traws-lywodraethol a byddwn yn disgwyl y bydd y strategaeth hon yn ein galluogi i wella'r cysylltiadau hyn.
- 5.12 Yr Adran Materion Cyfansoddiadol yw adran nawdd yr LSC a gweithiwn yn agos gyda hwy ar holl faterion CLS, gan adeiladu ar strategaeth pum-mlwydd yr Adran Materion Cyfansoddiadol. Mae gan yr Adran ffocws neilltuol ar gwsmeriaid bregus ac ar bwysigrwydd addysg, gwybodaeth a chyngor; byddwn yn parhau i gefnogi'r gweithgaredd hwn wrth i ni weithio ar draws llywodraeth.
- 5.13 Rydym yn cymryd rhan mewn trafodaethau gyda'r Adran Materion Cyfansoddiadol a'r Adran Iechyd am ddeddfwriaeth iechyd meddwl arfaethedig i sicrhau y caiff ei effaith ar yr angen am gyngor cyfreithiol ei ddeall a'i gyllido.
- 5.14 Yr ydym yn aelodau o fyrddau strategaeth mewnfudo a lloches ar y cyd gyda'r Adran Materion Cyfansoddiadol a'r Swyddfa Gartref a rhannwn gyllideb ar y cyd. Mae hyn wedi golygu y caiff pwysigrwydd cyngor cyfreithiol wrth sicrhau proses fewnfudo a lloches deg ei ddeall yn iawn wrth i'r prosesau pen-i-ben gael eu haildrefnu.
- 5.15 Mae'r LSC yn aelod o'r grp traws-lywodraethol ar or-ddyledrwydd a gafodd ei sefydlu i gydlynu ymateb y llywodraeth i broblem cynyddol dyled bersonol a hyrwyddo cynhwysiant ariannol. Cyhoeddwyd cynllun gweithredu ym mis Gorffennaf 2004 oedd yn cynnwys cyfraniadau'r LSC drwy:
- Galw Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol
  - ymchwil Canolfan Ymchwil Gwasanaethau Cyfreithiol ar effaith economaidd cyngor; a
  - phrosiect peilot yn edrych ar ddulliau o hyfforddi arwyddbostio a chodi ymwybyddiaeth.
- 5.16 Yr ydym yn awr yn adeiladu cysylltiadau cryf gyda Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog sy'n cynnwys yr Uned Allgauedd Cymdeithasol a hefyd yr Uned Adnewyddu Cymdogaeth. Gyda'n gilydd anelwn sicrhau darparu gwasanaethau cyfreithiol a chyngor cynaliadwy mewn ardaloedd o ddifreintiad uchel a rydym yn ymchwilio ffyrdd y medrwn weithio'n agosach wrth ddatblygu ein polisiau a'n cynlluniau.

- 5.17 Yr ydym yn cyfrannu at ddatblygu'r Strategaeth Traws-Lywodraethol ar Boblogaeth Heneiddiol sydd i'w chyhoeddi gan yr Adran Gwaith a Phensiynau. Rydym hefyd yn rhan o weithgor yr adran honno ar 'Cyswllt-Oedran' sy'n datblygu dynesiad cydlynol at wasanaethau ar gyfer pobl hn. Mae hyn er mwyn sicrhau fod gwasanaethau cynghori yn hygyrch i bobl hn a hefyd yn ateb eu hanghenion yn effeithlon.
- 5.18 Bu'r LSC yn gweithio gyda swyddfeydd Canolfan Byd Gwaith yn ardal Dwyrain Lloegr ers Mawrth 2004 i godi ymwybyddiaeth o'r Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol ymysg staff rheng-flaen. Byddwn yn defnyddio ein profiadau yn rhanbarth y Dwyrain i hysbysu cysylltiadau a chynlluniau gydag adrannau ac asiantaethau llywodraeth eraill yn y dyfodol.
- 5.19 Yr ydym yn cydnabod yr angen i ymwneud yn briodol gyda'r agenda sy'n datblygu ar gyfer ymddiriedaethau plant, a'r ffordd y mae gwasanaethau addysg, iechyd a chymdeithasol yn cynllunio darparu gwasanaethau ar gyfer plant, pobl ifanc a theuluoedd.
- 5.20 Mae angen i ni wella ein hymrwymiad gyda'r Swyddfa Gartref a dynodi'r ffordd y bydd deddfwriaeth newydd ar droseddu a materion cysylltiedig fel ymddygiad gwrthgymdeithasol yn effeithio ar ddarpariaeth gwasanaethau cyfreithiol a chynghori sifil.

### **Gyda darparwyr gwasanaeth**

- 5.21 Disgwylir i'r holl ddarparwyr a gyllidir fel rhan o'r CLS ddarparu gwasanaethau gyda sicrwydd ansawdd, wedi eu staffio gan rai gydag arbenigedd priodol. Bydd yr LSC yn gweithio gyda darparwyr gwasanaeth i ddatblygu gwasanaethau ansawdd uchel.
- 5.22 Bydd yr LSC yn cyflawni ei rôl o ddynodi anghenion a chomisiynu gwasanaethau sy'n ateb yr anghenion hynny. Byddwn yn dylunio systemau tâl ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil ac am gyd-gyllido lle'n briodol, mae hynny'n cynnwys cymhellion i ddarparwyr gwasanaeth weithio gyda ni i ddarparu gwasanaethau diwriad a gwerth da sy'n ateb anghenion cleientiaid. Disgwylwn sefydlu perthynas fusnes comisiynydd / cyflenwr glir.
- 5.23 Bydd ansawdd yn parhau'n greiddiol i'r system. Fodd bynnag, rydym eisiau symud tuag at ddynesiad mwy hyblyg at y Nod Ansawdd, yn arbennig ar y lefel arbenigol. Ein nod, lle mae darparwyr gwasanaeth yn arddangos ein lefel perfformiad ffafriedig drwy adolygiad cymheiriaid a chanlyniadau i gleientiaid, yw na fyddwn mwyach yn monitro dirprwyon ar gyfer ansawdd. Gall darparwyr gwasanaeth arddangos cydymffurfiaeth gyda safonau rheolaeth drwy eu gweithdrefnau archwiliad mewnol eu hunain (y byddem yn eu monitro'n gyfnodol) neu achrediaid eraill derbyniol megis Lexcel, ISO neu Buddsoddwr mewn Pobl.
- 5.24 Lle mae gan sefydliad ymbarél system gredadwy ar gyfer archwilio'r Nod Ansawdd, ac ar gyfer adolygiad cymheiriaid, byddwn yn derbyn y systemau hynny'n amodol ar fonitro cyffredinol.
- 5.25 Gan ein bod yn anelu i sicrhau fod cleientiaid yn derbyn gwasanaethau cyfreithol a chynghori ansawdd uchel, rhaid i ni gynnal archwiliad a mesuriad addas o'r gwasanaethau hynny. Fodd bynnag, cynhelir archwiliadau a mesuriadau o'r fath ar ôl y digwyddiad. Mae'n hollbwysig bod ffocws cyffelyb neu fwy ar i'r cyngor a gyflenwir fod yn iawn y tro cyntaf. Bydd cynghorwyr sydd wedi eu hyfforddi'n dda, yn gymwys a gyda chymhelliant uchel yn cyflenwi gwasanaethau ansawdd uchel.
- 5.26 Byddwn yn parhau i symud tuag at gontractau cyfreithwyr ar y lefel Gwaith Rheoledig sy'n seiliedig ar daliadau bloc neu sefydlog yn hytrach na chyfraddau fesul awr ac sy'n gostwng yr achos am archwilio cydymffurfiaeth contract.

- 5.27 Gan adeiladu ar hyn, byddwn yn cyhoeddi cynigion i gydgordio contractau dielw a chyfreithwyr, o leiaf ar y lefel Gwaith Rheoledig, yn Ebrill 2007. Bydd y pwyslais ar y gwasanaeth i gael ei brynu gan gleientiaid yn hytrach na natur y darparydd, neu'n wir os caiff y gwasanaethau eu cyllido gan yr LSC, awdurdodau lleol neu eraill fel rhan o'r CLS.
- 5.28 Byddwn yn anelu i ddatblygu ein sylfaen cyflenwr presennol i gyflenwi arfer gorau o fewn cyllid cymorth cyfreithiol ac i gydlynu'n well gyda ffrydiau cyllid eraill y CLS. Bydd hyn yn golygu y bydd angen manyleb o'r gwasanaethau i gael eu cyflenwi i gleientiaid megis isafswm safonau mynediad, ansawdd a chanlyniadau. Mae rhai cyflenwyr CLS eisoes yn darparu gwasanaethau sy'n agos at y fanyleb hon ond mae gormod nad ydynt. Byddwn yn ceisio ffyrdd newydd o ddatblygu gwasanaethau presennol er mwyn dynodi amrediad o fodolau gwasanaeth sy'n ateb anghenion cyfreithiol a chynghori cleientiaid yn well. Ni chaiff y cynlluniau hyn eu micro-reoli yn lleol; yn hytrach byddant yn rhoi fframwaith cenedlaethol sy'n caniatáu datblygu gwasanaethau lleol sy'n ateb angen lleol orau - o grynhoed tloidi mewn rhai ardaloedd trefol i heriau cyflenwi gwasanaeth ar draws poblogaethau gwasgaredig mewn ardaloedd gwledig.

## Cwestiynau

**C.5.** Ydych chi'n cefnogi'r cynnig i sefydlu grp budd-ddeiliaid cenedlaethol? A oes gennych unrhyw sylwadau ar y cylch gorchwyl dechreuol a'r aelodaeth arfaethedig fel a amlinellir ym mharagraffau 5.3 a 5.4?

**C.6.** Ydych chi'n cytuno y dylai swyddogaeth cynllunio'r CLSP gael ei gwneud gan gorff gwahanol? Ydych chi'n cytuno y dylai'r corff priodol gael ei gytuno rhwng yr LSC ac awdurdodau lleol? (gweler paragraff 5.6)



## 6. Cyllido'r Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol

- 6.1 Mae rhagamcaniad cyfredol yr LSC o'i wariant RAB ar wasanaethau cyfreithiol a chynghori sifil yn 2005/06 yn £813 miliwn (wedi cynyddu o £731 miliwn yn 2004/05). Mae hyn yn cynnwys £528 miliwn ar gynrychiolaeth gyfreithiol mewn trafodion llys (wedi cynyddu o £449 miliwn yn 2004/05); £187 miliwn ar gyllid dechreuol, yn cynnwys cynrychiolaeth gerbron Tribiwnlysoedd Adolygu Iechyd Meddwl (wedi cynyddu o £179 miliwn yn 2004/05); a £98 miliwn ar fewnfudo a lloches (wedi gostwng o £103 miliwn yn 2004/05).
- 6.2 Fel y dywedasom, dim ond rhan o'r darlun yw gwasanaethau a gyllidir gan yr LSC. Mae cyllidwyr eraill yn gwneud buddsoddiad sylweddol mewn gwasanaethau cyfreithiol a chynghori. Mae awdurdodau lleol, er enghraifft, yn cyfrannu symiau mawr o gyllid i wasanaethau sy'n darparu cyngor cyfreithiol mewn meysydd lles cymdeithasol o gyfraith.
- 6.3 Fodd bynnag, oherwydd y pwysau ar y gyllideb cymorth cyfreithiol gyffredinol, mae angen i ni gymryd camau penodol i sicrhau fod adnoddau priodol ar gael i gyflenwi'r strategaeth hon. Yn neilltuoel bydd angen i ni:
- barhau i geisio gwell gwerth am arian ym mhob maes o wariant LSC (CLS a CDS), a gweithio gydag eraill yn y systemau sifil a chyfiawnder troseddol i uchafu ein gallu i gyflenwi gwasanaethau rheng flaen hollbwysig i gleientiaid;
  - ceisio ymrwymadau tymor-hir newydd at gyfrannu cyllid i'r CLS, gan amrediad ehangach o gyllidwyr;
  - sicrhau y caiff cynnydd mewn costau CDS a CLS yn deilio o newidiadau arfaethedig mewn polisi'r llywodraeth neu ddeddfwriaeth (er enghraifft y drafft Fesur Iechyd Meddwl) eu cydnabod a hefyd eu cyllido yn unol â hynny;
  - gweithio gyda chyllidwyr eraill i uchafu'r defnydd effeithlon o'r adnoddau sydd ar gael, er enghraifft drwy gronni cyllidebau gydag awdurdodau lleol; a
  - parhau i ffocysu ein cyllid ar y cleientiaid blaenoriaeth uchaf, drwy feini prawf cwmpas a chymhwyster ariannol.
- 6.4 Cafodd y CLS beth llwyddiant eisoes wrth sicrhau adnoddau ychwanegol. Yr ydym yn cydnabod fod angen i ni wneud mwy a, gan weithio gyda'r Adran Materion Cyfansoddiadol, yr ydym yn dechrau gwneud cynnydd.
- 6.5 Mae Trysorlys EM wedi dyfarnu £6m ychwanegol dros dair blynedd i'r Adran i gyflenwi cyngor arian allestyn, a gofynnodd i'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol reoli'r prosiect hwn. Rydym yn datblygu dynesiad fydd yn ategu'r strategaeth hon, gan weithio mewn ardaloedd Adnewyddu Cymdogaeth a thargedu grwpiau cleient neilltuoel.
- 6.6 Serch hynny, mae'r CLS yn gorfod cystadlu am adnoddau gyda gwasanaethau cyhoeddus craidd eraill, ac mae'n amlwg y bydd terfynau go iawn ar yr hyn y medrwn ei ariannu. Bydd bylchau bob amser, oherwydd:
- ni fydd gan bob ardal leol wasanaethau cyfreithiol a chynghori ym mhob categori o'r gyfraith;
  - credwn ei bod yn rhesymol disgwyl i gleientiaid sydd eisiau cyngor wyneb-i-wyneb i deithio at ddarparwydd priodol, yn union fel y byddent ar gyfer gofal iechyd a gwasanaethau proffesiynol eraill; a
  - yr ydym yn cydnabod y gall rhai cleientiaid orfod aros am wasanaethau heb fod yn frys, er y bydd gan wasanaeth ffôn estynedig (gweler paragraffau 7.12-7.17 islaw) rôl bwysig wrth

ehangu mynediad, darparu gwasanaethau gwaith achos gwerth gwell i lawer o gleientiaid, ac felly alluogi ailgyfeirio adnoddau tuag at ein blaenoriaethau uchaf.

Oherwydd hyn y mae'r weledigaeth ar gyfer gwasanaethau a amlinellwn islaw yn seiliedig ar wasanaeth ffôn cenedlaethol hygyrch, crynhoad o wasanaethau wyneb-i-wyneb yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig, a rhwydwaith rhanbarthol o gynghorwyr cyfreithiol ledled gweddill Lloegr a Chymru, wedi'u cefnogi gan y rhwydweithiau presennol o asiantaethau cynghori cyffredinol.

- 6.7 Rhaid i ni gydbwyso'r angen i dargedu adnoddau ar y bobl fwyaf bregus mewn cymdeithas gyda'n nod o wasanaethu'r gymuned ehangach. Bydd yn rhaid i ni wneud rhai penderfyniadau caled ar sut y dylem flaenori gwariant er mwyn cyflenwi'r strategaeth hon. Medrai hyn olygu gorfod gostwng rhai gwasanaethau cyffredol a pheidio adnewyddu cyllid ar gyfer rhai prosiectau presennol. Wrth gymryd y penderfyniadau hyn, rhaid i ni fod yn sicr ein bod yn gwella gwasanaethau i gleientiaid yn gyffredinol.
- 6.8 Disgwyliwn hefyd y bydd ehangiad sylweddol o wasanaethau ffôn yn ein galluogi yn raddol i ailffocysu adnoddau ar gyfer gwasanaethau wyneb i wyneb ar gymdogaethau blaenoriaeth a hefyd wasanaethau rhanbarthol. Yr ydym hefyd yn cydnabod y gall mynediad i wasanaethau ffôn arwain at alw cynyddol am wasanaethau wyneb i wyneb a chynrychiolaeth gyfreithiol ymysg rhai grwpiau cleient.

## Cwestiynau

**C.7** Mae Paragraff 6.3 yn amlinellu camau i sicrhau fod adnoddau priodol ar gael ar gyfer y CLS. A oes unrhyw gamau eraill y dylai'r Comisiwn eu cymryd?

## 7. Meysydd gwaith blaenoriaeth ar gyfer y Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol

7.1 Yr ydym wedi dynodi tri maes blaenoriaeth ar gyfer ein gwaith yn datblygu'r CLS, sef:

- **gweithredoedd unigol o gyngor, cymorth a chynrychiolaeth;**
- **gweithredu strategol i fynd i'r afael â'r angen am gyngor; a**
- **gwybodaeth am hawliau cyfreithiol.**

7.2 Mae'r rhain yn rhyngddibynnol, a gyda'i gilydd anelant i ateb anghenion cleientiaid yn effeithlon a'u hymrymuso i ddefnyddio'r system gyfreithiol i sicrhau newid cadarnhaol yn eu bywydau. Er y byddwn yn parhau i ganolbwyntio mwyafrif helaeth ein hadnoddau ar gyngor a chymorth cyfreithol, byddwn hefyd yn cefnogi gwaith yn y ddau faes arall lle bynnag mae hyn yn addas ac yn gost-effeithlon. Rhaid i ni sicrhau fod ein gweithgaredd yn ategu gwasanaethau cyhoeddus eraill sy'n rhannu ein ffocws cleient, a byddwn yn gweithio'n agos gydag adrannau llywodraeth, yn neilltuo'r Adran Materion Cyfansoddiadol. Drwy ymrwymo'n effeithlon gyda Strategaeth Addysg, Gwybodaeth a Chynghori'r Adran, sydd â rôl hollbwysig wrth alluogi gweithredu strategol a darparu gwybodaeth gyfreithiol, bwriadwn gefnogi'r meysydd hyn o waith tra'n canolbwyntio'n bennaf ar ddatblygu'r CLS i gyflwyno cyngor a chymorth cyfreithiol i unigolion.

7.3 Byddwn hefyd yn parhau i ddefnyddio ymchwil, megis yr Arolwg Cenedlaethol o Broblemau Traddodadwy a gynhaliwyd gan y Ganolfan Ymchwil Gwasanaethau Cyfreithiol, i fod yn sail i'n dealltwriaeth o anghenion cleientiaid ac ymddygiad ceisio cyngor.

### Gweithredoedd unigol o gyngor a chymorth

7.4 Gwyddom, o ymchwil megis yr Arolwg Cenedlaethol o Broblemau Traddodadwy a gynhaliwyd gan y Ganolfan Ymchwil Gwasanaethau Cyfreithiol:

- y mae'n debygol o fod dros filiwn o broblemau cyfreithiol heb eu datrys bob blwyddyn;
- os oes gan gleient un broblem gyfreithiol, maent yn debygol o gael un arall; os oes ganddynt wyth broblem gyfreithiol, mae bron yn anochel y bydd ganddynt naw;
- dim ond hanner y rhai gyda phroblem sy'n ceisio cyngor cyfreithiol, ac o'r rhai sy'n gwneud hynny, mae un mewn saith yn methu ei gael;
- mae llawer o bobl sy'n gweithredu i ddatrys eu problem(au) yn gofidio sut y gwnaethant ei thrafod; a
- po fwyaf o weithiau yr atgyfeiriwyd cleient, y lleiaf tebygol ydynt o dderbyn help yn y pen draw.

7.5 Ein her yw rhoi mynediad i wasanaethau cyfreithiol a chynghori sy'n newid yr ystadegau brawychus hyn.

7.6 Credwn fod cyngor cynnar yn hanfodol i atal problemau pobl rhag tyfu, gan ddod yn fwy niferus a chymhleth, ac felly gynyddu risg allgau cymdeithasol. Os na fedrwn atal problemau rhag codi yn y lle cyntaf, rydym eisiau helpu eu datrys cyn gynted ag sydd modd – a gwneud mynd i'r llys yn gam i'w gymryd pan fetho popeth arall.

7.7 Wrth gwrs, nid ni yw unig gyllidwyr y Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol, yn arbennig mewn materion lles cymdeithasol, a bydd angen i ni weithio gyda llawer o sefydliadau eraill (awdurdodau lleol, Ymddiriedolaethau Gofal Sylfaenol ac adrannau llywodraeth) i sicrhau fod gwasanaethau

cyfreithiol a chynghori yn gydlynol. Er bod gwasanaethau a gyllidir gan bartneriaid eraill yn y CLS yn aml yn canolbwyntio ar gyngor a gwaith achos, mae rhai hefyd yn cynrychioli cleientiaid, yn arbennig mewn tribiwnlysoedd y tu allan i gwmpas cymorth cyfreithol. Mae Undebau Llafur, cwmnïau yswiriant a gwaith cleientiaid preifat mewn cwmnïau cyfreithiol hefyd yn ffynonellau gwerthfawr iawn o wasanaethau cyfreithiol a chynghori.

7.8 Yr ydym yn ymroddedig i sicrhau y caiff y gyfraith ei defnyddio'n addas ac yn gymesur. Mae gan Datrysiad Anghydfod Amgen (DAA) sy'n cynnwys cyfryngu, rôl bwysig mewn Gwasanaeth Cyfreithol Cymunedol effeithlon. Mae Cod Cyllido'r Comisiwn yn annog DAA cyn dyfarnu cymorth cyfreithiol ar gyfer ymgyfreitha, dynesiad y gwnaethom ei ail-bwysleisio yn ein hymgyngoriad diweddar 'Ffocws Newydd ar gyfer Cymorth Cyfreithiol Sifil'. Mae gwasanaethau cyfryngu eisoes wedi datblygu'n dda mewn cyfraith teulu, a chyllidwn y rhain yn uniongyrchol. Fodd bynnag, rydym eisieu gwneud mwy i annog defnyddio DAA mewn achosion heb fod yn rhai teulu, ac mae hyn yn un o'r meysydd y byddwn yn ei drafod.

7.9 Yr ydym yn cydnabod y bydd cyllido cynrychiolaeth gyfreithiol mewn trafodion sifil a gaiff eu herio yn parhau i fod yn agwedd sylweddol o'r CLS. Yn aml mae angen y math hwn o gynrychiolaeth gyfreithiol i sicrhau fod gan bobl fynediad i wrandawriad teg, fel sy'n ofynnol gan Erthygl 6 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

7.10 O fewn y fframwaith hwn (sef cyngor cyfreithiol, amgennau i ymgyfreitha a chynrychiolaeth gyfreithiol lle'n briodol), cynigiwn wneud gwasanaethau yn hygyrch i gleientiaid drwy:

- ehangu gwasanaethau cyngor ffôn, fel modd o ehangu mynediad i wasanaethau cyfreithol a chynghori, a sicrhau gwerth gwell am arian;
- peilotio Canolfannau Cyfreithiol a Chyngor Cymunedol lle mae'r angen mwyaf am wasanaethau cyfreithiol a chynghori cydlynol mewn cyfraith lles cymdeithasol;
- peilotio Rhwydweithiau Cyfreithiol a Chynghori Cymunedol mewn nifer o ardaloedd eraill i sicrhau y cyflenwir gwasanaeth diwniad ar draws ardaloedd ehangach a rhai gyda phoblogaethau mwy gwasgaredig;
- trefnu categorïau arbenigol o gyfraith o amgylch y mathau o broblemau y mae cleientiaid yn eu profi yn fwyaf cyffredin; a
- sicrhau mynediad i wasanaethau cyfreithiol a chynghori ar faterion o hawliau sylfaenol.

7.11 Wrth ddatblygu a chyflenwi strategaeth ar gyfer y Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol, bwriadwn sefydlu safonau a thargedau ar gyfer mynediad i wasanaethau cyfreithiol a chynghori yr ydym yn eu cyllido ac i weithio gyda chyllidwyr eraill i gytuno ar ddynesiad cyffredin at fynediad i wasanaethau CLS. Caiff y targedau hyn eu meincnodi yn erbyn gwasanaethau cyhoeddus eraill. Medrir gosod targedau i gwmpasu:

- agosatrwydd yr holl boblogaeth at wasanaethau cyfreithol a chynghori;
- agosatrwydd y boblogaeth gymwys at wasanaethau cyfraith lles cymdeithasol;
- argaeledd cyngor a gwybodaeth ddechreuol ar y ffôn neu'r rhyngwyd; a
- agosatrwydd cleientiaid cymwys i wasanaethau cyfreithiol heb fod yn ymwneud â lles cymdeithasol.

### **Gwasanaethau ffôn**

- 7.12 Er mwyn sicrhau y gall cleientiaid gael mynediad i wybodaeth a chynghor cyfreithiol ansawdd uchel, beth bynnag eu modd neu leoliad, bwriadwn ddatblygu'r gwasanaeth ffôn cenedlaethol ymhellach, yn seiliedig yn fras ar y gwasanaeth sydd ar gael gan Galw Gwasanaeth Cyfreithol Cymunedol. Gwyddom eisoes o'n profiad o Galw Gwasanaeth Cyfreithol Cymunedol, a hefyd o amgylcheddau cyflenwi gwasanaeth arall, am botensial gwasanaethau ffôn i wella mynediad yn sylweddol. Mae'n well gan lawer o bobl gyrchu gwasanaethau dros y ffôn, fel a ddysgwyd o gynlluniau peilot Dulliau Cyflenwi'r Comisiwn.
- 7.13 Y gwasanaeth ffôn cenedlaethol yw'r allwedd i alluogi'r CLS i gynyddu hygyrchedd gwasanaethau gwybodaeth a chynghori cyfreithiol. O fewn yr adnoddau sydd ar gael ni credwn y medrwn ehangu gwasanaethau wyneb-i-wyneb i ddarparu gwasanaethau cyfreithiol a chynghori mor eang a ddwfn ag y medrai gwasanaeth ffôn eu cynnig.
- 7.14 Byddwn yn cwmpasu datblygiad gwasanaeth ffôn sy'n cynnig gwybodaeth sylfaenol ar hawliau a chyfrifoldebau cyfreithiol, pecynnau hunangymorth ar gyfer y rhai sy'n medru gweithredu eu hunain, cyngor, cefnogaeth a gwaith achos lle'n briodol. Byddai'n anelu i gyflenwi gwasanaeth cyffredinol ar draws cyfraith lles cymdeithasol a chyfraith teulu a hefyd gynnig gwybodaeth a chynghor mewn meysydd eraill o'r gyfraith.
- 7.15 Ein nod fydd i wasanaeth lefel sylfaenol fod ar gael i bawb, beth bynnag eu modd. Bydd y gwasanaeth cynhwysfawr yn helpu i ddarparu gwasanaeth mewn ardaloedd daearyddol lle mae bylchau mewn darpariaeth ar hyn o bryd. Bydd y gwasanaeth gwaith achos yn canolbwyntio ar bobl sy'n gymwys am gymorth cyfreithol ac sy'n well ganddynt wasanaeth ffôn.
- 7.16 Lle'n briodol (megis pan fo cleient angen cymorth gyda chynrychiolaeth neu ymgyfreitha) bydd yn cysylltu'n uniongyrchol â gwasanaethau wyneb-i-wyneb drwy wneud apwyntiadau gyda darparwyr a throsglwyddo gwybodaeth berthnasol. Bydd hyn yn sicrhau fod cleientiaid yn derbyn gwasanaeth diwniad ac na chânt eu colli fel canlyniad prosesau atgyfeirio annigonol.
- 7.17 Gwyddom o lawer o feysydd o gyflenwi gwasanaeth mae cleientiaid sy'n penderfynu os yw gwasanaeth yn llwyddiannus, ond disgwyliwn yn hyderus y caiff y gwasanaeth hwn ei ehangu'n gyflym dros y pum mlynedd nesaf wrth i gleientiaid ddewis hyn fel y sianel mynediad sydd orau gan gleientiaid. Disgwyliwn y bydd ei dwf yn ein galluogi i fod â gwell ffocws ar wasanaethau wyneb-i-wyneb mewn modd cynaliadwy.

### **Gwasanaethau wyneb i wyneb**

- 7.18 Nid yw'n syndod mai yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig lle mae tlodi ac allgauedd wedi eu crynhoi y mae'r angen mwyaf am wasanaethau wyneb-i-wyneb. Mae'r cymunedau hyn yn wynebu amrediad o broblemau rhyng-gysylltiedig, megis diffyg gwaith a gwaith cyflog isel, dibyniaeth ar fudd-daliadau, dyledion cynyddol a phroblemau iechyd ac anabledd tymor-hir. Mae materion o hawliau sylfaenol (megis trafodion yn erbyn awdurdodau cyhoeddus, lloches ac iechyd meddwl) hefyd yn gysylltiedig â'r patrwm hwn o broblemau lles cymdeithasol. Rhaid i wasanaethau cyfreithiol a chynghori fedru ateb anghenion ar draws 'hawliau' a hefyd faterion lles cymdeithasol.

- 7.19 Gwyddom o'r Arolwg Cenedlaethol o Broblemau Traddodadwy a gynhaliwyd gan y Ganolfan Ymchwil Gwasanaethau Cyfreithiol fod ffactorau sy'n aml yn gysylltiedig ag allgauedd cymdeithasol, megis anabledd neu broblemau iechyd tymor-hir, tai gwael neu ddigartrefedd, neu fod yn derbyn budd-daliadau yn ddangosyddion da y gall person hefyd fod yn profi problemau cyfreithiol cysylltiedig (Causes of Action, tt. 21-31). Mae'r Arolwg hefyd yn dangos effaith ychwanegiad '[e]ach time a person experiences a problem they become increasingly likely to experience additional problems' (Causes of Action, t.31). Yr un mor arwyddocaol yw bod pobl sy'n dioddef o broblemau iechyd tymor hir neu anabledd yn byw mewn tai dwysedd uchel neu dai ar rent preifat, yn derbyn budd-daliadau, neu rieni unigol yn fwy tebygol o adrodd problemau lluosog na phobl eraill (Causes of Action, t.32).
- 7.20 Ar gyfer y bobl sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig lle mae'r ffactorau hyn wedi crynhoi, mae gwasanaethau cyfreithiol a chynghori hygyrch yn hollbwysig i sicrhau eu bod yn derbyn y budd-daliadau y mae ganddynt hawl iddynt. Maent angen gwasanaethau cyfreithiol a chynghori sydd yng nghanol eu cymunedau a, lle bynnag yn bosibl, yn cynnig help ym mhob maes o gyfraith lles cymdeithasol mewn modd diwniad, a all fynd i'r afael â chlystyru problemau y mae cleientiaid yn aml yn eu hwynebu. Mae rhai enghreifftiau o wasanaethau yn ceisio ateb angen yn y ffordd hon ond drwyddi draw nid yw gwasanaethau yn mynd i'r afael â'r heriau a osodwn uchod.
- 7.21 Bydd ehangu gwasanaethau ffôn yn ein galluogi i ddatblygu gwasanaethau wyneb-i-wyneb gyda ffocws gwell ar ateb anghenion neilltuol y cymunedau tlotaf a mwyaf difreintiedig. Mae'r arbedion a ddaw o wasanaeth ffôn hygyrch yn golygu dros gyfnod y medrir dargyfeirio adnoddau i sicrhau fod mynediad da gan y rhai sydd fwyaf o angen gwasanaethau wyneb-i-wyneb. Mae hyn yn golygu y medrwn ddisgwyl dros gyfnod gael y crynhoad mwyaf o wasanaethau wyneb-i-wyneb mewn ardaloedd megis Ardaloedd Adfywio Cymdogaeth (yr 88 awdurdod lleol tlotaf yn Lloegr a'r ardaloedd cyfatebol yng Nghymru) a dynesiad mwy rhanbarthol at wasanaethau wyneb i wyneb y tu allan i'r ardaloedd hyn. Mae'n afrealistig disgwyl i bob tref gael amrediad eang o ymarferwyr cymorth cyfreithiol ym mhob maes o'r gyfraith.

### **Canolfannau Cyfreithiol a Chynghori Cymunedol**

- 7.22 Cynigiwn gynnal cynllun peilot o nifer fechan o Ganolfannau yn darparu gwasanaethau cyfreithiol a chynghori wyneb-i-wyneb a gyd-gyllidir mewn cyfraith lles cymdeithasol a gyflenwir dan lefel manyleb gwasanaeth sydd â mwy o ffocws ar allbynnau a chanlyniadau nag un ai'r contractau LSC presennol neu lawer o gytundebau cyllid awdurdodau lleol. Mae'r gwasanaethau hyn yn debygol o fod yn seiliedig mewn prif ganolfannau trefol, efallai gyda swyddfeydd lloeren yn y cymunedau mwyaf difreintiedig, neu wasanaethau all-estyn mewn meddygfeydd a sefydliadau cymunedol. Byddant yn cyflenwi gwasanaeth diwniad, o gyngor a chymorth sylfaenol i gynrychiolaeth arbenigol yn y llysoedd uchaf. Er mwyn delio yn ddiwniad gyda phroblemau cleientiaid, bydd y Canolfannau yn cwmpasu amrediad eang o gategorïau cyfraith, yn cynnig fel isafswm, wasanaethau mewn amrediad o gategorïau lles cymdeithasol, yn neilltuol Dyled, Tai, Budd-daliadau Lles, Gofal Cymunedol a Chyflogaeth. Bydd ganddynt gysylltiadau effeithlon gyda chyflenwyr mewn meysydd arbenigol eraill o'r gyfraith a thros gyfnod medrant ddatblygu ymhellach i ddarparu rhai o'r gwasanaethau hyn eu hunain.

- 7.23 Wrth ddatblygu'r model hwn, byddwn yn defnyddio arfer gorau presennol o, er enghraifft, gwmnïau preifat effeithiol, gyda chleient ffocws a gaiff eu rhedeg yn dda, Canolfannau Cyfraith, asiantaethau dielw, a phrosiectau Cyllideb Menter Partneriaeth llwyddiannus ond gyda gwarant o gyflenwi gwasanaeth na chaiff ei gynnwys o fewn unrhyw wasanaeth presennol a gyllidwn. Nid oes disgwyliad y dylai'r Canolfannau hyn gael eu rhedeg gan unrhyw un sector – di-elw, preifat neu fasnachol - ond byddwn yn disgwyl i wasanaethau fod â ffocws cadarn ar anghenion cleientiaid, gan gyflenwi i'r fanyleb a gytunwyd, pa bynnag asiantaeth neu asiantaethau sy'n eu rhedeg. Bydd Canolfan Gyfreithiol a Chynghori Cymunedol yn un endid cyfreithol - ond medrid ei rhedeg gan fwy na un cyflenwr neu gan amrediad o ddarparwyr sy'n dod ynghyd i gynnig fel consortiwm. Disgwylwn beilotio gwahanol agweddau ar y model hwn. Wrth ddewis ble i leoli'r cynlluniau peilot hyn, byddwn yn anelu i ddynodi partneriaid cyllido allweddol a budd-ddeiliaid eraill sydd eisïau datblygu'r syniadau hyn gyda ni.
- 7.24 Fodd bynnag ni fwriadwn atgynhyrchu darpariaeth bresennol lle mae hyn yn gwasanaethu cymunedau'n dda. Fodd bynnag, rhaid i ni fod yn hyderus fod gwasanaethau yn cyflenwi canlyniadau da i gleientiaid a heb eu strwythuro o amgylch anghenion sefydliad unigol. Mae angen i ni sicrhau nad yw gwasanaethau yn dethol y cleientiaid yn ôl os yw eu hachosion yn ymddangos yn arbennig o ddiddorol neu gyda thâl da. Rhaid iddynt hefyd flaenori'n effeithlon, yn hytrach na dogni drwy giwio neu ond bod ar gael am nifer gyfyngedig iawn o orïau. Mae contractau presennol yr LSC *un ai* heb fanylu unrhyw isafswm cyfaint o waith, *neu* nid heb fanylu isafswm o gleientiaid i gael eu helpu.
- 7.25 Byddwn yn anelu i ddatblygu'r Canolfannau hyn drwy berthynas tymor-hir gyda darparwyr, i gefnogi gwasanaethau o ansawdd a hygyrchedd gwarantedig. Byddwn yn rhoi manyleb glir o'r gwasanaethau a chanlyniadau i gael eu cyflenwi, a gall darparwyr lleol gynnig, un ai'n unigol neu ar y cyd, i'w darparu. Er y caiff y fanyleb eang ei gosod yn genedlaethol, yn seiliedig ar yr ymchwil a thystiolaeth gorau sydd ar gael, bydd yn caniatáu hyblygrwydd ac amrywiad lleol. Caiff lleoliad gwasanaethau (swyddfeydd lloeren, lleoliadau all-estyn megis meddygfeydd), y cydbwysedd rhwng y gwahanol gategoriâu o gyfraith a'r ymateb i anghenion lleol penodol (megis yr angen am wasanaeth mewn iaith neilltuol) oll eu gyrru gan ffactorau lleol. Nid ydym yn disgwyl y byddai'r bobl sy'n cyflenwi'r gwasanaethau hyn yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan yr LSC, er y medrem gynnal cynllun peilot ar fodel o'r fath.
- 7.26 Medrai cyllid am y Canolfannau fod yn gysylltiedig â chyflawni canlyniadau penodol i gleientiaid. Medrai gweithgareddau allweddol gynnwys:
- Targedu grwpiau nad ydynt yn cyrchu gwasanaethau presennol, er enghraifft drwy allestyn mewn canolfannau cymunedol, bod â ffocws ar helpu pobl sydd ag angen neilltuol am, ac anhawster wrth, gyrchu gwasanaethau oherwydd eu hamgylchiadau personol (megis pobl gyda phroblemau iechyd meddwl neu garcharorion) a mynd i'r afael â phatrymau problemau a wynebant.
  - Helpu i fynd i'r afael ag achosion sefydliadol o broblemau drwy ddialog, negodi a lle bo hynny'n methu, ymglyfreitha. Medrai'r mathau o sefydliadau sy'n achosi'r problemau hyn gynnwys cwmnïau cyfleustod, bancïau, landlordiaid neu asiantaethau/adrannau llywodraeth. Bydd y Canolfannau yn dynodi'r materion hyn gan ddefnyddio eu gwybodaeth leol, a medrent dargedu grwpiau cleient neilltuol drwy farchnata, a dod ag achosion prawf.
  - Helpu i hysbysu cleientiaid am eu hawliau, a darparu gwybodaeth a pheynnau hunangymorth. Cânt fel arfer eu comisiynu yn genedlaethol, a'u teilwra ar gyfer anghenion lleol.
- 7.27 Medrai'r Canolfannau hefyd ddatblygu cysylltiadau effeithlon gyda chyflenwyr gwasanaethau cyfreithiol teulu gan adeiladu ar ein dynesiad presennol at wasanaethau teulu. Byddai hyn yn galluogi asesiad cynnar o holl anghenion cleient. Gall cleientiaid gyrchu'r gwasanaethau newydd hyn un ai drwy'r Canolfannau neu'n uniongyrchol o'r rhwydwaith lleol presennol o gyfreithwyr cyfraith teulu.

- 7.28 Byddai'r Canolfannau hefyd yn gweithio'n agos gyda'r Gwasanaeth Amddiffyn Troseddol fel y byddai gan gleientiaid sy'n dod o dan y system cyfiawnder troseddol, megis y rhai mewn carchar neu'n cael eu rhyddhau o'r carchar, fynediad i wasanaethau sy'n ateb eu hanghenion cyngor cyfreithol sifil, er enghraifft drwy gyswllt fideo neu drwy allestyn.

### **Rhwydweithiau Cyfreithiol a Chynghori Cymunedol**

- 7.29 Er mai dim ond nifer fechan o Ganolfannau y cynigiwn eu peilotio, rydym eisiau defnyddio'r un dynesiad cydlynol at ardaloedd daearyddol eraill.
- 7.30 Bwriadwn felly gynnal cynllun peilot o Rhwydweithiau Cyfreithiol a Chynghori Cymunedol, yn gynnwys grp neu gonsortiw m o ddarparwyr gyda sicrwydd ansawdd sydd wedi cofrestru ar gyfer manyleb gyffredin o wasanaethau. Cynigiwn y byddai pob rhwydwaith yn mabwysiadu'r un model, ac yn cydweithio i ddarparu gwasanaeth diwniad ac integredig mewn amrediad eang o gategorïau cyfraith, yn cynnwys categorïau lles cymdeithasol. Fel y Canolfannau, medrant hefyd fynd i'r afael ag achosion sefydliadol problemau. Byddwn yn lleoli o leiaf un o'r cynlluniau peilot hyn mewn ardal lled-drefol neu wledig. Byddwn hefyd yn ystyried os byddai rhwydwaith o'r fath yn ymarferol ar sail ranbarthol i sicrhau fod gan gleientiaid fynediad i amrediad eang o wasanaethau.
- 7.31 Medrai'r rhwydweithiau gael eu rhedeg drwy gyflenwr arweiniol, a fyddai wedyn yn contractio gyda chyflenwr eraill. Felly byddai'r prif gysylltiad gyda'r LSC drwy'r cyflenwr arweiniol hwnnw, a fyddai'n gostwng costau trafodion ar bob ochr ac yn caniatáu dirprwyo rhai o swyddogaethau'r LSC i'r cyflenwr arweiniol fel y bydd y model Cyflenwr Ffaffriedig yn datblygu.
- 7.32 Wrth ddatblygu'r Canolfannau a rhwydweithiau byddwn yn adeiladu ar brofiadau'r gwasanaethau hynny sydd eisoes yn mabwysiadu dynesiad cydlynol at gyflenwi gwasanaethau cyfreithol a chynghori. Mae enghreifftiau'n cynnwys cynlluniau meddiant tai, prosiectau a gyllidwr drwy'r Gyllideb Menter Partneriaeth a chynlluniau cyfreithiwr dyletswydd yr LSC ar gyfer gweithdrefnau lloches cyflymach.

### **Mynediad i gyngor arbenigol ar gyfraith lles cymdeithasol**

- 7.33 Dylai gwasanaeth cyfraith lles cymdeithasol gwirioneddol cynhwysfawr fod ar gael i ateb holl anghenion cleientiaid mewn meysydd megis budd-daliadau, dyled, tai, addysg, cyflogaeth, gofal cymunedol ac iechyd meddwl, lle bynnag y maent yn byw. Y tu allan i'r ardaloedd peilot ar gyfer Canolfannau Cyfreithiol a Chynghori Cymunedol a Rhwydweithiau Cyfreithol a Chynghori Cymunedol, datblygir y sylfaen cyflenwr cyfredol o gwmnïau cyfreithol ac asiantaethau cyngor i adeiladu ar arfer gorau mewn cyfraith lles cymdeithasol. Bydd hyn yn cynnwys tybiaeth gynyddol o blaid darparwyr sy'n cyflenwi gwasanaethau mewn *saw* maes o gyfraith lles cymdeithasol (yn hytrach na thalu am wasanaethau gan ddarparwyr niferus sydd ond efallai yn cynnig un neu ddau). Bydd hefyd dybiaeth gynyddol o blaid darparwyr gwasanaethau ar draws ardaloedd daearyddol ehangach.
- 7.34 Byddwn felly yn ymchwilio ffyrdd y medrwn ei gwneud yn haws i ddarparwyr da gynnig amrediad ehangach o wasanaethau. Gall asiantaethau sy'n arbenigo mewn gwasanaethau cyfreithol lechyd Meddwl, er enghraifft, roi mynediad i gyngor lles cymdeithasol. Amlinellwn islaw'r camau a gymerwn i sicrhau fod gwasanaethau cyfreithiol a chynghori wedi eu trefnu'n well i ateb anghenion cleientiaid (gweler Atodiad Un).

### **Mynediad i gyngor arbenigol arall**

- 7.35 Yr ydym yn cydnabod mewn meysydd o gyfraith megis esgeulustod clinigol a meddygol, iechyd meddwl, lloches, trafodion yn erbyn yr heddlu (ac efallai hefyd mewn rhai categorïau lles cymdeithasol megis addysg a gofal cymunedol) y gall fod angen dynesiad rhanbarthol. Byddwn yn anelu i gomisiynu darparwyr a all gyflenwi gwasanaethau ar draws ardaloedd daearyddol ehangach, gan gweithio gyda Chanolfannau, Rhwydweithiau a chyflenwyr LSC eraill i ateb anghenion lleol.
- 7.36 Ein dynesiad fydd adeiladu ar y 'New Focus for Civil Legal Aid' a gyhoeddwyd yn ddiweddar.

### **Gweithredu strategol i fynd i'r afael â'r angen am gyngor**

- 7.37 Gweithredoedd unigol o gyngor a chymorth yw'r brif ffordd y medrwn gyflawni datrysiadau i broblemau cyfreithiol cleientiaid a mynd i'r afael â'r tlodi, gwahaniaethu ac anfantais sy'n wynebu llawer o bobl; felly byddant bob amser yn parhau yn waith craidd y CLS. Mae'n anodd gorbwysleisio effaith achub cartref teulu rhag ailfeddiant neu gael lloches ar gyfer rhywun sy'n ffoi rhag artaith.
- 7.38 Fodd bynnag, mae darparwyr gwasanaeth cyfreithiol a chynghori yn gweld yr un mathau o broblem dro ar ôl tro, pan fo gwasanaethau cyhoeddus wedi methu ateb eu dyletswyddau statudol neu pan fo cwmnïau masnachol wedi camarwain neu ecsbloetio eu cwsmeriaid. Gyda safbwynt unigryw ar batrwm y problemau sy'n wynebu pobl, a'r posibilïadau y mae'r system gyfreithiol yn eu darparu ar gyfer eu datrys, gall y Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol gyfrannu at ddialog rhwng defnyddwyr a darparwyr gwasanaeth. Mae hyn yn cynnig dynesiad strategol a chost-effeithlon at wella gwasanaethau (ac felly atal problemau traddodadwy). Mae gan ddatgelu methiannau mewn gwasanaethau cyhoeddus ac arddangos ymddygiad anghyfreithlon y potensial i annog darparwyr gwasanaethau o'r fath i gyflawni eu hobyliadau.
- 7.39 Mae'n rhaid i'r CLS fod â rôl wrth fynd i'r afael â'r materion hyn ar lefel strategol yn ogystal â sicrhau bod unigolion yn cael yr holl help y maent ei angen. Wrth fynd i'r afael â phrif yrwyr y problemau sy'n wynebu pobl, gall y CLS gael mwy o effaith a sicrhau newid pellgyrhaeddol a fydd o fudd i lawer.
- 7.40 Mater allweddol i ni wrth ddatblygu'r dynesiadau hyn fydd dynodi pa ran o'r CLS ddylai gymryd y blaen; er enghraifft byddwn yn ystyried os mai'r LSC, grwpiau traws-gyllidwyr neu ddarparwyr gwasanaeth cyfreithiol a chynghori fyddai'r gorau i fynd â hyn ymlaen.

### **Adeiladu perthynas gyda gwasanaethau cyhoeddus**

- 7.41 Bu buddsoddiad sylweddol mewn gwasanaethau cyhoeddus mewn blynyddoedd diweddar. Mae llywodraeth ganolog a llywodraeth gyda'i gilydd wedi datblygu blaenoriaethau a rennir ar gyfer gwella gwasanaethau cyhoeddus, ac mae ymrwymiad i welliant parhaol o fewn y sector. Fodd bynnag mae angen ffocws arbennig er mwyn sicrhau fod gwasanaethau yn gwella ar gyfer y mwyaf difreintiedig ac nid dim ond y defnyddiwr cyfartalog. Mae'r CLS yn rhannu cleientiaid gyda'r gwasanaethau eraill hyn ac mae ganddo amcanion ategol eraill. Drwy gydweithio gyda darparwyr gwasanaeth medrwn roi adborth iddynt am broblemau ein cleientiaid, yn arbennig lle na fedrant hwy eu hunain roi hyn.

- 7.42 "Although some groups of people are consistently being helped less than others, some individuals appear more difficult for public services to help because of the specificity and severity of their multiple disadvantages. If policy continues to improve things for those easier to help, there is a danger that we will reduce the overall risk of social exclusion but that the groups most in need may be relatively further behind. This suggests that we may need to re-focus effort and targets on those at the lowest end of the distribution of income, skill and health resources. This challenge will be about policy design but also, crucially, about service delivery." (Breaking The Cycle, Uned Allgau Cymdeithasol (2004), t.111).
- 7.43 Gall y CLS roi llais i bobl a gafodd eu hallgau ac sy'n delio gyda phroblemau sy'n ganlyniad uniongyrchol gwendidau rhai gwasanaethau cyhoeddus. Caiff y dynesiad hwn ei gydnabod yn gynyddol yng ngwaith Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog (a'i Unedau Allgau Cymdeithasol ac Adnewyddu Cymdogaeth), y Swyddfa Gartref a'r Adran Gwaith a Phensiynau, adrannau eraill y llywodraeth ac awdurdodau lleol sy'n dynodi rôl dinasyddion a chymunedau wrth wella gwasanaethau cyhoeddus. Yn neilltuol mae gwaith 'gweledigaeth leol' Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog o berthnasedd uniongyrchol, ond mae angen sefydlu rôl y CLS yn y gwaith hwn yn gliriach.
- 7.44 Drwy'r CLS, byddwn yn anelu i hyrwyddo datrysiadau strategol i broblemau sy'n wynebu defnyddwyr gwasanaeth a darparwyr gwasanaeth. Mae cydweithio i ddynodi'r problemau a hefyd y datrysiadau posibl, drwy ddatrys problemau ar lefel strategol, yn cynnig gwell gwasanaethau a gwell gwerth am arian.
- 7.45 Mae eisoes lawer o ffyrdd y gall ac y mae grwpiau yn defnyddio'r gyfraith i sicrhau eu cydamcanion. Medrai, er enghraifft, fod tenantiaid ar stad tai yn cydweithio fel grp i orfodi landlord i wneud gwaith atgyweirio. Medrai'r CLS ddysgu o'r cynlluniau hyn a hwyluso ymatebion grp i broblemau torfol.
- 7.46 Dim ond drwy adeiladu cysylltiadau strategol gyda darparwyr gwasanaeth, yn genedlaethol ac yn lleol, y byddwn yn cyflenwi'r amcanion hyn. Byddwn yn gweithio gyda'r Adran Materion Cyfansoddiadol, yn arbennig gyda'i Strategaeth Addysg, Gwybodaeth a Chynghori, i gyflenwi hyn.
- 7.47 Bydd ein ffocws ar dri phrif faes gweithgaredd:
- Codi ymwybyddiaeth o'r mathau o broblemau y medrir eu helpu gan bobl yn cydweithio mewn grp, drwy gyhoeddiadau ac ymrwymo gyda'r llywodraeth a chymunedau lleol. Ein bwriad yw gostwng yr angen am ailadrodd gweithredoedd o gyngor a chymorth ac felly gael effaith fwy ar gleientiaid gyda'r adnoddau sydd gennym ar gael.
  - Negodi: ymrwymo gyda darparwyr gwasanaeth ar lefel uwch mewn modd adeiladol a chadarnhaol i amlgu problemau ac awgrymu datrysiadau.
  - Cyllido ymgyfreitha lle mae dynesiadau eraill yn methu. Bydd hyn yn cynnwys dynodi a dod ag achosion prawf, ac weithiau gyllido gweithredu gan grwpiau o gleientiaid.

### **Gwybodaeth am hawliau a chyfrifoldebau cyfreithol**

- 7.48 Mae diwylliant seiliedig ar hawliau - lle mae gan bobl ymwybyddiaeth dda o'u hawliau a sut i'w gweithredu - yn helpu dinasyddion i fod â rôl weithgar mewn cymdeithas deg. Mae Arolwg Cenedlaethol y Comisiwn Ymchwil Gwasanaethau Cyfreithiol o Broblemau Traddodadwy yn dangos fod cleientiaid sy'n medru delio gyda phroblemau a wynebant heb orfod gofyn am gyngor a help pellach yn teimlo eu bod wedi eu grymuso. Mae hyn yn cysylltu'n uniongyrchol gydag agenda ehangach y llywodraeth o adeiladu ymddiriedaeth mewn gwasanaethau cyhoeddus a datblygu dinasyddiaeth.
- 7.49 Mae gan yr LSC ddyletswydd statudol i hyrwyddo gwybodaeth gyfreithiol sy'n galluogi pobl i wybod ac ymarfer eu hawliau; bydd y CLS yn gweithio i sicrhau fod pobl yn deall eu perthynas gyda'r

wladwriaeth a gwahaniaethau cyhoeddus, a'r fframwaith o ddisgwyliadau a goblygiadau ar y ddwy ochr sy'n sail i hynny. Nid ydym yn anelu i annog ymglyfreitha diangen; rydym eisiau i bobl ddeall sut y dylent ddefnyddio'r gyfraith a phryd nad yw'n briodol gwneud hynny. Fodd bynnag, dengys ymchwil fod gwybodaeth ar gael ond bod mynediad a chyflwyniad yn ddigynllun oherwydd diffyg safonau a chysondeb. Gall cymhlethdod y sector gwybodaeth a chynghor a'r problemau amrywiol sy'n wynebu defnyddwyr, ynghyd â'r nifer o ffynonellau gwybodaeth, wneud i ddefnyddwyr deimlo na fedrant gael yr wybodaeth y maent ei hangen.

- 7.50 Mae traddodiad hir o wasanaethau cyfreithol a chynghori yn darparu gwybodaeth, ac nid ydym yn anelu i gynyddu faint o wybodaeth a ddarperir. Yn hytrach, anelwn hyrwyddo ffynonellau dibynadwy ac felly helpu cleientiaid i ganfod eu ffordd drwy'r wybodaeth a'r cynghor sydd ar gael. Caiff y gwaith hwn ei gyflenwi'n bennaf drwy weithio gydag eraill, yn arbennig yr Adran Materion Cyfansoddiadol a'i Strategaeth Addysg, Gwybodaeth a Chynghor.
- 7.51 Byddwn yn gweithio gyda'r Adran Materion Cyfansoddiadol i ddylanwadu yn uniongyrchol ar ddarparwyr gwasanaeth fel y medrant ddarparu'r wybodaeth a chynghor cywir am eu gwasanaethau a delio'n effeithlon gyda chwynion ac anghydfod. Yn ei dro dylai hyn arwain at lai o alw am rai mathau o gynghor annibynnol.
- 7.52 Mae'n gwefan, [www.clsdirect.org.uk](http://www.clsdirect.org.uk), eisoes wedi gwneud cynnydd wrth helpu pobl i ganfod gwybodaeth ddibynadwy o amrediad eang o ffynonellau. Mae gan strategaeth pum-mlynedd yr Adran Materion Cyfansoddiadol ffocws clir ar ddefnyddwyr bregus a byddwn yn gweithio gyda'r Adran i ddynodi gwahanol anghenion pobl ifanc, pobl hn, grwpiau BME, rhai gyda phroblemau iechyd meddwl ac eraill. Anelwn sicrhau, lle bynnag y bo'n briodol, fod gan bobl y grym i ddelio gyda'r problemau a wynebant heb yr angen am gynghor neu gyfreitha.

## Cwestiynau

- C.8** Ydych chi'n cytuno gyda'r tri maes gwaith blaenoriaeth ar gyfer y CLS a amlinellir ym mharagraff 7.1? Os na, beth ddylai'r meysydd gwaith blaenoriaeth fod?
- C.9** Ydych chi'n cytuno gyda'n cynnig i ehangu ein gwasanaeth ffôn? A yw'n hi'n iawn i wneud lefel sylfaenol o wasanaeth (megis gwybodaeth ar hawliau cyfreithiol a pheccynau hunangymorth) ar gael i bawb faint bynnag o fodd sydd ganddynt? (gweler paragraffau 7.12-7.17)
- C.10** Ydych chi'n cytuno y dylem dros gyfnod ddatblygu'r crynhoad mwyaf o wasanaethau wyneb-i-wyneb yn y cymunedau mwyaf difreintiedig? (gweler paragraffau 7.18 – 7.21)
- C.11** Ydych chi'n cytuno gyda'r cynigion i beilotio Canolfannau Cyfreithiol a Chynghor Cyfreithiol a Rhwydweithiau Cyfreithiol a Chynghori Cymunedol fel a amlinellwyd ym mharagraffau 7.22 - 7.32? Ydych chi'n cytuno gyda'u cylch gorchwyl arfaethedig a'r disgrifiadau eang o'r gwasanaethau a ddarparant?
- C.12** Ydych chi'n cytuno y dylai fod tybiaeth gynyddol o blaid gwasanaethau sy'n gweithio mewn sawl maes o gyfraith lles cymdeithasol? (gweler paragraffau 7.33 a 7.34)
- C.13** Ydych chi'n cytuno y dylai'r CLS roi mwy o adnoddau i gymryd camau gweithredu strategol? Pa ddynesiadau eraill fedrid eu cynnal tu hwnt i'r rhai a amlinellir ym mharagraffau 7.37 – 7.47?
- C.14** Ym mha ffyrdd eraill y gall y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol hyrwyddo gwybodaeth am hawliau a chyfrifoldebau cyfreithiol? (gweler paragraffau 7.48 - 7.52)



## 8. Dynesiad unedig at wasanaethau cymorth cyfreithiol

8.1 Wrth ddatblygu ein strategaeth i gyflenwi gwasanaeth cyfreithiol ar draws y Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol, byddwn yn parhau i wneud y cysylltiadau polisi a chyflenwi rhwng meysydd cyfraith lles cymdeithasol y CLS a drafodir uchod, Gwasanaethau Plant a Theulu o fewn y CLS a'r Gwasanaeth Amddiffyn Troseddol (CDS). Mae gwasanaethau cyfraith teulu yn rhan greiddiol o'r CLS ac yn ffurfio, mewn termau ariannol, y rhan fwyaf o'r gwasanaethau sifil a gyllidir gan yr LSC. Oherwydd hyn, mae'n haeddu ei bapur strategaeth ei hun a byddwn yn cyhoeddi papur strategaeth ar wahân ar y pwnc hwn yn ddiweddarach yn 2005. Yn yr un modd, er bod y CDS ar wahân i'r CLS, mae'n rhaid i ni barhau i gydnabod y cysylltiadau a'r rhyngweithio rhwng y gwasanaethau. Er y cyhoeddir y papurau strategaeth ar gyfer y gwasanaethau hyn ar wahân, bydd y tri yn cysylltu i ffurfio dynesiad cynhwysfawr.

### Gwasanaethau Plant a Theulu

8.2 Mae'r system cyfiawnder Teulu yn cael ei diwygio'n sylweddol ar hyn o bryd. Fel pwrcasydd sengl mwyaf gwasanaethau cyfreithiol mewn achosion cyfraith preifat a hefyd gyfraith gyhoeddus teulu, mae gan yr LSC rôl bwysig yn y diwygio hwnnw nid yn unig o safbwynt cyllidwr gwasanaeth ond hefyd o safbwynt angen defnyddwyr a gwell canlyniadau, yn arbennig i blant. Mae hyn yn golygu gweithio gydag adrannau llywodraeth sy'n darparu gwasanaethau addysg gynnar ac yn dilyn trafodion i'r cwsmeriaid hyn.

8.3 Mae'r cysylltiad rhwng gwybodaeth gyfreithiol, cyngor a chynrychiolaeth cyfraith teulu a chyfraith lles cymdeithasol yn hollbwysig. Dengys tystiolaeth fod problemau chwalfa deuluol yn gymesur yn fwy tebygol o achosi problemau traddodadwy eraill (gweler er enghraifft, *Causes of Action* a *'One Parent Families' Lone Parent Research 2004*).

8.4 Mater allweddol felly yw sut y cyflenwn wasanaethau gwybodaeth, cyngor a chynrychiolaeth lles cymdeithasol i gleientiaid sydd â phroblemau teulu yn bennaf. Rydym eisoes wedi dechrau datblygu ac ymchwilio dynesiad at hyn drwy'n cynllun FAInS (gwasanaeth cyngor a gwybodaeth teulu). Yn ogystal â bod â ffocws ar arfer gorau mewn darpariaeth cyngor cyfraith teulu, mae FAInS yn anelu i ddodi ein gwasanaethau cyngor cyfraith teulu a gyllidir yn uniongyrchol o fewn rhwydwaith o ddarpariaeth cyngor arall, yn cynnwys darparwyr cyfraith lles cymdeithasol, tra hefyd yn ymchwilio dulliau i fynd i'r afael â materion teulu y tu allan i drafodion llyso.

8.5 Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid o fewn llywodraeth ganolog, yn neilltuol yr Adran Materion Cyfansoddiadol a'r Adran Addysg a Sgiliau, i adeiladu ar ein gwaith presennol, yn cynnwys FAInS, i sicrhau fod gwasanaethau teulu CLS yn datblygu mewn ffordd fwy integredig ac effeithiol. Yn neilltuol credwn fod yn rhaid diwygio'r broses gyfredol wrthwynebol, yn aml yn seiliedig mewn llyso, ar gyfer datrys achosion plant cyfraith gyhoeddus.

8.6 Bydd angen i ddatblygiad gwasanaethau cyfreithiol a chynghori Teulu yn y dyfodol ategu'n effeithlon wasanaethau cyfreithiol a chynghori eraill yn cynnwys, fel a phryd y cânt eu datblygu, Ganolfannau Cyfreithiol a Chynghori Cymunedol a Rhwydweithiau Cyfreithiol a Chynghori Cymunedol.

8.7 Wrth i ni fynd â'r gwaith hwn rhagddo, mae'n bwysig cofio fod llawer o gyfreithwyr ac asiantaethau cynghori yn rhoi cymorth ar gyfraith lles cymdeithasol a hefyd gyfraith teulu. Mae bron 70% o'r swyddfydd cyfreithwyr hynny sydd â chontractau cymorth cyfreithiol mewn cyfraith teulu hefyd â chontractau mewn o leiaf un categori lles cymdeithasol (er y gostyngodd hyn o 96% yn 2001). Medrai fod risg wrth symud tuag at wasanaethau mwy integredig o fewn cyfraith lles cymdeithasol a hefyd gyfraith teulu, ein bod yn gwaethygu un o'r problemau yr ydym yn ceisio ei datrys, sef yr anghenion sydd gan gleientiaid sydd yn mynd drwy chwalfa teulu a pherthynas am gyngor

cyfreithiol ar faterion lles cymdeithasol. Rydym yn benderfynol i reoli'r risg hwn mewn ffordd sy'n sicrhau gwasanaethau cydlynol effeithlon y mae cleientiaid eu hangen.

8.8 Er mwyn gwneud yn sir fod gwasanaethau teulu a lles cymdeithasol yn gydlynol, ymchwiliir yr opsiynau dilynol:

- Creu cysylltiadau agos rhwng Canolfannau Cyngor Cyfreithiol Cymunedol a chyflenwyr teulu; er enghraifft, medrai staff Canolfan ddarparu gwasanaethau allestyn yn swyddfa'r cyflenwr teulu neu vice versa.
- Peilotio darpariaeth cyngor teulu yn uniongyrchol gan Ganolfannau Cyngor Cyfreithiol Cymunedol fel rhan o'r patrwm o gyflenwad teulu yn yr ardal. Medrai hyn gynnwys Canolfan Cyngor Cyfreithiol Cymunedol gyda Chanolfan Teulu sail eang.
- Ymrwymo cyflenwyr teulu fel rhan o'r Rhwydweithiau Cyngor Cyfreithiol Cymunedol peilot.
- Annog ymestyn arbenigedd cyfraith lles cymdeithasol ymysg cyflenwyr teulu drwy ddefnyddio categorïau lles cymdeithasol newydd a mwy hyblyg a sicrhau y cedwir ansawdd cyngor i gleientiaid.
- Parhau i adeiladu a datblygu model FAInS i sicrhau diagnosis ac atgyfeirio effeithlon i broblemau ehangach.

### Y Gwasanaeth Amddiffyn Troseddol (CDS)

8.9 Pwrpas y Gwasanaeth Amddiffyn Troseddol (CDS) yw sicrhau fod gan unigolion dan ymchwiliad am drosedd neu sydd wedi eu cyhuddo yn cael mynediad i'r cyngor, cymorth a chynrychiolaeth gyfreithiol briodol, fel a fynnir gan ddiddordebau cyfiawnder.

8.10 Mae cysylltiad clir rhwng troseddau ac anfantais cymdeithasol cymharol, er i nad dyma unig yrrwr troseddu. Caiff rhai o effaith anfantais gymdeithasol ei arddangos yn y boblogaeth garchar o gymharu gyda'r boblogaeth gyffredinol. Canfu'r Uned Allgau Cymdeithasol o gymharu gyda'r boblogaeth gyffredinol, fod carcharorion deirgwaith ar ddeg yn fwy tebygol o fod wedi bod mewn gofal fel plentyn, deirgwaith ar ddeg yn fwy tebygol o fod wedi bod yn ddi-waith a thri deg pum gwaith yn fwy tebygol o fod wedi bod yn ddi-gartref (*'Reducing re-offending by ex prisoners'* Gorffennaf 2002).

8.11 Mae gorgyffwrdd mawr rhwng cyflenwyr CDS a chyflenwyr cyfraith lles cymdeithasol a theulu (mae gan 60% o gyflenwyr CDS hefyd gontract CLS). Felly, byddwn yn parhau i weithio i sicrhau y gwneir y cysylltiadau priodol rhwng y CDLS a CLS i sicrhau fod gan gleientiaid fynediad i'r amrediad o help cyfreithiol y maent angen i fynd i'r afael â'u problemau.

### Cwestiynau

**C.15** A ydym wedi dynodi'r materion allweddol wrth ddatblygu'r cysylltiadau priodol rhwng meysydd lles cymdeithasol y CLS, Gwasanaethau Plant a Theulu a'r Gwasanaeth Amddiffyn Troseddol? (gweler paragraffau 8.1 - 8.11). Pa gamau eraill fedrid eu cymryd i hwyluso'r cysylltiadau hyn?

Atodiadou



## Atodiad Un: Y Camau Nesaf – papurau polisi'r Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol

### 1. Amserlen

Strategaeth ddrafft yw hon. Byddwn yn cyhoeddi strategaeth pum-mllynedd derfynol yng Ngaeaf 2005/06. Byddwn hefyd yn cyhoeddi cyfres o bapurau polisi yn ystod 2005 a thu hwnt, gan nodi yn fanylach ein cynlluniau ar gyfer mynd â gwahanol elfennau o'n strategaeth ymlaen. Bydd y papurau hyn yn cynnwys amserlenni mwy manwl ond disgwyliwn ddechrau cynnal cynllun peilot ar rai o elfennau'r rhaglen waith yn 2005/06 gyda golwg ar symud yn esblygol tuag at gyflawni'r weledigaeth strategol hon dros y pedair blynedd ddilynol.

Rhoddir rhestr o bapurau polisi allweddol islaw ynghyd ag amlinelliad o'r materion a gaiff eu trafod. Ychwanegir at y rhestr hon wrth i'r strategaeth barhau i ddatblygu. Ni fydd papurau polisi ar wahân ar ail a thrydydd maes ein gwaith craidd, sef gweithredu a gwybodaeth strategol am hawliau. Eir â'r meysydd hyn rhagdynt fel rhan o'n rhaglen waith barhaol.

Byddwn yn ymgynghori ar wahân ar ein strategaeth ar gyfer gwasanaethau cyfreithiol a chynghori plant a theuluoedd.

### 2. Gwasanaeth Ffôn Galw Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol

Byddwn yn parhau ehangiad y gwasanaeth ffôn Galw Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol. Bydd yn darparu:

- cyngor mewn categorïau lles cymdeithasol;
- peth cyngor i bawb, beth bynnag eu modd;
- gwaith achos i bobl sy'n gymwys am gymorth cyfreithiol; ac
- atgyfeirio effeithlon drwy apwyntiadau gyda chynghorwyr a enwyd.

Bydd hefyd yn helpu i lenwi'r bylchau mewn ardaloedd lle mae'r cyngor wyneb-i-wyneb sydd ar gael yn gyfyngedig.

### 3. Strategaeth comisiynu

Byddwn yn nodi egwyddorion sut y bwriadwn fynd â'n gwaith gyda'n cyflenwyr rhagddo, yn cynnwys cynigion i gyflunio diwedd y contractau di-elw gyda diwedd y contractau cyfreithwyr presennol. Byddwn yn ailgynllunio ac yn cydgorio contractau di-elw a chyfreithwyr i redeg o 2007, a byddwn hefyd yn ystyried y dull mwyaf addas ar gyfer gosod y contractau hynny.

Yn 2004 fe wnaethom gynnal cynllun peilot o drefniadau newydd ar gyfer gweithio gyda Chyflenwyr Ffaffriedig a chaiff canlyniad y peilot hwn ei werthuso ar hyn o bryd.

### 4. Canolfannau Cyfreithiol a Chynghori Cymunedol

Byddwn yn rhoi manylion ein cynllun peilot ar gyfer nifer o Ganolfannau Cyfreithiol a Chynghori Cymunedol. Byddant yn gweithredu o un safle canolog a medrant fod â swyddfeydd lloeren. Bydd y Canolfannau mewn ardaloedd lle mae difreintiad cymdeithasol uchel, ac maent yn debygol o fod o fewn ardaloedd adfywio cymdogaeth. Yn seiliedig ar isafswm manyleb gwasanaeth, gall darparwyr gwasanaethau cyfreithiol a chynghori gynnig cyflenwi gwasanaethau, un ai ar ben eu hunain neu mewn consortia.

Rhagwelwn y bydd y Canolfannau hyn yn:

- cyfuno cyllid gan yr LSC, awdurdodau lleol a budd-ddeiliaid allweddol eraill;
- darparu amrediad llawn o wasanaethau, o gyngor cyfreithiol sylfaenol i gynrychiolaeth mewn llys (yn cynnwys ar gyfer materion ymgyfreitha cymhleth);
- fel isafswm, cynnig gwasanaethau mewn Dyled, Tai, Budd-daliadau Lles, Gofal Cymunedol a Chyflogaeth;
- profi ymarferoldeb cynnwys meysydd eraill, megis cyfraith Teulu neu Iechyd Meddwl;
- darparu gwasanaeth all-estyn wedi ei dargedu mewn lleoliadau sydd eisoes yn gyfarwydd i ddefnyddwyr;
- anelu i wasanaethu'r holl gymuned o fewn yr adnoddau sydd ar gael a chydbwysu'r angen i sicrhau gwasanaeth ansawdd uchel gyda'r nod o gynorthwyo nifer y bobl a gaiff eu helpu;
- cynnal cynllun peilot o rai gwasanaethau megis cyngor ar fudd-daliadau lles neu ddigartrefedd ar sail heb unrhyw brawf modd;
- helpu i fynd i'r afael ag achosion sefydliadol problemau drwy negodi a dialog gyda (a lle mae hyn yn methu, ymgyfreitha yn erbyn) sefydliadau eraill sy'n achosi rhai o'r problemau ar gyfer cleientiaid; a
- darparu gwybodaeth gyfreithiol i gymunedau lleol.

#### 4. Rhwydweithiau Cyfreithiol a Chynghori Cymunedol

Yr ydym yn cydnabod efallai na fydd yn addas nac yn bosibl i ddatblygu gwasanaeth sengl mewn rhai lleoedd. Mae rhai rhwydweithiau effeithiol iawn o ddarparwyr cyfreithiol a chynghori ar gael eisoes, ond mewn llawer o leoedd nid yw'r cysylltiadau rhwng cyflenwyr cyffredinol ac arbenigol, a rhwng gwahanol gyflenwyr arbenigol, yn cyflenwi gwasanaethau diwniad.

Byddwn felly yn cynnal cynlluniau peilot o Rwydweithiau Cyfreithiol a Chynghori Cymunedol. Bydd y rhain yn wahanol i'r Partneriaethau Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol ac yn cynnwys nifer fach o ddarparwyr lleol, efallai'n gweithio fel consortiwm, gyda chontract ar y cyd i gyflenwi gwasanaethau tebyg i'r rhai a ddarperir gan y Canolfannau Cyfreithiol a Chynghori Cymunedol. Byddwn yn gweithio gyda chyllidwyr a budd-ddeiliaid eraill i benderfynu ar y ffordd orau i ddatblygu a chyflenwi gwasanaeth gyda ffocws cleient.

#### 5. Partneriaethau Gwasanaeth Cyfreithol Cymunedol a llywodraethu lleol y CLS

Byddwn yn cyhoeddi papur polisi yn cynnwys opsiynau ar gyfer llywodraethu lleol ac ymgyfraniad yn y CLS. Disgwylwn gynnig fod unrhyw newidiadau yn digwydd mewn dull esblygol, gan adeiladu ar gynnydd y Partneriaethau a dysgu o bartneriaethau lleol eraill.

Anelwn sicrhau nad yw'r trefniadau llywodraeth leol yn sefyll ar ben eu hunain, ond yn ffitio i fframwaith gwneud penderfyniadau presennol yr ardal. Medrai bwrdd strategol lleol yn gweithredu fel is-grp o'r Bartneriaeth Strategol Leol fod yn un opsiwn ar gyfer llywodraethu yn y dyfodol.

## 6. Ymestyn y sylfaen tystiolaeth ar gyfer y Gwasanaeth Cyfreithol Cymunedol

Bydd y papur hwn yn cwmpasu'r amrediad o ffyrdd y mae'r Comisiwn yn gweithio gydag eraill i wella ein gwybodaeth o'r Gwasanaeth Cyfreithol Cymunedol ac effaith cyngor cyfreithiol ar gleientiaid.

Byddwn yn edrych ar ffyrdd o wella'r broses bresennol o asesu'r angen am gyngor cyfreithiol. Byddwn hefyd yn ystyried sut y medrai'r LSC gefnogi'r asesiad angen ar lefel leol drwy ddata ac ymchwil a ddarperir yn ganolog. Y nod yw creu gwell llif o wybodaeth i gynorthwyo asesu anghenion lleol a dylunio gwasanaethau lleol i ateb yr anghenion hyn.

Byddwn hefyd yn edrych ar wahanol ffyrdd o sicrhau y gall grwpiau anodd eu cyrraedd gyrchu'r cyngor y maent ei angen, gan ddysgu o'r amrediad o brosiectau blaengar sy'n bodoli a hefyd grwpiau cynrychioli cleientiaid. Byddwn yn adeiladu ar waith yr Adran Materion Cyfansoddiadol ar anghenion grwpiau agored i niwed.

## 7. Ansawdd Cyngor a Chanlyniadau

Mae'n ofynnol i bob darparwydd sy'n dymuno cael eu cydnabod fel aelodau o'r CLS gyrraedd y safon Nod Ansawdd, ac mae angen i ddarparwyr sy'n dymuno cyflenwi gwasanaethau a gyllidir drwy wasanaethau cymorth cyfreithiol ennill y dyfarniad ar lefel Arbenigol. Er bod pob math o Nod Ansawdd yn cynnwys gofynion dirprwy ar gyfer ansawdd cyngor a chymhwysedd cynghorwyr, nid yw'r dirprwyon hyn o'u hanfod yn mesur yn uniongyrchol ansawdd y cyngor. Yn ystod 2005/2006 byddwn yn datblygu ac yn ymgynghori ar sawl proses newydd a fydd yn mesur yn fwy cywir ansawdd y cyngor a hefyd yn asesu'r canlyniadau y mae cynghorwyr yn eu cyflawni ar gyfer eu cleientiaid. Bydd hwn yn gam sylweddol ymlaen wrth sicrhau fod cleientiaid a chyllidwyr yn derbyn gwasanaethau gwerth am arian. Mae'r datblygiadau hyn yn cynnwys:

- Adolygiad cymheiriaid - asesiad annibynnol, gan ymarferydd gyda chymwysterau addas, o waith cyfreithiol a chynghori. Cydnabyddir y broses hon yn gyffredinol fel dyfais effeithlon ar gyfer asesu.
- Proffiliau Ansawdd – methodoleg asesu risg sy'n defnyddio amrediad eang o ddata presennol ar berfformiad cyflenwyr ac yn cynnwys canlyniadau achos (disgrifiad o gasgliad achos cyfreithiol).
- Asesiad Ffeil – dadansoddiad o ansawdd cyngor, a gynlluniwyd i ddynodi meysydd gwelliant.

Bydd y prosesau hyn yn sail i'r strategaeth gontractio a dynodi cyflenwyr gyda pherfformiad uchel.

## 8. Gwasanaethau Tribiwnlys

Bydd y papur hwn yn esbonio ein dynesiad at yr heriau a'r cyfleoedd a godir gan uniad y Gwasanaethau Tribiwnlys dan yr Adran Materion Cyfansoddiadol, yn dilyn y Papur Gwyn Tribiwnlysoedd.

Nod ein cynigion fydd gwella cyngor, gwybodaeth a chymorth i bobl yn apelio yn erbyn penderfyniadau tribiwnlysoedd a rhai'n ystyried mynd i dribiwnlys, er mwyn sicrhau'r canlyniad gorau ar y cam cynharaf.

Byddwn yn:

- datblygu cynigion i wella cyngor a gwybodaeth i bobl heb gynrychiolaeth sy'n apelio yn erbyn penderfyniadau;

- codi ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau sydd ar gael drwy Galw Gwasanaethau Cyfreithiol Cymunedol i'r rhai'n ystyried apelio; a
- gweithio i sicrhau lle caiff cynrychiolaeth ei gyllido gan gymorth cyfreithiol neu ffynhonnellau eraill fod ganddo sicrwydd ansawdd ac yn addas.

## 9. Datrys Anghydfod Amgen

Byddwn yn gweithio gyda'r Adran Materion Cyfansoddiadol i ddatblygu rôl Datblygu Anghydfod Amgen (DAA) o fewn y CLS, fel rhan o'u strategaeth pum-mlynedd. Bydd hyn yn cynnwys edrych ar ffyrdd o annog cyfryngu mewn achosion tai heblaw rhai teulu. Byddwn yn archwilio ffyrdd o ddatblygu'r defnydd o DAA yng nghyd-destun tribiwnlysoedd.

## 10. Categoriâu Nod Ansawdd Arbenigol Lles Cymdeithasol

Byddwn yn ymgynghori ar ddiwygio'r categorïau Nod Ansawdd Arbenigol er mwyn cynyddu mynediad i wasanaethau cyfraith lles cymdeithasol integredig, gwella sut y deliwn gyda chlystyrau problem a gostwng yr angen am atgyfeirio.

Gall opsiynau gynnwys:

- un categori Cyngor Arian, yn cyfuno Dyled a Budd-daliadau Lles;
- un categori Lles Cymdeithasol, yn cynnwys elfennau Cyngor Arian, Tai, Cyflogaeth a Gofal Cymunedol; a
- categori cyfun Cyngor Arian a Thai.

Byddem yn disgwyl i'r categorïau newydd fod ar gael wrth ochr y categorïau presennol. Ni ddisgwylid i ddarparwyr sydd eisoes yn cynnwys categorïau lles cymdeithasol i'w hamnewid, er y byddem yn annog pob cyflenwr i gydnabod datblygiadau newydd mewn arfer gorau er mwyn ateb anghenion cleientiaid yn well.

Bydd manteision gwirioneddol i gleientiaid os yw darparwyr yn ehangu eu gwybodaeth tu hwnt i arbenigedd cyfredol er mwyn darparu gwasanaeth mwy integredig. Bydd hyn yn golygu, er enghraifft, pan fo cleient gyda phroblem dyled yn ymweld â chynghorydd, y medrant ddatrys materion budd-dal lles cleient a materion eraill cysylltiedig. Bydd cynghorwyr yn dal i fod yn arbenigwyr a byddwn yn defnyddio dulliau megis adolygiad cymheiriaid i wirio fod ansawdd yn cael ei gynnal.

## 11. Trafodion yn erbyn yr Heddlu ac ati

Mae gan yr achosion hyn bwysigrwydd cyfansoddiadol neilltuol fel categori o gyfraith. Mae mynediad i'r llysoedd yn hanfodol i atal ymddygiad anghyfreithlon gan asiantaethau'r wladwriaeth. Fodd bynnag, fel a ddangosir yn ymgynghoriad 'New Focus' y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithol, yr ydym yn cydnabod yr angen i wella cyfradd lwyddiant yr hawliadau a gyllidwn.

Byddwn yn cyhoeddi papur gyda chynigion ar gyfer:

- cyfyngu cyllid i banel arbenigol o gwmnïau cyfreithwyr a ddewiswyd yn bennaf ar sail eu record o lwyddiant; a
- gwella sut mae'r LSC yn trafod yr achosion hyn drwy greu nifer gyfyngedig o ganolfannau rhagoriaeth i ddelio gyda phob cais o'r math hwn.

Mae gwella gweithdrefnau cwynion heddlu yn golygu y byddwn yn adolygu'r angen am gymorth cyfreithiol yn y categori hwn.

## 12. Esgeulustod Clinigol

Mae cyllid hawliadau esgeulustod clinigol yn y dyfodol yn ddibynnol iawn ar newidiadau. Disgwylir dau gynllun iawn cwynion gan y GIG:

- cynllun llwybr cyflym ar gyfer hawliadau esgeulustod clinigol gwerth isel; a
- cynllun dim-bai ar gyfer babanod gydag amhariad niwrolegol difrifol.

Byddwn yn gweithredu tybiaeth gref na ddylid rhoi cyllid ar gyfer ymglyfreitha lles fel arfer nes bod y cynlluniau iawndal wedi eu dilyn. Byddwn yn cadw'r cwestiwn yn agored os byddai angen rhyw fath o gymorth cyfreithiol, a gyllidir drwy gymorth cyfreithol, i gefnogi achosion dan gynllun iawndal.

Megis gyda hawliadau heddlu, mae angen i ni adolygu rôl Help Cyfreithiol mewn achosion esgeulustod clinigol yng ngoleuni gwasanaethau eraill sydd ar gael, yn cynnwys y Gwasanaeth Ymgynghori Cwynion Annibynnol.

Mae cyllid esgeulustod clinigol eisoes wedi ei gyfyngu i gwmnïau panel arbenigol. Mewn egwyddor byddai gennym ddi-ddordeb mewn gostwng maint y panel Esgeulustod Clinigol yn seiliedig ar y canlyniadau a gynhyrchir gan gwmnïau panel presennol.

## 13. Mewnfudo a lloches

Rydym wedi cyflwyno diwygiadau mawr yn y maes hwn mewn blynyddoedd diweddar; drwy achrediad, mesurau rheoli newydd ar gyfer gwaith achos, cynnig cystadleuol am gontractau a chynlluniau dyletswydd mewn canolfannau cadw. Fel y teimlir effaith y diwygiadau hyn, medrwn fod yn gynyddol hyderus ein bod yn delio gyda sylfaen darparwyr sy'n ymroddedig i ddarparu gwasanaethau o ansawdd. Byddwn felly yn cyhoeddi papur polisi pellach eleni sy'n adeiladu ar y sylfaen hwnnw. Bydd y maes yn dal dan arolygaeth, ac mae'n flaenoriaeth allweddol i'r Adran Materion Cyfansoddiadol yn ei strategaeth pum-mllynedd.

Er bod cyflenwyr angen arbenigedd yn y ddau faes, mae gwahaniaeth sylweddol rhwng lloches a dim-lloches yn y gyfran o geisiadau lle darperir cyllid LSC i gleientiaid. Er mwyn bodloni Rheolau Mewnfudo, mae cleientiaid gyda mater heb fod yn lloches yn annhebyg o fod yn gymwys am gyllid LSC, ac mae llai na 10% o ymgeiswyr o'r fath yn ei dderbyn. Er bod yr LSC yn cyllido rhyw lefel o gyngor cyfreithol mewn tua 90% o'r ceisiadau lloches dechreuol, er bod y ffigur hwnnw yn gostwng yn sylweddol mewn apêl, gan fod cyllid yn gyfyngedig i achosion gyda haeddiant. Oherwydd hyn, rydym wedi canolbwyntio'n bennaf ar loches, er bod yn rhaid i gyngor mewnfudo fod yn rhan o becyn o faterion lles cymdeithasol, y dylai hefyd gael eu cydlynu gyda gwasanaethau eraill.

Bydd y Comisiwn yn sicrhau fod mynediad priodol i wasanaethau cyfreithol a chynghori mewn cyfraith lloches ar gyfer pob cleient sydd ei angen, ac y caiff gwasanaethau eu teilwra i'w hanghenion (gan roi ystyriaeth i'r broses y bydd eu cais neilltuol yn mynd trwyddo). Bydd y Comisiwn yn cyhoeddi papur polisi sy'n mynd i'r afael â'r materion dilynol:

- Gall cleientiaid a ddelir mewn gorsaf heddlu ar gyfer mater yn gysylltiedig â mewnfudo fod angen gwasanaeth gwahanol i'r rhai a ddelir ar gyfer materion troseddol.
- Mae cleientiaid a gaiff eu cadw pan fo'u cais lloches yn cael ei ystyried angen gwasanaeth sy'n adlewyrchu hyn a hefyd gyflymder y broses lloches.
- Mae cleientiaid angen darpariaeth ddigonol mewn lleoliadau priodol i sicrhau y medrant gael cyngor cyfreithol un ai wrth wneud cais am loches, neu cyn iddynt gael eu cyfweliad Swyddfa Gartref.

- Mae cleientiaid angen cyflenwyr digonol mewn lleoliadau lle cawsant eu gwasgaru a/neu yn agos i ganolfannau gwrandawriad Awdurdod Apeliadau Mewnfudo i sicrhau fod ganddynt fynediad i gyngor cyfreithiol yng nghyswllt unrhyw apêl lle bynnag mae hynny'n briodol.
- Gall fod angen i gleientiaid a gedwir ar ddiwedd y broses, efallai yn disgwyl eu symud, fod angen mynediad i gyngor cyfreithiol yng nghyswllt mechniaeth neu amgylchiadau eu symud.
- Mae cleientiaid yn hawlio lloches ymysg y rhai mwyaf bregus. Rhaid i wasanaethau cyfreithiol a chynghori, yn cynnwys cynrychiolaeth, fod o safon uchel. I gyflawni hyn byddwn yn edrych ar adeiladu ar y cynllun achredu ar gyfer cyfreithwyr a gweithwyr cyfreithiol eraill. Yn ychwanegol, bydd y Comisiwn yn gweithio gyda chyrrff rheoleiddiol i gydlynu dynesiadau sicrwydd ansawdd.

Bydd y Comisiwn hefyd yn ystyried ehangu gwasanaethau ffôn lle mai dyma'r dull mwyaf priodol roi cyngor arbenigol neu gefnogaeth gleientiaid a darparwyr. Yn neilltuol meddir defnyddio'r dull cyflenwi hwn i gynorthwyo ymarferwyr cyfreithol lle gall cleient y maent yn ei gynrychioli dan y cynllun cyfreithwyr dyletswydd gorsaf heddlu fod ag achos mewnfudo.

## 14. Iechyd Meddwl

Byddwn yn cyhoeddi papur yn amlinellu ein bwriadau i bellotio dynesiadau newydd at ddarparu mynediad i gyngor a chynrychiolaeth i gleientiaid gyda phroblemau iechyd meddwl. Yn ogystal â phrofi pob math o broblemau cyfreithiol yn yr un modd â gweddill y gymuned, mae gan gleientiaid o'r fath yn aml anghenion cyngor neilltuol iawn. Mae cleientiaid sydd yn dod o fewn cwrpas Deddf Iechyd Meddwl 1983 angen mynediad i gyngor annibynnol arbenigol ar oblygiadau cyfreithiol cadw/triniaeth a chyfeiriad effeithlon i a chynrychiolaeth yn y tribiwnlys.

Rhaid i fynediad i gyngor annibynnol fod yn brydlon a byddwn felly yn anelu darparu mynediad lleol lle'n ymarferol. Mae'r cynnydd disgwylledig mewn gwrandawriadau tribiwnlys yn dilyn deddfwriaeth newydd yn golygu y bydd angen i ni hefyd gymryd camau i gynyddu cyflenwad.

Mae cleientiaid gyda phroblemau iechyd meddwl angen mynediad i gyngor cyfreithol ar faterion lles cymdeithasol, yn arbennig tai, budd-daliadau lles a dyled. Gall datrys problemau yn gysylltiedig â'r materion hyn hefyd helpu i liniaru problemau iechyd meddwl.

Mae'r cyngor hwn yn bwysig nid yn unig ar gyfer y rhai sydd neu ar fin cael eu rhyddhau o ysbyty, ond hefyd i'r grp llawer ehangach yn y gymuned nad ydynt yn dod o dan bwerau ffurfiol y Ddeddf. Fodd bynnag, mae nifer y cyflenwyr iechyd meddwl a all ddarparu'r cyngor cyfreithiol a chynghori diwniad hwn yn gyfyngedig. Bydd felly angen i ni roi mynediad i gyngor cyfreithiol ar les cymdeithasol ar gyfer y grp cleient hwn.

Mae gan gleientiaid gyda phroblemau iechyd meddwl, un ai o fewn amgylchedd ysbyty neu yn y gymuned, yn aml anghenion cysylltiedig ar gyfer gwasanaethau cyfreithiol a chynghori mewn Gofal Cymunedol. Gall darpariaeth gwasanaethau gan yr awdurdod lleol a gwasanaethau gofal iechyd fod yn hollbwysig i ddychwelyd i neu sefydlogrwydd yn y gymuned. Fodd bynnag, nid oes gan lawer o ddeiliaid contract arbenigol Iechyd Meddwl gontractau Gofal yn y Gymuned.

Byddwn felly yn nodi ein bwriadau i gynnal peilot o gontractau Cyfraith Iechyd Meddwl sydd:

- yn seiliedig ar (ond heb eu cyfyngu i) wasanaethu ysbyty/lleoliad neilltuol;
- nodi'r gwasanaethau y gall cleientiaid eu disgwyl
- profi modelau cyllid sy'n symud ymaith o gyfraddau awr; medrai'r modelau hyn gynnwys taliadau bloc neu swyddi a gyllidir; a

- darparu gwasanaeth cyfreithiol a chynghori integredig i gleientiaid, yn cynnwys ar gyfraith lles cymdeithasol.

Bydd y papur hwn hefyd yn ystyried y ffordd orau i ddarparu elfen o gyngor gofal cymunedol gan contractwyr lechyd Meddwl – efallai drwy gynnwys elfennau Gofal Cymunedol yn y categori lechyd Meddwl a sut y gall cleientiaid sydd â phroblemau iechyd meddwl ond heb eu cadw'n orfodol gael mynediad i gyngor lles cymdeithasol drwy waith all-estyn wedi ei dargedu.

Byddwn hefyd yn trafod materion recriwtio a chadw cyfreithwyr lechyd Meddwl, a safonau gwasanaeth.

## 15. Dynesiad i Gymru

Er nad yw'r system cymorth cyfreithiol wedi ei datganoli, rhaid iddi weithio gydag asiantaethau cynghori a gwasanaethau eraill sydd o fewn yr amgylchedd datganoledig. Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru i adeiladu ar ei gwaith presennol ar strategaeth cynghori i Gymru i sicrhau ein bod yn rhoi ystyriaeth i sawl ffactor allweddol, yn cynnwys y dynesiad 'Creu'r Cysylltiadau' at gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus; y gwahaniaethau sy'n dod i'r amlwg yn y gwasanaethau gofal iechyd, awdurdodau lleol ac addysg yng Nghymru; a datganoli a phwysigrwydd cydnabod y gwahanol anghenion o fewn Cymru. Ar ôl gwneud gwaith pellach gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru a budd-ddeiliaid eraill, byddwn yn cyhoeddi papur polisi ar wahân ar gyfer y CLS yng Nghymru a fydd yn ystyried sut y caiff y dynesiad a amlinellir yn y strategaeth hon ei gyflenwi yng Nghymru.



## Atodiad Dau: Yr Hyn a Gyflawnodd y Gwasanaeth Cyfreithol Cymunedol – Y Pum Mlynedd Gyntaf

Mae ffocws y Ddeddf Mynediad i Gyfiawnder 1999 ar wella mynediad i wasanaethau cyfreithiol ansawdd-uchel, cost-effeithiol a chydlynol ar gyfer y bobl sydd fwyaf eu hangen.

Gwelodd pum mlynedd gyntaf y Gwasanaeth Cyfreithol Cymunedol (CLS) lawer o gynnydd tuag at y weledigaeth hon. Mae'r hyn a gyflawnwyd yn cynnwys:

- ffocws cynyddol ar anghenion cleientiaid;
- gwell sylfaen tystiolaeth i gyfrannu at ddealltwriaeth o'r problemau sy'n wynebu pobl;
- mabwysiadu'r Nod Ansawdd ar draws y sector fel bathodyn rhagoriaeth;
- ailffocysu gwariant cymorth cyfreithiol ar gleientiaid gyda'r anghenion blaenoriaeth uchaf drwy'r Cod Cyllido ac Adroddiadau Rhanbarthol'
- trawsffurfio cymorth cyfreithiol sifil o system ymatebol o brosesu hawliadau i gomisiynu yn rhagweithiol y gwasanaethau y mae cleientiaid eu hangen;
- dechrau dynesiad cydlynol at gyllido a chyflenwi gwasanaethau ar draws y CLS er mwyn cefnogi gwasanaethau diwniad i gleientiaid;
- datblygu rhwydweithiau lleol o ddarparwyr gwasanaeth a budd-ddeiliaid eraill mewn Partneriaethau Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol;
- lansio Galw Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol, sydd wedi ehangu mynediad i wasanaethau;
- dechrau gwaith i atal problemau lleol yn codi, ac addysgu pobl am eu hawliau cyfreithiol a'u cyfrifoldebau; a
- cyllido grantiau hyfforddi i fyfyrwyr y gyfraith i gynyddu nifer y cyfreithwyr sy'n dewis gyrfa mewn gwaith cymorth cyfreithiol.

Mae'r rhan hon yn rhoi enghreifftiau o sut y dechreuodd y CLS wella:

- mynediad;
- ansawdd;
- gwerth am arian; a
- cydlynu gwasanaethau cyfreithiol a chynghori.

### 1. **Mynediad** i'r gwasanaethau cyfreithiol a chynghori y mae cleientiaid eu hangen, pan maent eu hangen

i Mae **Galw Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol**, a lansiwyd ym mis Gorffennaf 2004 yn darparu gwybodaeth, help a chynghori cyfreithiol di-dâl yn uniongyrchol i'r cyhoedd ar amrediad o faterion cyfreithiol cyffredin drwy:

- Llinell Gymorth genedlaethol, 0845 345 4 345 (peilotiwyd yn flaenorol);
- gwefan, [www.clsdirect.org.uk](http://www.clsdirect.org.uk) (gynt JustAsk!); a
- cyfres o daflenni gwybodaeth.

Caiff cleientiaid eu harwyddbostio at wasanaethau wyneb-i-wyneb lle mae'r rhain yn fwy addas.

### Arwyddbostio effeithlon – gweithio gyda sylwyr problemau

Ar Lannau Merswy, cafodd Cymorthfeydd Gwasanaeth Gwybodaeth Wardeiniaid eu sefydlu mewn ardaloedd angen uchel yn Knowsley. Mae'r prosiect yn cynnwys hyfforddi wardeiniaid cymunedol ledled Knowsley i'w galluogi i weithredu fel sylwyr problemau gan arwyddbostio pobl sydd angen gwybodaeth a chyngor i ffynonellau perthnasol o gymorth. Fel canlyniad i lwyddiant y prosiect, caiff yn awr ei hyrwyddo fel enghraifft o arfer da i gynlluniau wardeniaid cymunedol eraill yng Ngogledd Orllewin Lloegr.

Yn rhanbarth Dwyrain Lloegr, datblygwyd protocol ar y cyd gyda Canolfan Byd Gwaith i alluogi ei ddefnyddwyr i gyrchu cyngor cyfreithiol gan y Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol pan ddefnyddiant y Ganolfan Gwaith.

- ii Mae **cynlluniau Meddiant Tai**, a gyllidir gan awdurdodau lleol, yr LSC ac eraill, yn rhoi cymorth argyfwng i bobl sy'n wynebu trafodion dadfeddiant mewn llysoedd ledled Lloegr a Chymru. Caiff y cynlluniau hyn eu rhedeg gan amrywiaeth o gwmnïau cyfreithwyr ac asiantaethau di-elw. Yn Birmingham, er enghraifft, mae naw asiantaeth yn gweithio ar y cynllun, a gaiff ei reoli gan un asiantaeth arweiniol dan gontract i'r LSC. Mae'r cynllun yn darparu cymorth argyfwng yn y llys a hefyd wedi gweithio gyda'r Gwasanaeth Llys i anfon taflenni gys mewn sawl iaith, yn annog pobl i geisio cyngor cyn eu gwrandawriad llys ac felly gael mynediad cynharach i gyngor cyfreithiol.
- iii Mae'r **Gyllideb Menter Partneriaeth** (PIB), a lansiwyd yn 2001, yn cefnogi dros 140 o brosiectau blaengar ac arbrofol sy'n gwella mynediad pobl i gyngor a gwybodaeth cyfreithiol. Ymrwymwyd dros £18 miliwn i brosiectau PIB, pob un yn denu adnoddau ychwanegol mewn arian cyfatebol (isafswm 25%). Mae prosiectau'n rhoi gwybodaeth arbennig o werthfawr i'r Comisiwn ar amrywiaeth o ddynesiadau at gyflenwi gwasanaethau cyfreithiol a chynghori i gleientiaid. Cafodd rhai prosiectau eu hadolygu'n ddiweddar er mwyn dynodi a rhannu gwersi, a bydd adroddiad yn amlinellu canfyddiadau'r arolwg hwn ar gael yng Ngwanwyn 2005.
- iv Mae sawl **prosiect Videolink**, a gaiff eu rhedeg ar y cyd gan y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol, awdurdodau lleol ac amrywiaeth o asiantaethau cynghori, yn galluogi pobl i siarad yn uniongyrchol gyda chynghorwyr cyfreithol a chael mynediad i wasanaethau eraill o lyfrgelloedd cyhoeddus, canolfannau cymunedol neu hyd yn oed o'r tu fewn i garchardai. Maent yn darparu help a chyngor cyfreithol i rai sy'n methu neu'n amharod i gyrchu gwasanaethau prif ffrwd. Anelant fynd i'r afael ag allgau cymdeithasol, ac yn aml cânt eu targedu at ardaloedd gwledig a mannau gyda lefelau uchel o ddifreintiad cymdeithasol.

Yng Ngogledd Dwyrain Lloegr, mae'r **Prosiect Gostwng Troseddu trwy Gyngor** wedi sicrhau fod gan garcharorion a'u teuluoedd fynediad i gyngor teulu a lles cymdeithasol mewn gosodiad carchar a hefyd drwy gysylltiadau fideol i rwydwaith o gynghorwyr cyfreithol. Yn ddiweddar cafodd y prosiect ei wrandawriad methdaliad llwyddiannus cyntaf a gynhaliwyd drwy gyswllt fideo rhwng y carchar a'r Llys Sirol. Mae gan y prosiect yn awr gynlluniau i alluogi ymgeiswyr ar gyfer Lwfans Byw Anabl i fynychu eu gwrandawriadau tribiwnlys yn defnyddio'r dechnoleg hon.

- v Mae **gwasanaethau all-estyn**, a gaiff eu rhedeg fel ychwanegiadau i gontractau prif ffrwd neu drwy'r PIB, yn targedu grwpiau neilltuol ac yn dod â gwasanaethau yn nes at y cleientiaid sydd eu hangen. Mae'r rhain yn cynnwys prosiectau sy'n doddi cynghorwyr mewn meddygfeydd a gosodiadau gofal iechyd eraill, neu'n darparu gwasanaethau cynghori o fewn canolfan ieuencid sefydledig.

Yn Llundain, mae **Canolfan Cyfraith Streetwise** yn darparu cyngor cyfreithiol i bobl ifanc, yn seiliedig mewn canolfan ieuencid a ddefnyddir eisoes gan bobl ifanc leol ar gyfer amrediad eang o weithgareddau. Mae gan y ganolfan gontract gyda'r Comisiwn i ddarparu cyngor cyfreithiol arbenigol, ac mae hefyd yn rhedeg prosiect meithrin gallu Cyllideb Menter Partneriaeth yn cynnig llinell gyngor ffôn i bobl ifanc, a chefnogaeth ail haen i nifer o ganolfannau ieuencid lleol eraill.

Mae gan **Ganolfan Cyngor Ar Bopeth Birmingham** gontract allestyn i gyflenwi gwasanaethau cyfreithiol arbenigol i'r Uned Mam a Baban yn Ysbyty Seiciatreg y Frenhines Elizabeth. Mae'r gwasanaethau hyn yn helpu cleifion i ddelio gydag amrediad eang o broblemau cyfreithol yn yr ysbyty a thrwy ymweliadau cartref.

## 2. Gwasanaethau o ansawdd sy'n ateb anghenion cleientiaid

- vi Mae **Nod Ansawdd y CLS** yn rhoi cydnabyddiaeth gyhoeddus i wasanaethau sy'n arddangos elfennau allweddol gwasanaeth ansawdd uchel i gleientiaid ac, ar y lefel Arbenigol, yn gosod safon ar gyfer cyflenwi gwasanaethau cymorth cyfreithiol sifil dan gontract.
- vii Bu **cefnogaeth** ar gael i amrediad eang o sefydliadau yn gwneud cais am y Nod Ansawdd yn ystod y cam cyflwyno. Mae'r Prosiect Cefnogaeth CLS, a gyflenwir gan y Gynghrair Gwasanaethau Cynghori, yn darparu ymgynghoriaeth, hyfforddiant a briffiadau ar y Nod Ansawdd a chontractio LSC i aelodau rhwydweithiau cyngor sylweddol. Mae cynlluniau lleol hefyd yn cefnogi cyflwyniad y Nod Ansawdd, er enghraifft lle mae awdurdod lleol yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr ddal y Nod Ansawdd fel amod cyllido. Yn St Helens, mae cyfres o seminarau wedi helpu i baratoi asiantaethau lleol ar gyfer cyflwyno gofynion o'r fath ar gyfer cyllido yn Ebrill 2005.
- viii Mae **Gwasanaethau Cefnogaeth Arbenigol** yn darparu cyngor arbenigol, hyfforddiant a chefnogaeth gyda gwaith achos i helpu darparwyr cyngor cyfreithol a chynghori i ddelio gydag achosion cymhleth neu anarferol. Mae gwasanaeth Cefnogaeth Arbenigol cenedlaethol y Comisiwn ar gael i sefydliadau sydd yn dal Nod Ansawdd y CLS ar lefelau Arbenigol a Help Cyffredinol gyda Gwaith Achos.

- ix Mae'r Comisiwn hefyd yn rhoi cyllid grant i Gynghrair Gwasanaethau Cynghori Llundain (LASA) i ddatblygu [www.rightsnet.org.uk](http://www.rightsnet.org.uk), adnodd arbenigol i gynghorwyr ar fudd-daliadau lles a chredyd treth.

#### Prosiect Gwybodaeth Budd-daliadau, Cyngor Dinas Kingston-upon-Hull

Drwy'r Prosiect Gwybodaeth Budd-dalaidau, mae gwasanaeth Hawliau Lles Cyngor Dinas Hull yn gweithio gyda sefydliadau lleol i wella ansawdd yr wybodaeth gyfreithiol a ddarparant, cynyddu eu gallu i ddynodi anghenion cyfreithiol posibl, arwyddbostio ac atgyfeirio cleientiaid yn effeithlon a rhoi cyngor safon uchel. Mae hefyd yn cynnig help i wella systemau a phrosesau, yn cynnwys cefnogaeth mewn gwneud cais am y Nod Ansawdd, yn darparu mynediad i wasanaeth ymgynghori mewnol ar Hawliau Llesiant ac yn cynnig hyfforddiant pwrpasol ar fudd-daliadau lles. Cyllidir y prosiect gan PIB, gydag arian cyfatebol gan Gyngor Dinas Hull.

#### Meithrin gallu yn Derby, Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Derby (Derby CVS)

Yn dilyn cyflwyno gofyniad newydd gan Gyngor Dinas Derby fod yn rhaid i sefydliadau fod â Nod Ansawdd i fod yn gymwys am gyllid, mae'r prosiect hwn yn cynnal gweithdai a sesiynau gwybodaeth i godi ymwybyddiaeth o'r dyfarniad, ac yn darparu cefnogaeth un-i-un i sefydliadau yn gwneud cais amdano. Mae hefyd yn trefnu mentora ar gyfer rhai yn y broses o wneud cais am y Nod Ansawdd gan rai sydd eisoes wedi'i gyflawni, er mwyn rhannu profiadau ac arfer gorau. Mae'n cynhyrchu pecyn i asiantaethau a phartneriaethau eraill ei ddefnyddio. Cyllidir y prosiect drwy'r PIB, gdydag arian cyfatebol gan Derby CVS.

- x Mae'r Comisiwn wrthi'n datblygu dynesiad mwy strategol a chynhwysfawr at sicrwydd ansawdd, er enghraifft drwy adolygiad cymheiriaid, datblygu proffiliau ansawdd ac (mewn partneriaeth gydag eraill ar draws y sector) Safonau Galwedigaethol cenedlaethol am Gyngor Cyfreithiol.

### 3. Gwerth am Arian – y gwasanaethau gorau posibl o fewn yr adnoddau sydd ar gael

- xi Mae **contractio** ar gyfer gwasanaethau cymorth cyfreithol sifil wedi disodli system o brosesu hawliadau, er mwyn canolbwyntio gwaith yn nwylo cyflenwyr gyda sicrwydd ansawdd ac i sicrhau fod y gwariant yn canolbwyntio ar flaenoriaethau cyfredol. Yng Ngogledd Orllewin Lloegr, mae swyddfa Ranbarthol y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithol yn darparu hyfforddiant ar gyfer deiliaid contract dielw i'w helpu i ddynodi'r ffyrdd mwyaf effeithlon o ddefnyddio eu horiau contract ac i hyrwyddo defnydd priodol o Gymorth Cyfreithiol Ardystiedig.
- xii Mae **meini prawf cymhwyster** ar gyfer cymorth cyfreithol sifil, a amlinellir yn y Cod Cyllido, yn galluogi'r Comisiwn i ffocysu gwariant cymorth cyfreithol ar gleientiaid gyda'r anghenion blaenoriaeth uchaf.

### 4. Gwasanaethau cydlynol, cyllid a gwybodaeth i fynd i'r afael ag allgau cymdeithasol

- xiii Sefydlwyd **Partneriaethau Gwasanaeth Cyfreithol Cymunedol**, gan roi cyfle i asiantaethau cynghori lleol, cyllidwyr a budd-ddeiliaid i gydweithio i wella gwasanaethau ar gyfer cleientiaid. Caiff llawer iawn o waith gwerthfawr sy'n cefnogi datblygu gwasanaethau strategol a chydlynol ar gyfer cleientiaid ei gydlynu ar y lefel hon.

- xiv Mae **cydweithio** rhwng y Comisiwn, awdurdodau lleol a darparwyr gwasanaethau cyfreithiol a chynghori wedi galluogi datblygu gwasanaethau hygyrch gan fynd i'r afael ag amrediad o broblem, a gwell atgyfeirio ac arwyddbostio.

Mae'r **Prosiect Allestyn Iechyd Meddwl a Datblygu Gwasanaethau Cyfreithol** a gaiff ei redeg gan Ymddiriedolaeth Tai Brighton a phartneriaid, yn anelu i wella hygyrchedd ac ansawdd y cyngor lles cymdeithasol sydd ar gael i bobl leol gyda phroblemau iechyd meddwl. Mae'r prosiect yn canolbwyntio ar feithrin gallu y partneriaid i ateb anghenion cleientiaid yn arbenig bobl ddigartref ac mewn sefyllfa tai ansicr, ceiswyr lloches a ffoaduriaid, pobl hn ac aelodau grwpiau du a lleiafrif ethnig. Fel canlyniad, mae Mind yn Brighton a Hove wedi treblu ei ddarpariaeth cyngor ac wedi ennill y Nod Ansawdd ar lefel Help Cyffredinol.

Yn Lerpwl, mae'r **Prosiect Iechyd Meddwl** (a gaiff ei redeg gan CAB Garston mewn partneriaeth gyda CAB Gogledd Lerpwl a Toxteth) yn anelu i fynd i'r afael ag anghenion cyngor pobl sy'n profi problemau iechyd meddwl ar draws y ddinas drwy ddarparu cyngor diwniad, annibynnol a chyfrinachol i gleientiaid gydd ag iechyd meddwl gwael. Cyllidir y prosiect gan yr LSC (drwy'r PIB), Cyngor Dinas Lerpwl, Cyngor Ar Bopeth a'r Consortiwm Iechyd Meddwl. Mae wedi ysgogi datblygiad drafft safon Nod Ansawdd mwy hyblyg yn benodol ar gyfer y math hwn o wasanaeth.

Mae **Cyngor Dinas Caerefrog** yn cyllido **Cyngor Ar Bopeth Caerefrog a'r Cylch** i ddarparu cyngor arian i denantiaid (y Cyngor a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig eraill) sydd â dyledion rhent cynyddol. Yn y ffordd hon mae'r cynllun yn anelu i ddatrys ôl-ddyledion cleientiaid a, lle'n bosibl, atal yr angen am drafodion meddiant a thrafodion llys pellach. I ategu hyn mae'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithol yn darparu cyllid i elusen cyngor tai lleol ar gyfer Cynllun Dyletswydd Meddiant Llys Sirol i gynorthwyo cleientiaid yn Llys Sirol Caerefrog.

- xv Mae'r **Gwasanaeth Cyngor a Gwybodaeth Teulu** (FAInS) yn rhoi mynediad i wasanaethau teulu drwy un pwynt cyswllt. Mae cyfreithwyr a chynghorwyr yn gweithredu fel rheolwyr achos i'w cleientiaid er mwyn rhoi dynesiad cydlynol at ddatrys anghydfod teulu a pherthynas a dynodi gwasanaethau eraill sydd eu hangen (megis cwnsela, cyngor dyled a gwasanaethau cyfreithiol eraill) ac atgyfeirio cleientiaid lle bo angen. Cynhaliwyd ymchwil ar FAInS a chyhoeddir adroddiad yn 2005. Caiff y gwasanaeth ei ddatblygu a'i ymestyn ymhellach dros y tair blynedd nesaf.

O'r cyflenwyr gyda chontractau LSC mewn Cyfraith Teulu, mae gan 70% hefyd gontractau mewn categorïau lles cymdeithasol, yn eu galluogi i ddarparu gwasanaeth mwy integredig.

- xvi Mae **Ffora Cyllidwyr** yn bodoli mewn llawer o ranbarthau gyda chynrychiolwyr o, er enghraifft, Asiantaethau Datblygu Rhanbarthol, awdurdodau lleol a Phartneriaethau Strategol Lleol, yn ogystal â'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithol.

- xvii Cafodd staff y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol eu secondio i nifer o Swyddfeydd Llywodraeth Ranbarthol i sicrhau y gwneir cysylltiadau addas rhwng gwasanaethau gwybodaeth a chynghori a chynlluniau a noddir yn rhanbarthol.

Yng Nghymru, arweiniodd **cyllid gan y Gronfa Gymunedol (bellach Cronfa'r Loteri Fawr) a Llywodraeth Cynulliad Cymru** at fwy o gyllid Cyllideb Menter Partneriaeth yn ail gylch y Gyllideb. Fel canlyniad mae mewnfuddsoddiad i'r CLS yng Nghymru drwy'r Gyllideb wedi cynyddu o £250,000 i £950,000.

Yn Nwyrain Canol Lloegr, mae'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol wedi **secondio aelod o staff i Swyddfa'r Llywodraeth ar gyfer Dwyrain Canol Lloegr (GOEM) er mwyn codi ymwybyddiaeth ymysg partneriaid allweddol o rôl cynghori a'r CLS yng nghyd-destun agendâu ehangach y llywodraeth.** Gan weithio o fewn rhan y Swyddfa Gartref o GOEM, mae'r secondiad hefyd yn anelu i gynyddu ymwybyddiaeth o'r angen am wasanaethau cynghori i garcharorion a chyn-droseddwr, i gynyddu mynediad i wasanaethau o'r fath ac arddangos eu heffaith ar gyfraddau ail-droseddu. Un enghraifft o effaith y secondiad yw'r gwaith gyda'r gwasanaeth carchardai i ddarparu ciosgau gwybodaeth electronig mewn carchardai lleol. Caiff y ciosgau hyn eu prynu drwy Gronfa Datlbygu'r CLS a chawsant eu cynllunio gan BT gyda thudalennau neilltuol ar wybodaeth adsefydlu gyda rheolaeth olygyddol yr LSC. Mae'r ciosgau yn cynyddu darpariaeth gwybodaeth am sut i gael help gyda materion sydd yn effeithio ar y cyfleoedd o aildroseddu megis cyngor dyled, budd-daliadau tai a theulu.

- xviii Mae'r **Gronfa Lloches Sengl** yn canoli gwariant y llywodraeth ar loches mewn un gyllideb y caiff costau cymorth cyfreithiol eu talu ohoni, ynghyd â'r costau i'r Swyddfa Gartref ac Awdurdod Apeliadau Mewnfudo. Er mwyn sicrhau y caiff darpariaeth cyngor a chynrychiolaeth cyfreithiol ei ystyried pan gaiff prosesau lloches newydd eu cynllunio, peilotio neu eu cyflwyno, mae gan y Comisiwn gynrychiolwyr ar lawer o fyrddau prosiect y Swyddfa Gartref a'r Adran Materion Cyfansoddiadol, gan ei alluogi i wneud darpariaeth benodol ar gyfer gwasanaethau cyfreithiol fel y cwyd anghenion ac mae blaenoriaethau'n newid. Er enghraifft, mae'r Comisiwn wedi cyflwyno cynllun dyletswydd ar gyfer canolfan llwybr cyflym Harmondsworth a chynllun peilot yng Ngogledd Orllewin Lloegr yn ogystal â chyflwyno contractau ecslwysif yn Oakington.
- xix Mae **Galw Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol** yn darparu cyfleoedd i'r Comisiwn weithio mewn partneriaeth gyda darparwyr cyngor eraill ac yn helpu i gynnig gwasanaeth diwniad i gleientiaid.

Yng Nghymru, mae siarad gyda Cymorth Defnyddwyr yn un o'r opsiynau sydd ar gael i rai sy'n cysylltu â Galw Gwasanaethau Cyfreithiol Cymunedol. Mae hyn yn rhoi mynediad i gleientiaid i amrediad ehangach o gyngor cyfreithiol. Gobeithir y bydd hyn yn rhoi model y medrir ei ymestyn i wasanaethau eraill, megis y Porth Dyled Cenedlaethol.

Mae **Prosiect Llyfrgelloedd Bryste** yn anelu i wella mynediad pobl leol i wasanaethau gwybodaeth a chynghori drwy wasanaeth llyfrgelloedd y ddinas. Gan hyrwyddo Galw Gwasanaeth Cyfreithol Cymunedol fel porth i'r CLS, mae'n cyflenwi hyfforddiant i staff llyfrgell ar sut i ddefnyddio gwefan Galw Gwasanaeth Cyfreithol Cymunedol a sicrhau eu bod yn gwybod am yr amrediad llawn o wasanaethau sydd ar gael.

- xx Mae **ymchwil**, yn neilltuol Arolwg Cenedlaethol cyntaf y Ganolfan Ymchwil Gwasanaethau Cyfreithiol o Broblemau Traddodadwy, yn rhoi tystiolaeth i gyllidwyr a darparwyr gwasanaethau cyfreithol o'r mathau o broblemau a gaiff pobl; effaith gwasanaethau cyfreithiol ansawdd uchel wrth eu datrys; a fframwaith ar gyfer datblygu polisi yn y dyfodol.

I gael gwybodaeth fanylach ar y Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol, gweler Ail Gyfrol y strategaeth hon '*Trosolwg o'r Gwasanaeth Cyfreithol Cymunedol*'. Mae hyn ar gael o wefan y Comisiwn yn [www.legalservices.gov.uk/civil/docs\\_for\\_consultation/civil.asp](http://www.legalservices.gov.uk/civil/docs_for_consultation/civil.asp).



## Atodiad Tri: Deddf Mynediad i Gyfiawnder (Rhan)

Y darn islaw yw Rhan I, adrannau 1-11 Deddf Mynediad i Gyfiawnder 1999 (c.22). Dyma sy'n sefydlu'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol.

### PART I

#### LEGAL SERVICES COMMISSION

##### *Commission*

Legal Services Commission.

1. - (1) There shall be a body known as the Legal Services Commission (in this Part referred to as "the Commission").

(2) The Commission shall have the functions relating to-

- (a) the Community Legal Service, and
- (b) the Criminal Defence Service,

which are conferred or imposed on it by the provisions of this Act or any other enactment.

(3) The Commission shall consist of-

- (a) not fewer than seven members, and
- (b) not more than twelve members;

but the Lord Chancellor may by order substitute for either or both of the numbers for the time being specified in paragraphs (a) and (b) such other number or numbers as he thinks appropriate.

(4) The members of the Commission shall be appointed by the Lord Chancellor; and the Lord Chancellor shall appoint one of the members to chair the Commission.

(5) In appointing persons to be members of the Commission the Lord Chancellor shall have regard to the desirability of securing that the Commission includes members who (between them) have experience in or knowledge of-

- (a) the provision of services which the Commission can fund as part of the Community Legal Service or Criminal Defence Service,
- (b) the work of the courts,
- (c) consumer affairs,
- (d) social conditions, and
- (e) management.

(6) Schedule 1 (which makes further provision about the Commission) has effect.

Power to replace Commission with two bodies.

2. - (1) The Lord Chancellor may by order establish in place of the Commission two bodies-

- (a) one to have functions relating to the Community Legal Service, and
- (b) the other to have functions relating to the Criminal Defence Service.

(2) The order may make any consequential, incidental, supplementary or transitional provisions, and any savings, which appear to the Lord Chancellor to be appropriate.

(3) The order shall include amendments of-

- (a) any provisions of, or amended by, this Part which refer to the Commission, and
- (b) any other enactments which so refer,

to replace references to the Commission with references to either or both of the bodies established by the order.

Powers of Commission.

3. - (1) Subject to the provisions of this Part, the Commission may do anything which it considers-

- (a) is necessary or appropriate for, or for facilitating, the discharge of its functions, or
- (b) is incidental or conducive to the discharge of its functions.

(2) In particular, the Commission shall have power-

- (a) to enter into any contract,

- (b) to make grants (with or without conditions),
- (c) to make loans,
- (d) to invest money,
- (e) to promote or assist in the promotion of publicity relating to its functions,
- (f) to undertake any inquiry or investigation which it may consider appropriate in relation to the discharge of any of its functions, and
- (g) to give the Lord Chancellor any advice which it may consider appropriate in relation to matters concerning any of its functions.

(3) Subsections (1) and (2) do not confer on the Commission power to borrow money.

(4) The Commission may make such arrangements as it considers appropriate for the discharge of its functions, including the delegation of any of its functions.

(5) The Lord Chancellor may by order require the Commission-

- (a) to delegate any function specified in the order or to delegate any function so specified to a person (or person of a description) so specified,
- (b) not to delegate any function so specified or not to delegate any function so specified to a person (or person of a description) so specified, or
- (c) to make arrangements such as are specified in the order in relation to the delegation of any function so specified.

#### *Community Legal Service*

Community Legal Service.

4. - (1) The Commission shall establish, maintain and develop a service known as the Community Legal Service for the purpose of promoting the availability to individuals of services of the descriptions specified in subsection (2) and, in particular, for securing (within the resources made available, and priorities set, in accordance with this Part) that individuals have access to services that effectively meet their needs.

(2) The descriptions of services referred to in subsection (1) are-

- (a) the provision of general information about the law and legal system and the availability of legal services,
- (b) the provision of help by the giving of advice as to how the law applies in particular circumstances,
- (c) the provision of help in preventing, or settling or otherwise resolving, disputes about legal rights and duties,
- (d) the provision of help in enforcing decisions by which such disputes are resolved, and
- (e) the provision of help in relation to legal proceedings not relating to disputes.

(3) Services which the Commission is required to fund as part of the Criminal Defence Service do not fall within subsection (2).

(4) Every person who exercises any function relating to the Community Legal Service shall have regard to the desirability of exercising it, so far as is reasonably practicable, so as to-

- (a) promote improvements in the range and quality of services provided as part of the Community Legal Service and in the ways in which they are made accessible to those who need them,
- (b) secure that the services provided in relation to any matter are appropriate having regard to its nature and importance, and
- (c) achieve the swift and fair resolution of disputes without unnecessary or unduly protracted proceedings in court.

(5) The Commission shall fund services of the descriptions specified in subsection (2) as part of the Community Legal Service in accordance with the following sections.

(6) The Commission shall also inform itself about the need for, and the provision of, services of the descriptions specified in subsection (2) and about the quality of the services provided and, in co-operation with such authorities and other bodies and persons as it considers appropriate-

- (a) plan what can be done towards meeting that need by the performance by the Commission of its functions, and
- (b) facilitate the planning by other authorities, bodies and persons of what can be done by them to meet that need by the use of any resources available to them; and the Commission shall notify the Lord Chancellor of what it has done under this subsection.

(7) The Commission may set and monitor standards in relation to services of the descriptions specified in subsection (2).

(8) In particular, the Commission may accredit, or authorise others to accredit, persons or bodies providing services of the descriptions specified in subsection (2); and any system of accreditation shall include provision for the monitoring of the services provided by accredited persons and bodies and for the withdrawal of accreditation from any providing services of unsatisfactory quality.

(9) The Commission may charge-

- (a) for accreditation,
- (b) for monitoring the services provided by accredited persons and bodies, and
- (c) for authorising accreditation by others;

and persons or bodies authorised to accredit may charge for accreditation, and for such monitoring, in accordance with the terms of their authorisation.

(10) The Lord Chancellor may by order require the Commission to discharge the functions in subsections (6) to (9) in accordance with the order.

Funding of services.

5. - (1) The Commission shall establish and maintain a fund known as the Community Legal Service Fund from which it shall fund services as part of the Community Legal Service.

(2) The Lord Chancellor-

- (a) shall pay to the Commission the sums which he determines are appropriate for the funding of services by the Commission as part of the Community Legal Service, and
- (b) may determine the manner in which and times at which the sums are to be paid to the Commission and may impose conditions on the payment of the sums.

(3) In making any determination under subsection (2) the Lord Chancellor shall take into account (in addition to such other factors as he considers relevant) the need for services of the descriptions specified in subsection (2) of section 4 as notified to him by the Commission under subsection (6) of that section.

(4) The Lord Chancellor shall lay before each House of Parliament a copy of every determination under subsection (2)(a).

(5) The Commission shall pay into the Community Legal Service Fund-

- (a) sums received from the Lord Chancellor under subsection (2), and
- (b) sums received by the Commission by virtue of regulations under section 10 or 11.

(6) The Lord Chancellor may by direction impose requirements on the Commission as to the descriptions of services to be funded from any specified amount paid into the Community Legal Service Fund.

(7) In funding services as part of the Community Legal Service the Commission shall aim to obtain the best possible value for money.

Services which may be funded.

6. - (1) The Commission shall set priorities in its funding of services as part of the Community Legal Service and the priorities shall be set-

- (a) in accordance with any directions given by the Lord Chancellor, and
- (b) after taking into account the need for services of the descriptions specified in section 4(2).

(2) Subject to that (and to subsection (6)), the services which the Commission may fund as part of the Community Legal Service are those which the Commission considers appropriate.

(3) The Commission may fund services as part of the Community Legal Service by-

- (a) entering into contracts with persons or bodies for the provision of services by them,
- (b) making payments to persons or bodies in respect of the provision of services by them,
- (c) making grants or loans to persons or bodies to enable them to provide, or facilitate the provision of, services,
- (d) establishing and maintaining bodies to provide, or facilitate the provision of, services,
- (e) making grants or loans to individuals to enable them to obtain services,
- (f) itself providing services, or
- (g) doing anything else which it considers appropriate for funding services.

(4) The Lord Chancellor may by order require the Commission to discharge the function in subsection (3) in accordance with the order.

(5) The Commission may fund as part of the Community Legal Service different descriptions of services or services provided by different means-

(a) in relation to different areas or communities in England and Wales, and

(b) in relation to different descriptions of cases.

(6) The Commission may not fund as part of the Community Legal Service any of the services specified in Schedule 2.

(7) Regulations may amend that Schedule by adding new services or omitting or varying any services.

(8) The Lord Chancellor-

(a) may by direction require the Commission to fund the provision of any of the services specified in Schedule 2 in circumstances specified in the direction, and

(b) may authorise the Commission to fund the provision of any of those services in specified circumstances or, if the Commission request him to do so, in an individual case.

(9) The Lord Chancellor shall either-

(a) publish, or

(b) require the Commission to publish,

any authorisation under subsection (8)(b) unless it relates to an individual case (in which case he or the Commission may publish it if appropriate).

Individuals for whom services may be funded.

**7.** – (1) The Commission may only fund services for an individual as part of the Community Legal Service if his financial resources are such that, under regulations, he is an individual for whom they may be so funded.

(2) Regulations may provide that, in prescribed circumstances and subject to any prescribed conditions, services of a prescribed description may be so funded for individuals without reference to their financial resources.

(3) Regulations under this section may include provision requiring the furnishing of information.

Code about provision of funded services.

**8.** – (1) The Commission shall prepare a code setting out the criteria according to which it is to decide whether to fund (or continue to fund) services as part of the Community Legal Service for an individual for whom they may be so funded and, if so, what services are to be funded for him.

(2) In settling the criteria to be set out in the code the Commission shall consider the extent to which they ought to reflect the following factors-

(a) the likely cost of funding the services and the benefit which may be obtained by their being provided,

(b) the availability of sums in the Community Legal Service Fund for funding the services and (having regard to present and likely future demands on that Fund) the appropriateness of applying them to fund the services,

(c) the importance of the matters in relation to which the services would be provided for the individual,

(d) the availability to the individual of services not funded by the Commission and the likelihood of his being able to avail himself of them,

(e) if the services are sought by the individual in relation to a dispute, the prospects of his success in the dispute,

(f) the conduct of the individual in connection with services funded as part of the Community Legal Service (or an application for funding) or in, or in connection with, any proceedings,

(g) the public interest, and

(h) such other factors as the Lord Chancellor may by order require the Commission to consider.

(3) The criteria set out in the code shall reflect the principle that in many family disputes mediation will be more appropriate than court proceedings.

(4) The code shall seek to secure that, where more than one description of service is available, the service funded is that which (in all the circumstances) is the most appropriate having regard to the criteria set out in the code.

(5) The code shall also specify procedures for the making of decisions about the funding of services by the Commission as part of the Community Legal Service, including-

- (a) provision about the form and content of applications for funding,
- (b) provision imposing conditions which must be satisfied by an individual applying for funding,
- (c) provision requiring applicants to be informed of the reasons for any decision to refuse an application,
- (d) provision for the giving of information to individuals whose applications are refused about alternative ways of obtaining or funding services, and
- (e) provision establishing procedures for appeals against decisions about funding and for the giving of information about those procedures.

(6) The code may make different provision for different purposes.

(7) The Commission may from time to time prepare a revised version of the code.

(8) Before preparing the code the Commission shall undertake such consultation as appears to it to be appropriate; and before revising the code the Commission shall undertake such consultation as appears to it to be appropriate unless it considers that it is desirable for the revised version to come into force without delay.

(9) The Lord Chancellor may by order require the Commission to discharge its functions relating to the code in accordance with the order.

Procedure relating to funding code.

**9.** - (1) After preparing the code or a revised version of the code the Commission shall send a copy to the Lord Chancellor.

(2) If he approves it he shall lay it before each House of Parliament.

(3) The Commission shall publish-

- (a) the code as first approved by the Lord Chancellor, and
- (b) where he approves a revised version, either the revisions or the revised code as appropriate.

(4) The code as first approved by the Lord Chancellor shall not come into force until it has been approved by a resolution of each House of Parliament.

(5) A revised version of the code which does not contain changes in the criteria set out in the code shall not come into force until it has been laid before each House of Parliament.

(6) Subject as follows, a revised version of the code which does contain such changes shall not come into force until it has been approved by a resolution of each House of Parliament.

(7) Where the Lord Chancellor considers that it is desirable for a revised version of the code containing such changes to come into force without delay, he may (when laying the revised version before Parliament) also lay before each House a statement of his reasons for so considering.

(8) In that event the revised version of the code-

- (a) shall not come into force until it has been laid before each House of Parliament, and
- (b) shall cease to have effect at the end of the period of 120 days beginning with the day on which it comes into force unless a resolution approving it has been made by each House (but without that affecting anything previously done in accordance with it).

Terms of provision of funded services.

**10.** - (1) An individual for whom services are funded by the Commission as part of the Community Legal Service shall not be required to make any payment in respect of the services except where regulations otherwise provide.

(2) Regulations may provide that, in prescribed circumstances, an individual for whom services are so funded shall-

- (a) pay a fee of such amount as is fixed by or determined under the regulations,
- (b) if his financial resources are, or relevant conduct is, such as to make him liable to do so under the regulations, pay the cost of the services or make a contribution in respect of the cost of the services of such amount as is so fixed or determined, or
- (c) if the services relate to a dispute and he has agreed to make a payment (which may exceed the cost of the services) only in specified circumstances, make in those circumstances a payment of the amount agreed, or determined in the manner agreed, by him;

and in paragraph (b) "relevant conduct" means conduct in connection with the services (or any application for their funding) or in, or in connection with, any proceedings in relation to which they are provided.

(3) The regulations may include provision for any amount payable in accordance with the regulations to be payable by periodical payments or one or more capital sums, or both.

(4) The regulations may also include provision for the payment by an individual of interest (on such terms as may be prescribed) in respect of-

(a) any loan made to him by the Commission as part of the Community Legal Service,

(b) any payment in respect of the cost of services required by the regulations to be made by him later than the time when the services are provided, or

(c) so much of any payment required by the regulations to be made by him which remains unpaid after the time when it is required to be paid.

(5) The regulations shall include provision for the repayment to an individual of any payment made by him in excess of his liability under the regulations.

(6) The regulations may-

(a) include provision requiring the furnishing of information, and

(b) make provision for the determination of the cost of services for the purposes of the regulations.

(7) Except so far as regulations otherwise provide, where services have been funded by the Commission for an individual as part of the Community Legal Service-

(a) sums expended by the Commission in funding the services (except to the extent that they are recovered under section 11), and

(b) other sums payable by the individual by virtue of regulations under this section,

shall constitute a first charge on any property recovered or preserved by him (whether for himself or any other person) in any proceedings or in any compromise or settlement of any dispute in connection with which the services were provided.

(8) Regulations may make provision about the charge, including-

(a) provision as to whether it is in favour of the Commission or the body or person by whom the services were provided, and

(b) provision about its enforcement.

Costs in funded cases.

**11.** - (1) Except in prescribed circumstances, costs ordered against an individual in relation to any proceedings or part of proceedings funded for him shall not exceed the amount (if any) which is a reasonable one for him to pay having regard to all the circumstances including-

(a) the financial resources of all the parties to the proceedings, and

(b) their conduct in connection with the dispute to which the proceedings relate;

and for this purpose proceedings, or a part of proceedings, are funded for an individual if services relating to the proceedings or part are funded for him by the Commission as part of the Community Legal Service.

(2) In assessing for the purposes of subsection (1) the financial resources of an individual for whom services are funded by the Commission as part of the Community Legal Service, his clothes and household furniture and the tools and implements of his trade shall not be taken into account, except so far as may be prescribed.

(3) Subject to subsections (1) and (2), regulations may make provision about costs in relation to proceedings in which services are funded by the Commission for any of the parties as part of the Community Legal Service.

(4) The regulations may, in particular, make provision-

(a) specifying the principles to be applied in determining the amount of any costs which may be awarded against a party for whom services are funded by the Commission as part of the Community Legal Service,

(b) limiting the circumstances in which, or extent to which, an order for costs may be enforced against such a party,

(c) as to the cases in which, and extent to which, such a party may be required to give security for costs and the manner in which it is to be given,

(d) requiring the payment by the Commission of the whole or part of any costs incurred by a party for whom services are not funded by the Commission as part of the Community Legal Service,

- (e) specifying the principles to be applied in determining the amount of any costs which may be awarded to a party for whom services are so funded,
- (f) requiring the payment to the Commission, or the person or body by which the services were provided, of the whole or part of any sum awarded by way of costs to such a party, and
- (g) as to the court, tribunal or other person or body by whom the amount of any costs is to be determined and the extent to which any determination of that amount is to be final.



## Atodiad Pedwar: Asesiad Effaith Dechreuol (Rheoleiddiol, Cydraddoldeb a Gwledig)

### 1. Cyflwyniad

Amlinelliad yn unig yw'r cynigion a gyflwynir yn y strategaeth ac mae ganddynt gwmpas eang. Nid yw felly'n bosibl cyflwyno asesiad effaith manwl ar y cam hwn. Bydd yr LSC yn cyhoeddi papurau polisi ychwanegol fel y datblygir cynigion ymhellach a fydd yn ystyried effeithiau posibl pob cynllun yn fanylach.

### 2. Teitl y cynnig

'Gwneud hawliau cyfreithiol yn realaeth: Strategaeth y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol ar gyfer y Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol'.

### 3. Pwrpas ac effaith arfaethedig y mesurau a gynigir

#### a) Cefndir

Mae'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol yn gyfrifol dan Ddeddf Mynediad i Gyfiawnder 1999 am gynnal a datblygu'r Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol (CLS) ar gyfer diben sicrhau (o fewn yr adnoddau sydd ar gael, a'r blaenoriaethau a osodwyd) fod gan unigolion fynediad i wasanaethau cyfreithiol a chynghori sifil penodol, fel a nodir yn y Ddeddf. Mae gwasanaethau o'r fath yn cynnwys darparu:

- i) gwybodaeth gyffredinol am y gyfraith a'r system gyfreithiol, ac argaeledd gwasanaethau cyfreithiol;
- ii) help drwy roi cyngor am sut mae'r gyfraith yn weithredol mewn amgylchiadau neilltuol;
- iii) help i atal, setlo neu ddatrys mewn modd arall anghydfod am hawliau a dyletswyddau cyfreithiol;
- iv) help i weithredu penderfyniadau cyfreithiol ar gyfer datrys anghydfod o'r fath; a
- v) help yng nghyswllt trafodion cyfreithiol nad ydynt yn gysylltiedig ag anghydfod.

Dan adran 4(4) y Ddeddf, bydd pob person sy'n ymarfer unrhyw swyddogaeth yn gysylltiedig â'r Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol yn rhoi ystyriaeth i ddymunoldeb ei hymarfer, cyn belled ag sy'n rhesymol ymarferol, er mwyn:

- i) hyrwyddo gwelliannau yn amrediad ac ansawdd y gwasanaethau a ddarperir fel rhan o'r CLS ac yn y ffyrdd y'u gwneir yn hygyrch i'r rhai sydd eu hangen;
- ii) sicrhau fod y gwasanaethau a ddarperir yng nghyswllt unrhyw fater yn briodol, gan roi ystyriaeth i'w natur a'i bwysigrwydd; a
- iii) sicrhau datrysiad cyflym a theg anghydfod heb drafodion diangen neu orfaith mewn llys.

Mae'r LSC yn cyllido, o'r Gronfa Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol, gwasanaethau a ddarperir gan gyfreithwyr ac asiantaethau di-elw. Mae ganddo hefyd gyfrifoldeb ehangach i hwyluso cynllunio gan awdurdodau, sefydliadau, grwpiau ac unigolion eraill yr hyn y medrant ei wneud i ateb yr angen am wasanaethau yn defnyddio unrhyw adnoddau sydd ar gael iddynt. Mae gan yr LSC oblygiad dan y Ddeddf i sicrhau gwerth gorau am arian yng nghyswllt gwasanaethau y mae'r Gronfa Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol yn talu amdanynt.

Mae'r cynigion yn y papur ymgynghori hwn yn anelu i sicrhau dyfodol y Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol ar adeg pan fo'i gyllid dan bwysau cynyddol. Mae'r strategaeth hefyd yn ymofyn mynd i'r afael â materion allweddol a ddynodwyd yn adroddiad y Ganolfan Ymchwil Gwasanaethau Cyfreithiol ar yr Arolwg Cenedlaethol o Broblemau Traddodadwy, 'Causes of Action' (2004) yn ogystal ag adroddiad Frontier Economics 'A market analysis of legal aided services provided by solicitors' (2003) ac adroddiad yr Adolygiad Annibynnol o'r Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol a gynhaliwyd gan Matrix Research and Consultancy (2004).

## b) Amcanion

Mae'r cynigion yn y strategaeth yn anelu i fynd i'r afael â'r heriau yn wynebu'r CLS wrth ganolbwyntio ar anghenion cleientiaid. Mae'r cynigion yn anelu yn neilltuo i:

- i) uno cymorth cyfreithiol sifil yn fwy effeithlon gyda gwasanaethau cynghori a chyfreithiol nas cyllidir gan yr LSC;
- ii) ehangu rhai gwasanaethau cyfreithiol a chynghori i fod ar gael i bawb;
- iii) rhoi gwell mynediad i wasanaethau cyfreithiol a chynghori ar gyfer y rhai yn yr ardaloedd tlotaf gyda'r mwyaf o broblemau, tra'n cynnal mynediad rhesymol mewn man arall;
- iv) darparu gwasanaethau integredig, o gyngor sylfaenol i ymgyfreitha cymhleth, a all ddelio gydag amrediad o broblemau mewn gwahanol gategorïau o gyfraith, ac sy'n lleihau'r angen am atgyfeiriadau;
- v) cael gwell gwerth am arian drwy gydlynw gwahanol ffynonellau o gyllid; a
- vi) delio gydag achosion sefydliadol y problemau sy'n wynebu cleientiaid.

I gyflawni'r amcanion hyn, mae'r LSC yn cynnig:

- i) Gweithio i wella'r ddealltwriaeth o rôl gwasanaethau cyfreithiol a chynghori i fynd i'r afael ag allgau cymdeithasol. Y strategaeth hon yw'r cam cyntaf tuag at gynhyrchu fframwaith cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau cyfreithiol a chynghori y gall pob cyllidwr helpu eu datblygu er mwyn ateb anghenion cleientiaid yn well.
- ii) Parhau i ehangu gwasanaeth ffôn Galw Gwasanaeth Cyfreithol Cymunedol yn wasanaeth cenedlaethol y rhoddir cyhoeddusrwydd da iddo ar gyfer cael cyngor cyfreithiol.
- iii) Adeiladu ar y cyflenwad presennol i beilotio Canolfannau Cyfreithiol a Chynghori Cymunedol a Rhwydweithiau Cyfreithiol a Chynghori Cymunedol sy'n cronni cymorth cyfreithiol gyda chyllid awdurdodau lleol a chyllid arall i ddarparu gwasanaethau wyneb-i-wyneb hygyrch (o gyngor cynnar i gynrychiolaeth gyfreithiol) i fynd i'r afael â'r cyfuniadau o broblemau a gaiff pobl.
- iv) Annog, drwy ddynesiadau mwy hyblyg yn ein system gontractio, ddarparwyr gwasanaethau cyfreithiol a chynghori mewn ardaloedd eraill i ehangu eu meysydd arbenigedd o fewn cyfraith lles cymdeithasol.

- v) Ymgynghori ar lywodraethu cenedlaethol a lleol newydd ar gyfer y CLS er mwyn darparu ar gyfer gwell cydlynu ymysg cyllidwyr, ac mae hynny'n cynnwys mewnbwn gan grwpiau cleient.
- vi) Ymrwymo gyda sefydliadau cyhoeddus a phreifat i helpu i fynd i'r afael â materion cyflenwi a all arwain at broblemau i gleientiaid, yn ganolog ac yn lleol.

### 3. Asesu risg

Mae'r risg allweddol i weithredu llwyddiannus y strategaeth CLS yn ymwneud ag argaeledd adnoddau yn y dyfodol:

- i) Cynyddu pwysau ariannol ar y Gronfa CLS (hynny yw, cymorth cyfreithiol) a all ei gwneud yn ofynnol i'r LSC fod â ffocws ar gynlluniau sy'n cyflwyno arbedion cost yn gyflym, ar draul amcanion tymor canol a thymor hwy i ddatblygu gwasanaethau blaengar; a
- ii) Gall cynyddu pwysau ariannol ar fudd-ddeiliaid allweddol megis cyllidwyr a darparwyr ostwng eu parodrwydd a'u gallu i gymryd rhan yn y CLS.

I leihau'r risg hwn byddwn yn:

- i) sicrhau y caiff cynnydd mewn costau cymorth cyfreithiol yn deillio allan o bolisiau llywodraeth (er enghraifft y Mesur Iechyd Meddwl newydd) eu cydnabod a'u cyllido'n addas;
- ii) ceisio cyllid ychwanegol i'r CLS o ffynonellau eraill;
- iii) parhau gyda chynlluniau i sicrhau'r gwerth gorau posibl am arian yn y gwasanaethau a gomisiynwn;
- iv) gweithio gyda chyllidwyr a darparwyr gwasanaeth i ostwng costau trafodion lle bynnag y bo'n bosibl, er enghraifft drwy ddatblygu safonau rheolaeth perfformiad cyffredin; a
- v) adolygu cwmpas a chyfyngiadau cymhwyster ariannol ar gyfer cyllid CLS (cymorth cyfreithiol).

Ail risg yw y medrai'r dynesiadau newydd at gyflenwi gwasanaethau ymyrryd â'r gwasanaethau presennol effeithlon. Byddwn yn ymofyn lleihau'r risg hwn drwy ymgynghori effeithlon peilotio ac adolygu newidiadau.

### 4. Opsiynau

- a. Gwneud dim
- b. Datblygu rhai yn unig o'r cynigion a gyflwynir yn strategaeth y CLS a dim arall
- c. Datblygu'r holl gynigion ar gyfer ymgynghori pellach

### 5. Budd opsiynau

- a. Gwneud dim

Nid oes dim manteision amlwg i wneud dim. Ni fedrwn anwybyddu'r materion a godwyd gan yr ymchwiliad a'r dadansoddiad y cyfeirir atynt yn adran gefndir yr asesiad effaith hwn, ac mae pwysau ariannol yn debygol o gynyddu dros amser, gan ddwysau'r angen am ddiwygio.

b. Datblygu rhai o'r cynigion a gyflwynir yn strategaeth y CLS ac nid eraill

Byddai'n bosibl dadgyplu rhai o'r cynigion a'u datblygu ar wahân. Byddai gan hyn y budd posibl o leihau'r ymyriad a achosid. Fodd bynnag, am y rhesymau a nodwn islaw, nid ydym yn ystyried mai dyma fyddai'r dynesiad mwyaf effeithlon yn y tymor hwy

c. Datblygu'r holl gynigion ar gyfer ymgynghori pellach

Mantais datblygu'r holl gynigion gyda'i gilydd yw y cawsant eu cynllunio i gefnogi'i gilydd, ac mae mabwysiadu dynesiad ar draws systemau yn fwy tebygol o gyflenwi fframwaith cadarn a chynhwysfawr i sicrhau gwelliannau.

## 6. Costau

Archwilir costau a buddion y cynigion hyn i'r holl fudd-ddeiliaid yn y papurau polisi manwl i ddilyn. Fodd bynnag, y nod bennaf fydd cynnal neu gynyddu gwerth am arian a gostwng costau trafodion lle bynnag y mae'n bosibl drwy symleiddio prosesau a dulliau cyflenwi.

## 7. Prawf effaith busnesau bach

Mae llawer o ddarparwyr gwasanaethau cyfreithiol a chynghori yn fusnesau bach. Caiff eu diddordebau eu cynrychioli drwy Gymdeithas y Gyfraith, y Grp Ymarferwyr Cymorth Cyfreithiol a chyrrff cynrychioladol eraill y bydd yr LSC yn ymgynghori â hwy yng nghyswllt y cynigion hyn. Rhagwelwn y bydd y cynigion yn cynnig heriau a hefyd gyfleoedd i fusnesau bach. Gall ehangu Galw Gwasanaeth Cyfreithol Cymunedol a datblygu Canolfannau Cyfreithiol a Chynghori Cymunedol ostwng yr angen am wasanaethau wyneb-i-wyneb traddodiadol a gyllidir o'r Gronfa CLS, gan ein galluogi i dargedu gwasanaethau yn fwy effeithlon ar anghenion neilltuol y cymunedau a chleientiaid tlotaf a mwyaf difreintiedig.

## 8. Asesiad cystadleuaeth

Bydd y cynigion yn effeithio ar fusnesau yn darparu gwasanaethau cyfreithiol a chynghori dan gontract i'r LSC.

Ar ôl cymhwyso prawf hidlydd cystadleuaeth Swyddfa'r Cabinet i'r farchnad berthnasol (cyflenwyr gwasanaethau cyfreithiol a chynghori), os gweithredir y strategaeth rhagwelwn y bydd ganddi beth effaith ar y farchnad, ond nid yw'n bosibl hyd yma i ddynodi os bydd hyn yn sylweddol, cyn datblygu cynigion manylach.

## 9. Cydraddoldeb a thegwch: Effaith Cydraddoldeb

Ein hasesiad rhagarweiniol o effaith y cynigion ar fynediad i wasanaethau cyfreithiol a chynghori sifil yw bod ganddynt y potensial i wella cyfle cyfartal drwy ddarparu gwasanaethau safon uchel sydd wedi eu targedu'n well ac yn fwy hygyrch i gleientiaid.

Bydd effaith y cynigion ar ddarparwyr gwasanaethau a gyllidir o'r Gronfa CLS yn rhannol yn dibynnu ar ba mor bell y medrwn ailffocysu darpariaeth gwasanaethau drwy Galw Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol a'r Canolfannau Cyfreithiol a Chynghori Cymunedol, ac i dargedu gwasanaethau ar y cymunedau a chleientiaid tlotaf a mwyaf difreintiedig. Rydym yn ymroddedig i sicrhau fod unrhyw broses ddethol ar gyfer dyfarnu contractau peilot a chontractau yn y dyfodol yn deg a thryloyw, ac nad yw hyn yn gwahaniaethu'n uniongyrchol nac yn uniongyrchol yn erbyn unrhyw fusnesau sydd â phobl o grwpiau du a lleiafrif ethnig yn berchennog arnynt.

Pan y'u cyhoeddir bydd gan bob cynnig polisi ei asesiad effaith cydraddoldeb ei hun, a fydd yn delio'n fanylach gyda'r materion tebygol a godir gan y cynnig neilltuol.

## 10. Effaith Gwledig

Ein hasesiad dechreuol yw y gall ehangu gwasanaethau ffôn drwy Galw Gwasanaeth Cyfreithol Cymunedol a datblygu Rhwydweithiau Cyfreithiol a Chynghori Cymunedol fod ag effaith gadarnhaol ar fynediad i gleientiaid mewn cymunedau gwledig.

Rhagwelwn y caiff y cynigion beth effaith ar gyflenwyr gwledig yn cyflenwi gwasanaethau a gyllidir o'r Gronfa CLS, ond nid yw'n bosibl eto i ddynodi os bydd hyn yn sylweddol.

## 11. Ymgynghori

Byddwn yn ymgynghori ar strategaeth y CLS a'r cynigion mwy manwl sy'n llifo ohoni, yn unol â Chod Ymarfer yr LSC ar ymgynghori (sydd ar gael ar ein gwefan [www.legalservices.gov.uk](http://www.legalservices.gov.uk)). Bydd papurau polisi unigol ar y cynigion a fydd yn ystyried yn fanylach y materion a fireiniwyd yn yr Aseiad Effaith hwn, ac felly ei fireinio ymhellach.

## 12. Monitro ac adolygu

Ar ôl gweithredu, byddwn yn monitro effaith y cynigion hyn ar fynediad i wasanaethau ac ar gyflenwyr ac adrodd ar newidiadau.

## 13. Argymhelliad

Am y rhesymau a nodir uchod, argymhellir mabwysiadu Opsiwn 3, yn amodol ar newid yn dilyn ymgynghori ar strategaeth y CLS.



## Atodiad Pump: Meini prawf ymgynghori

Mae'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol yn ymroddedig i God Ymarfer Ymgynghori'r Llywodraeth, a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2004.

Y chwe maen prawf ymgynghori yn y Cod yw:

- a. ymgynghori'n eang drwy gydol y broses, gan ganiatáu o leiaf ddeuddeg wythnos ar gyfer ymgynghori ysgrifenedig o leiaf unwaith yn ystod datblygiad y polisi;
- b. bod yn glir pwy y medrir effeithio arnynt, pa gwestiynau sy'n cael eu gofyn, a'r amserlen ar gyfer ymatebion;
- c. sicrhau fod yr ymgynghoriad yn glir, cryno a hygyrch;
- d. rhoi adborth am yr ymatebion a dderbyniwyd a sut y mae'r broses ymgynghori wedi dylanwadu ar y polisi;
- e. monitro effeithlonrwydd eich adran, yn cynnwys drwy ddefnyddio cydlynedd ymgynghori dynodedig;
- f. sicrhau fod eich ymgynghoriad yn dilyn arfer gorau rheoleiddiad gwell, yn cynnwys cynnal Asesiad Effaith Rheoleiddiol os yn briodol.

Mae geiriad llawn Cod y Llywodraeth ar gael ar wefan y Swyddfa Cabinet yn [www.cabinet-office.gov.uk/regulation/consultation/code.htm](http://www.cabinet-office.gov.uk/regulation/consultation/code.htm).